



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 22 Mehefin 2010
Tuesday, 22 June 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 34 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement
- 41 Datganiad am Faterion sy'n Ymwneud ag Addasu Genetig
Statement on Genetically Modified Issues
- 57 Datganiad am Gyn-filwyr ac Aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru sy'n
Gwasanaethu ar Hyn o Bryd
Statement on Veterans and Serving Members of the Armed Forces in Wales
- 76 Datganiad am Wella'r Ddarpariaeth o Feddyginiaethau sydd ar gael i Gleifion yng
Nghymru
Statement on Improving the Availability of Medicines for Patients in Wales
- 95 Yr Astudiaeth Ymchwil Annibynnol a Gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad
Cymru, 'Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru'
The Welsh Assembly Government Commissioned Independent Research Study, 'Study
to Examine the Planning Application Process in Wales'
- 111 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the First Minister.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Llywodraeth y DU

C1 Nerys Evans: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU? OAQ(3)2957(FM)

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU i drafod amrywiaeth o faterion.

Nerys Evans: We have just heard details of the emergency budget from the new Government in London. We, in Plaid Cymru, have said for months that cutting too much too soon will risk economic recovery. The *Financial Times* yesterday claimed that radical spending cuts and tax rises could see Wales being affected twice as badly as more prosperous areas of England. Many commentators have also said that the new UK Government's plans could see the loss of tens of thousands of jobs in Wales, and that the value-added tax rise to 20 per cent, which has just been announced, will hit poorer people in Wales disproportionately. What detailed discussions have taken place between the Treasury and the Assembly Government in the run-up to today's emergency budget? Would the First Minister agree that the refusal to acknowledge Wales's needs, the refusal to implement the Holtham report's findings for fair funding for Wales, and the refusal to consult with the Welsh Assembly Government properly shows that this new Tory-Lib Dem Government is completely out of touch with the needs of Wales, that we are not all in this together, and that the respect agenda is dead in the water?

The First Minister: There are many issues that trouble me in this budget, but with regard

The UK Government

Q1 Nerys Evans: What recent discussions has the First Minister had with the UK Government? OAQ(3)2957(FM)

The First Minister (Carwyn Jones): I meet regularly with UK Government Ministers to discuss a variety of matters.

Nerys Evans: Yr ydym newydd glywed manylion y gyllideb frys gan y Llywodraeth newydd yn Llundain. Yr ydym ni, ym Mhlaid Cymru, wedi dweud ers misoedd y bydd torri gormod yn rhy gynnar yn peryglu adferiad economaidd. Honnodd y *Financial Times* ddoe y byddai toriadau ar wariant a chodiadau trethi radicalaidd yn gallu effeithio ddwywaith yn waeth ar Gymru nag ar ardaloedd mwy ffyniannus yn Lloegr. Mae llawer o sylwebyddion hefyd wedi dweud y byddai cynlluniau Llywodraeth newydd y DU yn gallu arwain at golli degau o filoedd o swyddi yng Nghymru, ac y bydd codi treth ar werth i 20 y cant, sydd newydd ei gyhoeddi, yn effeithio'n anghyfartal ar bobl dlotach yng Nghymru. Pa drafodaethau manwl sydd wedi digwydd rhwng y Trysorlys a Llywodraeth y Cynulliad yn y cyfnod cyn y gyllideb frys heddiw? A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod y gwrthodiad i gynnabod anghenion Cymru, y gwrthodiad i weithredu ar y casgliadau yn adroddiad Holtham ar gyfer ariannu tecach i Gymru, a'r gwrthodiad i ymgynghori'n briodol â Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dangos bod Llywodraeth newydd y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwbl anghyfarwydd ag anghenion Cymru, nad ydym i gyd yn wynebu hyn gyda'n gilydd, a bod yr agenda ar barch yn farw gelain?

Y Prif Weinidog: Mae llawer o faterion sy'n fy anesmwytho yn y gyllideb hon, ond gyda

to Wales specifically, I am shocked to see that the broadband levy has gone. In effect, that will make it exceptionally difficult to roll broadband out across rural Wales, because the market will not do it—but that is of no consequence to this coalition Government. Secondly, I am shocked that England will see a freeze in the council tax, because more money will no doubt be made available to English councils, but Wales will get nothing. The Calman commission is mentioned in the budget document, but Wales gets nothing. The Northern Ireland situation is mentioned in the budget in the context of corporation tax, but Wales gets no mention whatsoever. Furthermore, we now know that plans for the electrification of the south Wales main line have also disappeared. That shows that Wales does not feature when it comes to any discussions or thoughts on the part of the UK coalition Government.

Jonathan Morgan: Although it is tempting to focus on the budget as this is the first question this afternoon, it must also be noted that the UK Government is doing many things to respond to the concerns of the people of the United Kingdom. One such concern is around ‘garden grabbing’, and the UK Government is considering whether to review the planning process to ensure that large parcels of land in the garden of someone’s home cannot be sold off for housing development. There are many examples throughout our capital city and throughout Wales of areas where garden grabbing has been a huge local issue. I am sure that many of my Assembly colleagues, including many of your Government colleagues, First Minister, have received letters of complaint from constituents about that threat. Will the Welsh Assembly Government now look at what the UK Government has proposed to see whether the planning framework in Wales also needs to be changed to take account of that, so that we do not see gardens sold off for housing?

The First Minister: I have heard of that being done in some parts of Wales, although not in my part of Wales. Local authorities will have the ability in future, via their local development plans and Assembly Government guidance, to ensure that

golwg ar Gymru’n benodol, yr wyf yn synnu o weld bod yr ardoll ar gyfer band eang wedi mynd. O ganlyniad i hynny, bydd yn eithriadol o anodd cyflwyno band eang ledled Cymru wledig, oherwydd ni wnaiff y farchnad hynny—ond nid yw hynny o bwys i’r Llywodraeth glymblaid hon. Yn ail, yr wyf yn synnu o weld y bydd y dreth gyngor yn cael ei rhewi yn Lloegr, gan ei bod yn sicr y darperir mwy o arian i gynghorau yn Lloegr, ond ni chaiff Cymru ddim. Mae cyfeiriad at gomisiwn Calman yn nogfen y gyllideb, ond ni chaiff Cymru ddim. Cyfeirir at y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon yn y gyllideb yng nghyd-destun treth gorfforaethol, ond nid oes sôn am Gymru o gwbl. At hynny, gwyddom bellach fod cynlluniau ar gyfer trydaneiddio prif reilffordd y de wedi diflannu hefyd. Mae hynny’n dangos nad oes lle i Gymru mewn unrhyw drafodaethau neu ystyriaethau ar ran Llywodraeth glymblaid y DU.

Jonathan Morgan: Er bod temtasiwn i ganolbwyntio ar y gyllideb gan mai hwn yw’r cwestiwn cyntaf y prynhawn yma, rhaid nodi hefyd fod Llywodraeth y DU yn gwneud llawer o bethau i ymateb i bryderon pobl y Deyrnas Unedig. Mae un o’r pryderon hynny’n ymwneud â ‘chipio gerddi’, ac mae Llywodraeth y DU yn ystyried a ddylai adolygu’r broses gynllunio i sicrhau na ellir gwerthu parseli mawr o dir yng ngardd cartref rhywun er mwyn datblygu tai. Mae llawer o enghreifftiau ym mhob rhan o’n prifddinas a ledled Cymru o ardaloedd lle y mae cipio gerddi wedi bod yn fater lleol o bwys mawr. Yr wyf yn sicr bod llawer o’r cyd-Aelodau yn y Cynulliad, gan gynnwys llawer o’ch cyd-Weinidogion yn y Llywodraeth, Brif Weinidog, wedi cael llythrau cwyno gan etholwyr ynghylch y bygythiad hwnnw. A wnaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru edrych yn awr ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU wedi’i gynnig i weld a oes angen newid y fframwaith cynllunio yng Nghymru hefyd i gymryd sylw o hynny, fel na welwn werthu gerddi ar gyfer codi tai?

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi clywed bod hynny wedi digwydd mewn rhai rhannau o Gymru, er nad yw wedi digwydd yn fy ardal i. Yn y dyfodol bydd awdurdodau lleol yn gallu sicrhau, drwy eu cynlluniau datblygu lleol a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad,

inappropriate development does not happen. What is important is that sufficient evidence be placed before the Government giving rise to a perception of there being a problem. I have heard of that being done in Cardiff, as you have mentioned, and I have heard of it being done—or alleged to have been done—in Monmouthshire. I have not heard of it happening anywhere else in Wales, but, should further evidence be produced, we will be pleased to consider it.

The Presiding Officer: I call Ann Jones.

Ann Jones: Not on this question, Llywydd. I am down to ask question 5.

The Presiding Officer: Yes, I know, but I have your name down to ask a supplementary question now as well. I call Alun Davies.

Alun Davies: First Minister, when you next meet members of the UK Government, perhaps you could tell them what David Melding told BBC Scotland last month, namely that it is wholly unacceptable and a shocking practice to appoint English MPs as Secretaries of State for Wales. David Melding told the world that the Conservative Party had made some terrible errors in appointing English Secretaries of State for Wales. He said that it was quite unacceptable, and that, although he had some misgivings at the time, he was not courageous enough to speak out about it then. Perhaps, First Minister, you will be courageous enough to speak out about it now.

The First Minister: It is wrong, in principle, for the Secretary of State for Wales to represent a constituency outside Wales. That was true in the days of John Redwood, David Hunt, Peter Walker and William Hague, and it remains true now. However, given the dearth of talent from Wales on the Conservative benches at Westminster, perhaps I should sympathise with David Cameron, because he did not really have much of a choice.

na fydd datblygu amhriodol yn digwydd. Yr hyn sy'n bwysig yw y cyflwynir tystiolaeth ddigonol i'r Llywodraeth a fydd yn creu canfyddiad bod problem yn bodoli. Yr wyf wedi clywed i hynny ddigwydd yng Nghaerdydd, fel yr ydych wedi crybwyll, ac yr wyf wedi clywed iddo ddigwydd—neu glywed honiad iddo ddigwydd—yn sir Fynwy. Nid wyf wedi clywed iddo ddigwydd mewn unrhyw le arall yng Nghymru, ond, os dangosir tystiolaeth bellach, byddwn yn falch o'i hystyried.

Y Llywydd: Galwaf Ann Jones.

Ann Jones: Nid ar y cwestiwn hwn, Llywydd. Yr wyf wedi fy rhestru i ofyn cwestiwn 5.

Y Llywydd: Ydych, yr wyf yn gwybod, ond mae'ch enw wedi'i restru i ofyn cwestiwn atodol yn awr hefyd. Galwaf Alun Davies.

Alun Davies: Brif Weinidog, pan fyddwch yn cwrrd nesaf ag aelodau o Lywodraeth y DU, efallai y gallech ddweud wrthynt yr hyn a ddywedodd David Melding wrth BBC Scotland y mis diwethaf, sef ei bod yn gwbl annerbyniol ac yn arfer cywilyddus penodi ASau o Loegr yn Ysgrifenyddion Gwladol dros Gymru. Dywedodd David Melding ar goedd fod y Blaid Geidwadol wedi gwneud rhai camgymeriadau dybryd wrth benodi Ysgrifenyddion Gwladol o Loegr dros Gymru. Dywedodd ei bod yn hollol annerbyniol, ac, er bod ganddo rai amheuan ar y pryd, nad oedd yn ddigon eofn i godi ei lais yn ei gylch bryd hynny. Brif Weinidog, efallai y byddwch chi'n ddigon eofn i godi llais yn ei gylch yn awr.

Y Prif Weinidog: Mae'n anghywir, o ran egwyddor, i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru fod yn un sy'n cynrychioli etholaeth y tu allan i Gymru. Yr oedd hynny'n wir yn nyddiau John Redwood, David Hunt, Peter Walker a William Hague, ac mae'n dal yn wir heddiw. Er hynny, o gofio prinder y doniau o Gymru ar feinciau'r Ceidwadwyr yn San Steffan, efallai y dylwn gydymdeimlo â David Cameron, oherwydd nid oedd ganddo fawr o ddewis mewn gwirionedd.

Wales's Economy

Q2 Angela Burns: Will the First Minister make a statement on his immediate priorities for Wales's economy? OAQ(3)2953(FM)

The First Minister: Yes, Angela. Our priority for the next 12 months will be to deliver the policies and programmes developed through the economic renewal programme.

Angela Burns: Thank you very much for that answer, First Minister. I listened to Nerys Evans's question to you and the answer that you gave. We talk a lot here about the things that we cannot have, the cuts that we might have to face, the cuts that we are facing, and all the rest of it, but what about the things that we can do to improve our economy? I draw to your attention the Milford Haven waterway, which is one of the most successful ports in the United Kingdom. It is the third largest port in the United Kingdom, the largest port in Wales, and one of the few true deep-water shipping areas. I urge you to consider holding a meeting of the big players in that area. It is the hub of Wales's energy sector and is one of the key economic tools for Wales, and yet we spend very little time looking at it strategically, even though it is included in the Wales spatial plan. I draw your attention to the port of Liverpool, where evidence has shown that, for every £1 spent and created within and by the port, another £8 is generated for the hinterland surrounding it. I believe that we could create exactly the same effect in Pembrokeshire, which would benefit the county and Wales. However, we need a targeted team to look at it to see how we can develop all the economic muscle that we need to develop in that particular area.

The First Minister: I take the point that you make and support it in principle. I have to single out Pembrokeshire County Council and praise it for the work that it has done in the port. I know that it has been active in promoting both sides of the haven, as well as its other major port at Fishguard. I have met officials from the county council over the past few months to discuss the future of the

Economi Cymru

C2 Angela Burns: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei brif flaenoriaethau ar gyfer economi Cymru? OAQ(3)2953(FM)

Y Prif Weinidog: Gwnaf, Angela. Ein blaenoriaeth ar gyfer y 12 mis nesaf fydd cyflawni'r polisiau a'r rhaglenni a ddatblygwyd drwy raglen adnewyddu'r economi.

Angela Burns: Diolch yn fawr iawn i chi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Gwrandewais ar y cwestiwn a ofynnodd Nerys Evans i chi a'r ateb a roesoch. Byddwn yn sôn yn aml yma am y pethau na allwn eu cael, y toriadau y gallem orfod eu hwynebu, y toriadau yr ydym yn eu hwynebu, a phob dim arall, ond beth am y pethau y gallwn eu gwneud i wella ein heconomi? Tynnaf eich sylw at ddyfrffordd Aberdaugleddau, sy'n un o'r porthladdoedd mwyaf llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig. Ef yw'r porthladd trydydd mwyaf yn y Deyrnas Unedig, y porthladd mwyaf yng Nghymru, ac un o'r ychydig ardaloedd dŵr dwfn sydd ar gael i longau mewn gwirionedd. Yr wyf yn eich annog i ystyried cynnal cyfarfod o'r busnesau mawr yn yr ardal honno. Mae'n ganolbwynt i sector ynni Cymru ac yn un o'r offer economaidd allweddol i Gymru, ac eto ychydig o amser a dreuliwn yn edrych arni'n strategol, er ei bod wedi'i chynnwys yng nghynllun gofodol Cymru. Tynnaf eich sylw at borthladd Lerpwl, lle y mae tystiolaeth wedi dangos, am bob £1 a gaiff ei gwario a'i chreu gan y porthladd ac oddi mewn iddo, fod £8 arall yn cael ei greu ar gyfer y gefnwlad sydd o'i gwmpas. Credaf y gallem greu effaith o'r un math yn union yn sir Benfro, a fyddai o fudd i'r sir ac i Gymru. Fodd bynnag, mae arnom angen tîm penodol i edrych arni i weld sut y gallwn feithrin yr holl gryfder economaidd y mae ei angen arnom yn yr ardal honno.

Y Prif Weinidog: Derbyniaf y pwynt yr ydych yn ei wneud ac yr wyf yn ei gefnogi o ran egwyddor. Rhaid imi sôn yn benodol am Gyngor Sir Benfro a'i ganmol am y gwaith y mae wedi'i wneud yn y porthladd. Gwn iddo fod yn weithgar wrth hyrwyddo dwy ochr y porthladd, yn ogystal â'i borthladd mawr arall yn Abergwaun. Yr wyf wedi cwrrd â swyddogion o'r cyngor sir dros y misoedd

waterway at Milford Haven. Should there be a need to bring forward an overarching body to do that, that could be considered.

Brian Gibbons: First Minister, you will be aware that the support that the European Union provides for the coal and steel industry has been quite limited for many years, and we quite understand that the reasons for that policy go back to the 1950s and early 1960s. However, you will be aware that the EU is reviewing its approach to the coal and steel industries. Are you in a position to make any representations, either to the UK Government or to the EU, encouraging a much more positive attitude towards the coal and steel industries, to allow them to modernise and to allow us to use the natural resources that Wales has, but also to allow a modern steel industry with low carbon consumption to emerge so that Wales can be a part of the cutting edge in steel production?

The First Minister: I agree, Brian. There is sometimes a perception that coal and steel are industries that necessarily have a large carbon footprint. It is true that they have a significant carbon footprint, but it is reducing and we should remember that. The investment put into Corus in Port Talbot has been impressive, particularly for the collection of gas from the basic oxygen steel-casting plant, the greenery in the steelworks, and the commitment to reducing the carbon footprint of the works. We know that Corus in Port Talbot employs many thousands of people, either directly or indirectly, as, indeed, does the coal industry, particularly in the Neath valley. If we are to ensure that we have lower-carbon yet high-quality steel and coal industries in Wales, it is important that we have as much flexibility as possible to invest in training, particularly in those sectors. We certainly want to ensure that as much support as possible is made available. If that means examining the way in which the European Union has, historically, dealt with these matters, particularly since the establishment of the European Coal and Steel Community, so be it.

diwethaf i drafod dyfodol y ddyfrffordd yn Aberdaugleddau. Pe byddai angen sefydlu corff cyffredinol i wneud hynny, gellid ystyried hynny.

Brian Gibbons: Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod y cymorth y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei ddarparu ar gyfer y diwydiant glo a dur wedi bod yn eithaf cyfyngedig am flynyddoedd lawer, ac yr ydym yn deall yn llwyr fod y rhesymau dros y polisi hwnnw'n deillio o'r 1950au a dechrau'r 1960au. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol bod yr UE yn adolygu ei ddull o drafod y diwydiannau glo a dur. A ydych mewn lle i gyflwyno unrhyw sylwadau, un ai i Lywodraeth y DU neu i'r UE, i gymell ymagwedd fwy cadarnhaol o lawer at y diwydiannau glo a dur, i ganiatáu iddynt foderneiddio a chaniatáu i ni ddefnyddio'r adnoddau naturiol sydd gan Gymru, ond hefyd i ganiatáu i ddiwydiant dur modern ddatblygu, sy'n isel ei ddefnydd o garbon, fel y gall Cymru fod yn y rheng flaen o ran cynhyrchu dur?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno, Brian. Mae canfyddiad weithiau fod y diwydiannau glo a dur yn sicr o fod ag ôl troed carbon mawr. Mae'n wir bod ganddynt ôl troed carbon sylweddol, ond mae'n lleihau a dylem gofio hynny. Mae'r buddsoddi yng ngwaith Corus ym Mhort Talbot wedi bod yn drawiadol, yn enwedig ar gyfer casglu nwy o'r gwaith gwneud dur ocsigen sylfaenol, y llystyfiant yn y gwaith dur, a'r ymrwymiad i leihau ôl troed carbon y gwaith. Gwyddom fod Corus ym Mhort Talbot yn cyflogi miloedd lawer o bobl, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fel y mae'r diwydiant glo, yn wir, yn enwedig yng nghwm Nedd. Er mwyn inni sicrhau bod gennym ddiwydiannau dur a glo yng Nghymru sy'n isel eu defnydd o garbon ac eto o ansawdd uchel, mae'n bwysig inni gael cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl i fuddsoddi mewn hyfforddiant, yn enwedig yn y sectorau hynny. Yn sicr, yr ydym am sicrhau bod cymaint o gymorth ar gael ag sy'n bosibl. Os yw hynny'n golygu edrych ar y modd y mae'r Undeb Ewropeaidd wedi delio â'r materion hyn yn hanesyddol, yn enwedig ers sefydlu Cymuned Glo a Dur Ewrop, boed felly.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Good afternoon, First Minister. You have raised the issue of support from the coalition Government to Welsh projects; therefore, I am sure that you would like to join me in saying what good news it is that the loan guarantee of £360 million has been confirmed by the Treasury for Ford plants, to include the Bridgend plant in your constituency. I hope that the First Minister agrees that that is excellent news for Wales.

1.40 p.m.

The First Minister: Yes, it is very much to be welcomed, but it has to be balanced against the fact that we want to ensure, over the next few years, that infrastructure in Wales is improved for business. It will not help that we will not get the electrification of the south Wales main railway line, or that we will not have money made available to increase broadband provision and uptake, particularly in rural Wales. Welcome though the guarantee is, I am afraid that major structural issues over the next few years will affect businesses' ability to set up and prosper in Wales.

Nick Bourne: The First Minister is right about the importance of business. He stressed in his leadership manifesto at the end of last year the good relationship with business that he wants the Assembly Government to have. When I asked him on 2 February what he was doing in relation to his pledge to provide a better model than the business partnership council along with economic summits, he said that he would try to find a model that encapsulated both over the next few weeks. Are we any closer to that decision, some six months later?

The First Minister: We are analysing the responses that we have had from members of the business partnership council and from the economic summits, and I am looking to make an announcement before the summer recess. You will be aware of the economic renewal programme. There will be an announcement on that in due course, and that will form a part of the package that we want to put in

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Prynawn da, Brif Weinidog. Yr ydych wedi codi mater y cymorth y mae'r Llywodraeth glymblaid yn ei roi i brosiectau yng Nghymru; felly, yr wyf yn siŵr yr hoffech ymuno â mi wrth ddweud pa mor dda yw'r newydd bod y Trysorlys wedi cadarnhau ei fod yn gwarantu benthyciad o £360 miliwn i weithfeydd Ford, gan gynnwys gwaith Pen-y-bont ar Ogwr yn eich etholaeth chi. Yr wyf yn gobeithio bod y Prif Weinidog yn cytuno bod hynny'n newyddion rhagorol i Gymru.

Y Prif Weinidog: Ydyw, mae i'w groesawu'n fawr iawn, ond rhaid ei bwysu yn erbyn y ffaith ein bod am sicrhau, dros y blynyddoedd nesaf, y caiff seilwaith yng Nghymru ei wella ar gyfer busnes. Ni fydd o gymorth na welwn drydaneiddio'r brif reilffordd yn y de, na darparu arian i gynyddu'r ddarpariaeth a'r defnydd o fand eang, yn enwedig yng Nghymru wledig. Er mor dderbyniol yw'r warrant, mae arnaf ofn y bydd materion strwythurol sylweddol yn effeithio ar allu busnesau i ymsefydlu a ffynnu yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf.

Nick Bourne: Mae'r Prif Weinidog yn llygad ei le wrth sôn am bwysigrwydd busnes. Pwysleisiodd yn ei fanifesto ar gyfer yr arweinyddiaeth ddiweddedd y flwyddyn ddiwethaf ei fod am weld perthynas dda rhwng busnes a Llywodraeth y Cynulliad. Pan ofynnais iddo ar 2 Chwefror pa gamau yr oedd yn eu cymryd mewn cysylltiad â'i addewid i ddarparu model gwell na'r cyngor partneriaeth busnes ynghyd ag uwchgynadleddau economaidd, dywedodd y byddai'n ceisio canfod model a fyddai'n cynnwys y ddau dros yr wythnosau nesaf. A ydym yn nes at gael y penderfyniad hwnnw, tua chwe mis yn ddiweddarach?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn dadansoddi'r ymatebion yr ydym wedi'u cael gan aelodau o'r cyngor partneriaeth busnes ac o'r uwchgynadleddau economaidd, a rhagwelaf y byddaf yn gwneud cyhoeddiad cyn toriad yr haf. Byddwch yn ymwybodol o raglen adnewyddu'r economi. Bydd cyhoeddiad am hynny maes o law, a bydd hynny'n rhan o'r pecyn yr ydym am ei greu ar gyfer busnesau

place for businesses across Wales. However, it will not help if we do not have the broadband or transport infrastructure in place. Both those announcements in the budget speech today will have a severe effect on Wales's ability to compete in the future.

Nick Bourne: I welcome the fact that, albeit belatedly, we will get that statement before the recess. It is important that we know what structure is being put in place for the business partnership council, which has statutory backing. There is also the business scheme, of course. We have had a few meetings of the business partnership council in the third Assembly, but major criticisms are still being made by many private sector institutions about the Welsh Assembly Government's attitude towards the private sector. The Institute of Directors said that it thought that there was a suspicion of the private sector within the Government—it has said that in documents—and the Royal Institution of Chartered Surveyors said the same in relation to entrepreneurs. What assurance can you give the private sector that your Government is wholly engaged with it, given your rather tardy response? You said that you would set up these new structures within a few weeks, but it is now much more than a few months.

The First Minister: Despite what was announced today in the budget, I make it clear that the Welsh Assembly Government wants the private sector to grow, which means ensuring that more young people feel able to set up businesses and prosper, and that businesses feel that the ground has been prepared properly for them in Wales. That is why the economic renewal programme will be so important in determining Wales's future. Wales is a country that is open for business and, over the next month or so, businesses will see an underpinning of that principle.

Gareth Jones: Ar yr un trywydd, Brif Weinidog, pa effaith a gaiff y cynnydd mewn treth ar werth a'r newidiadau eraill a gyhoeddwyd yng nghyllideb y glymblaid yn gynharach heddiw ar economi Cymru a busnesau bach a mawr?

ledled Cymru. Fodd bynnag, ni fydd o les os na fydd y seilwaith wedi'i sefydlu ar gyfer band eang neu drafndiaeth. Bydd y ddau gyhoeddiad hynny yn araith y gyllideb heddiw'n effeithio'n ddirfawr ar allu Cymru i gystadlu yn y dyfodol.

Nick Bourne: Croesawaf y ffaith y cawn y datganiad hwnnw, er ei fod yn hwyr, cyn y toriad. Mae'n bwysig inni gael gwybod pa strwythur sy'n cael ei sefydlu ar gyfer y cyngor partneriaeth busnes, sydd ar sail statudol. Dyna'r cynllun busnes hefyd, wrth gwrs. Mae'r cyngor partneriaeth busnes wedi cwrdd ychydig o weithiau yn y trydydd Cynulliad, ond ceir beirniadu llym o hyd gan lawer o sefydliadau yn y sector preifat am ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at y sector preifat. Dywedodd Sefydliad y Cyfarwyddwyr ei fod yn credu bod drwgdybiaeth o'r sector preifat o fewn y Llywodraeth—mae wedi dweud hynny mewn dogfennau—a dywedodd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yr un peth mewn cysylltiad ag entrepreneuriaid. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r sector preifat fod eich Llywodraeth wedi ymgysylltu'n llawn ag ef, o gofio am yr ymateb hwyrfrydig braidd a gafwyd gennych? Dywedasoch y byddech yn sefydlu'r strwythurau newydd hyn o fewn ychydig wythnosau, ond mae bellach yn llawer mwy nag ychydig fisoedd.

Y Prif Weinidog: Er gwaethaf yr hyn a gyhoeddwyd heddiw yn y gyllideb, datganaf yn glir fod Llywodraeth Cynulliad Cymru am weld y sector preifat yn tyfu, ac mae hynny'n golygu sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn teimlo y gallant sefydlu busnesau a ffynnu, a bod busnesau'n teimlo bod y tir wedi'i fraenaru'n iawn ar eu cyfer yng Nghymru. Dyna pam y bydd rhaglen adnewyddu'r economi mor bwysig wrth benderfynu dyfodol Cymru. Mae Cymru'n wlad sy'n agored i fusnes a, dros y mis nesaf fwy neu lai, bydd busnesau'n gweld sylfaen i'r egwyddor honno.

Gareth Jones: Along the same lines, First Minister, what effect will the increase in value-added tax and the other changes announced in the coalition's budget earlier today have on the Welsh economy and small and large businesses?

Y Prif Weinidog: Mae gennyf ofnau mawr am yr hyn sydd wedi'i ddatgan heddiw. Mae TAW wedi cynyddu, sy'n golygu y bydd y sawl sy'n ennill y lleiaf yn talu'r mwyaf. Mae hynny'n hollol *regressive*. Gwyddom hefyd y bydd budd-dal plant yn cael ei rewi am dair blynedd, a fydd eto yn effeithio ar y sawl sydd â llai o arian. Hefyd, bydd credydau treth plant yn cael eu lleihau. Yn y pen draw, yr hyn a welwn yma yw cyllideb lle mae'r sawl sydd â'r lleiaf yn talu'r mwyaf.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): In 2009, your Government commissioned McKinsey and Company to work alongside your health department to look at the efficiency of the health service. Will you publish that report?

The First Minister: There are reports that we will publish if we feel that it is right to do so, but there are some reports that are made to Ministers that are necessarily private. That is the nature of government.

Kirsty Williams: I am surprised at your answer, because your Minister for Health and Social Services has claimed in reply to written Assembly questions that there is no such report. You have just confirmed that there is a report but you have chosen not to publish it. Given that the Department of Health in England has published its McKinsey report, which points to the ability to make efficiencies of between 19 and 22 per cent in the national health service in England, do you not feel it right for the Welsh public to have sight of McKinsey's recommendations for Wales?

The First Minister: If you had listened carefully to my answer, you would have heard that I made no reference to any single report.

Kirsty Williams: There was a report in your first answer, but now, suddenly, we do not have a report. Regardless of whether you acknowledge that there is a report, the reality is that you spent a considerable amount of money commissioning experts to look at the NHS in Wales, and I believe that we have a right to see their recommendations, given that

The First Minister: I have great fears about what has been announced today. VAT has increased, which means that those who earn the least will pay the most. That is completely regressive. We also know that child benefits are to be frozen for three years, which will also affect those who have less money. In addition, the child tax credits are to be reduced. Ultimately, what we see here is a budget in which those with the least pay the most.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Yn 2009, gwnaeth eich Llywodraeth gomisiynu McKinsey and Company i weithio ochr yn ochr â'ch adran iechyd i edrych ar effeithlonrwydd y gwasanaeth iechyd. A wnewch gyhoeddi'r adroddiad hwnnw?

Y Prif Weinidog: Mae adroddiadau y gwnawn eu cyhoeddi os teimlwn fod hynny'n briodol, ond mae rhai adroddiadau a roddir i Weinidogion sy'n breifat o reidrwydd. Dyna natur llywodraeth.

Kirsty Williams: Yr wyf yn synnu at eich ateb, gan fod eich Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi honni mewn ateb i gwestiynau Cynulliad ysgrifenedig nad oes y fath adroddiad. Yr ydych newydd gadarnhau bod adroddiad ond yr ydych wedi dewis peidio â'i gyhoeddi. O gofio bod yr Adran Iechyd yn Lloegr wedi cyhoeddi ei hadroddiad hi gan McKinsey, sy'n cyfeirio at y gallu i arbed rhwng 19 a 22 y cant drwy effeithlonrwydd yn y gwasanaeth iechyd gwladol yn Lloegr, oni theimlwch ei bod yn iawn i'r cyhoedd yng Nghymru gael gweld argymhellion McKinsey ar gyfer Cymru?

Y Prif Weinidog: Pe byddech wedi gwrandao'n ofalus ar fy ateb, byddech wedi clywed na chyfeiriaais at unrhyw adroddiad penodol.

Kirsty Williams: Yr oedd sôn am adroddiad yn eich ateb cyntaf, ond yn awr, yn sydyn, nid oes adroddiad. Pa un a ydych yn cydnabod bod adroddiad neu beidio, y gwir yw ichi wario swm sylweddol o arian i gomisiynu arbenigwyr i edrych ar y GIG yng Nghymru, a chredaf fod gennym hawl i weld eu hargymhellion, o gofio eu bod wedi'u talu

they were paid using Welsh taxpayers' money. Even if you are not willing to publish them, we know that McKinsey's work influenced 'Delivering a Five-year Service, Workforce and Financial Strategic Framework for NHS Wales', which your Government has published. That report states that the outcomes for Welsh patients are 'poorer than peers', that hospital capacity is 'strained by suboptimal use', that other resources are 'used less efficiently' than they could be, and that 'Access challenges persist' in the Welsh NHS. As a Government, you have had 11 years in which to address these situations in the Welsh NHS. What can we see from your Government in the remaining dying days of your administration to address that poor performance?

The First Minister: First of all, you criticise us for a lack of transparency, but then you make our transparency clear for all to see. I cannot say that I am surprised by your viewpoint today, Kirsty. Watching the budget speech, I noticed Nick Clegg on one side of George Osborne, looking as though he were perpetually at a funeral, and Danny Alexander on the other, shifting uncomfortably as though to suppress an unwelcome burst of flatulence. As for David Cameron, we could not see him at all. However, another camera angle revealed that he was sitting right behind George Osborne, which does not surprise me, because, of course, someone has to operate the controls.

Kirsty Williams: With all due respect, First Minister, that is exactly what I am asking you to do: operate the controls on the NHS in Wales. Whatever you say about the Government in London, the fact is that your NHS is deemed by your own officials to have poorer outcomes than those for England, to have some of the poorest cancer survival rates in Europe, and to have resources that are not used efficiently. Rather than get to grips with the problems that affect Welsh patients today, it seems that you would rather talk about another time and another place. Perhaps you would like to address my question now. What are you going to do to improve outcomes for Welsh patients?

ag arian trethdalwyr Cymru. Hyd yn oed os nad ydych yn barod i'w cyhoeddi, gwyddom fod gwaith McKinsey wedi dylanwadu ar 'Delivering a Five-year Service, Workforce and Financial Strategic Framework for NHS Wales', sydd wedi'i gyhoeddi gan eich Llywodraeth. Mae'r adroddiad hwnnw'n datgan bod y canlyniadau i gleifion yng Nghymru'n waeth na rhai eu cymheiriaid, bod capasiti ysbytai dan straen oherwydd defnydd is-optimaid, bod adnoddau eraill yn cael eu defnyddio'n llai effeithlon nag y gellid eu defnyddio, a bod heriau o hyd o ran mynediad yn GIG Cymru. Fel Llywodraeth, yr ydych wedi cael 11 mlynedd i ddelio â'r sefyllfaoedd hyn yn GIG Cymru. Beth a gawn gan eich Llywodraeth yn nyddiau olaf eich gweinyddiaeth i ddelio â'r perfformiad gwael hwnnw?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf oll, yr ydych yn ein beirniadu oherwydd diffyg tryloywder, ond wedyn yr ydych yn dangos i bawb ein bod yn gweithredu'n dryloyw. Ni allaf ddweud fy mod yn synnu at eich safbwynt heddiw, Kirsty. Wrth wyllo araith y gyllideb, sylwais ar Nick Clegg ar un ochr i George Osborne, a golwg arno fel pe bai mewn angladd, a Danny Alexander ar yr ochr arall, yn gwingo fel pe bai'n ceisio dal gwynt annifyr yn ôl. Am David Cameron, ni allem ei weld o gwbl. Fodd bynnag, dangosodd camera o gyfeiriad arall ei fod yn eistedd yn union y tu ôl i George Osborne, ac nid yw hynny'n fy synnu, oherwydd, wrth gwrs, rhaid i rywun weithio'r offer rheoli.

Kirsty Williams: Gyda phob dyledus barch, Brif Weinidog, dyna'r union beth yr wyf yn gofyn ichi ei wneud: gweithio offer rheoli'r GIG yng Nghymru. Beth bynnag a ddywedwch am y Llywodraeth yn Llundain, y gwir yw bod eich swyddogion eich hun o'r farn bod canlyniadau'ch GIG chi'n waeth na'r rheini ar gyfer Lloegr, bod ei gyfraddau goroesi canser ymysg y gwaethaf yn Ewrop, ac nad yw ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon. Yn hytrach na mynd i'r afael â'r problemau sy'n effeithio ar gleifion yng Nghymru heddiw, ymddengys y byddai'n well gennych sôn am adeg arall a lle arall. Efallai yr hoffech ateb fy nghwestiwn yn awr. Beth fyddwch yn ei wneud i wella canlyniadau i gleifion yng Nghymru?

The First Minister: Let us talk about today. On a programme on Radio Wales this morning, two families were interviewed. One was a family of Conservative voters living in Cardiff North; the husband in the other was a lifelong Lib Dem voter, and he said that he was afraid of the budget and the cuts being made because he felt that the NHS in Wales was 'going in the right direction'. That was the phrase that he used. He was one of your own voters, and that was this morning. When a Lib Dem voter who works in the health service says that it is going in the right direction, that is an indication that that is precisely where the health service is going. The NHS has improved markedly during the time of the One Wales Government and before that, and we are very proud of it.

Kirsty Williams: It is absolutely outrageous that the First Minister can make such claims. His own document points to the significant failings of the Welsh NHS, and he has been in Government for the past 11 years. I ask him again what he intends to do to address the issues raised in his own department's document, to address the mortality rates and cancer survival rates of people in Wales, and their ability to receive treatment when needed. His own department says that he is not doing a good enough job.

The First Minister: It shows our transparency that we are able to recognise areas of improvement. Once we recognise those, we will go on to make improvements. It is far better to do that than to try to hide things, as has happened at UK Government level. As I have said, the NHS in Wales has seen marked improvements over the lifetime of this Assembly Government and we will continue to improve it.

Jeff Cuthbert: Well, the cat is out of the bag. We are all still digesting the finer points of this regressive and anti-growth budget, but it is already clear that George Osborne and his Lib Dem supporters are relishing cutting tax credits, freezing child benefit, capping

Y Prif Weinidog: Gadewch inni sôn am heddiw. Ar raglen ar Radio Wales y bore yma, cafwyd cyfweiliad â dau deulu. Yr oedd un yn deulu a oedd yn pleidleisio dros y Ceidwadwyr a oedd yn byw yng Ngogledd Caerdydd; yr oedd y gŵr yn y teulu arall wedi pleidleisio dros y Democratiaid Rhyddfrydol ar hyd ei oes, a dywedodd fod arno ofn oherwydd y gyllideb a'r toriadau sy'n cael eu gwneud am ei fod yn teimlo bod y GIG yng Nghymru'n 'mynd i'r cyfeiriad iawn'. Dyna'r geiriau a ddefnyddiodd. Yr oedd yn un o'ch pleidleiswyr chi, ac yr oedd hynny y bore yma. Pan yw un o bleidleiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yn dweud ei fod yn mynd i'r cyfeiriad iawn, mae hynny'n dangos i ba gyfeiriad yn union y mae'r gwasanaeth iechyd yn mynd. Mae'r GIG wedi gwella'n sylweddol yn ystod cyfnod Llywodraeth Cymru'n Un a chyn hynny, ac yr ydym yn falch iawn ohono.

Kirsty Williams: Mae'n gwbl warthus bod y Prif Weinidog yn gallu gwneud honiadau o'r fath. Mae ei ddogfen ei hun yn cyfeirio at y diffygion sylweddol yn GIG Cymru, ac mae wedi bod mewn Llywodraeth dros yr 11 mlynedd diwethaf. Gofynnaf iddo eto beth y mae'n bwriadu ei wneud i roi sylw i'r materion a godwyd yn nogfen ei adran ei hun, i ddelio â chyfraddau marwolaethau a chyfraddau goroesi canser pobl yng Nghymru, a'u gallu i gael triniaeth pan fo angen. Dywed ei adran ei hun nad yw'n gwneud ei waith yn ddigon da.

Y Prif Weinidog: Mae'r ffaith ein bod yn gallu derbyn bod meysydd i'w gwella'n dangos ein bod yn gweithredu'n dryloyw. Wedi inni gydnabod y rheini, awn ymlaen i wneud gwelliannau. Mae'n well o lawer gwneud hynny na cheisio celu pethau, fel a ddigwyddodd ar lefel Llywodraeth y DU. Fel yr wyf wedi dweud, mae gwelliannau sylweddol wedi bod yn y GIG yng Nghymru yn ystod cyfnod y Llywodraeth Cynulliad hon a byddwn yn dal i'w wella.

Jeff Cuthbert: Wel, mae'r gath wedi'i gollwng o'r cwd. Yr ydym i gyd yn dal i amgyffred manylion y gyllideb atchweliadol hon sydd yn erbyn twf, ond mae eisoes yn glir bod George Osborne a'i gefnogwyr y Democratiaid Rhyddfrydol wrth eu bodd yn

housing benefit, scrapping child trust funds, announcing that non-protected spending departments face 25 per cent cuts, and, shamefully, as has been mentioned, raising VAT to 20 per cent. Such measures will condemn the people of Wales to a difficult future. In light of that, First Minister, will you agree with me that these are clear indications that the Conservatives have returned to their 'nasty party' roots, and that it is more important than ever for Labour in government in Wales to do all that it can to protect hard-working families and the vulnerable from Osborne's ideologically driven budget?

torri credydau treth, yn rhewi budd-dal plant, yn capio budd-dal tai, yn cael gwared ar gronfeydd ymddiriedolaeth plant, yn cyhoeddi bod adrannau gwario sydd heb eu gwarchod yn wynebu toriadau o 25 y cant, ac, yn gywilyddus, fel y crybwyllwyd, yn codi TAW i 20 y cant. Bydd mesurau o'r fath yn sicr o wneud y dyfodol yn anodd i bobl Cymru. O ystyried hynny, Brif Weinidog, a gytunwch â mi fod y rhain yn arwyddion pendant bod y Ceidwadwyr wedi mynd yn ôl at eu gwreiddiau fel y 'blaid gas', a'i bod yn bwysicach nag erioed i Lafur mewn llywodraeth yng Nghymru wneud popeth yn ei allu i amddiffyn teuluoedd sy'n gweithio'n galed a rhai sy'n agored i niwed rhag cyllideb Osborne sydd wedi'i hysgogi gan ideoleg?

1.50 p.m.

The First Minister: I could not agree more, Jeff. In the early 1950s, when the Liberal Party, as it was then known, was on its uppers, Clement Davies who was the Liberal leader with only six MPs in the House of Commons, opened negotiations with the Conservative Party with a view to effecting a merger. It has taken 60 years for it to happen, but we saw it this afternoon.

Y Prif Weinidog: Cytunaf yn llwyr, Jeff. Ar ddechrau'r 1950au, pan oedd yn fain ar y Blaid Ryddfrydol, fel yr oedd yn cael ei hadnabod bryd hynny, gwnaeth Clement Davies a oedd yn arweinydd ar y Rhyddfrydwyr a chanddo ddim ond chwe AS yn Nhŷ'r Cyffredin, gychwyn negodiadau â'r Blaid Geidwadol gyda'r bwriad o uno. Mae wedi cymryd 60 mlynedd i hynny ddigwydd, ond fe'i gwelsom y prynhawn yma.

NHS Staff

Q3 Sandy Mewies: Will the First Minister make a statement on the support available for NHS staff who suffer violence while working in the Welsh NHS? OAQ(3)2951(FM)

The First Minister: An approach piloted in Cardiff will be implemented across NHS Wales. A case manager will arrange counselling, occupational health services or any other necessary assistance to help staff overcome problems associated with violent incidents. I wish to make one thing absolutely clear, however, that a criminal offence committed in a hospital or against a member of NHS staff should be treated in exactly the same way as an offence committed anywhere else. There is no reason why NHS workers should not have the same protection as any other member of the public. I would urge all those who take these sorts of decisions in local health boards to ensure that

Staff y GIG

C3 Sandy Mewies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i staff y GIG sy'n dioddef trais wrth weithio yn y GIG yng Nghymru? OAQ(3)2951(FM)

Y Prif Weinidog: Bydd dull sydd wedi'i dreialu yng Nghaerdydd yn cael ei roi ar waith ym mhob rhan o GIG Cymru. Bydd rheolwr achos yn trefnu cwnsela, gwasanaethau iechyd galwedigaethol neu unrhyw gymorth arall y mae ei angen i helpu staff i ddatrys problemau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau treisgar. Dymunaf egluro un peth fel y bydd yn gwbl blaen, fodd bynnag, sef y dylai trosedd a gyflawnir mewn ysbyty neu yn erbyn aelod o staff y GIG gael ei drin yn yr un modd yn union â throsedd a gyflawnir mewn man arall. Nid oes rheswm pam na ddylai gweithwyr y GIG gael yr un amddiffyniad ag unrhyw aelod arall o'r cyhoedd. Byddwn yn annog pawb sy'n

they do not hold back on reporting and prosecution when violence is conducted against members of staff.

Sandy Mewies: Thank you for that answer, First Minister. I know that you are well aware that, despite a zero-tolerance policy, which has been agreed by the NHS and the four police forces in Wales, only 1 per cent of attacks have resulted in prosecutions. That is despite the fact that there were more than 8,000 such incidents in Wales last year and that that figure was an increase on that of the year before. It also seems that some health boards have taken no legal action in the last two years, despite more incidents being reported. First Minister, I am sure, because of what you said, that you will join me in condemning all such acts of violence. Is there any way that the Assembly Government can do more to encourage health boards to increase the number of prosecutions?

The First Minister: On helping victims of violent conduct or violence, I have already mentioned the pilot project that is in place. However, it is important that local health boards come down hard on people who come to hospitals and abuse or attack staff. There is no reason for it and there is no excuse for it. Certainly, the message that we, as a Government, give is that local health boards should be looking at involving the police and prosecuting, because there is no excuse for that kind of conduct on NHS premises.

Andrew R.T. Davies: One thing that staff in the NHS would greatly appreciate is an adequate complement of security guards and security personnel on health estates. Can you commit your Government to working with local health boards to ensure that an adequate complement of security guards is in place in accident and emergency departments and on the wards, so that, when a call for help is put out, help is at hand, and that, above all, the security personnel that are in place have adequate training to ensure that they can meet the demands placed upon them in the modern

gwneud penderfyniadau o'r mathau hyn mewn byrddau iechyd lleol i sicrhau na fyddant yn petruso cyn rhoi gwybod am drosedd ac erlyn os ceir trais yn erbyn aelodau staff.

Sandy Mewies: Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Gwn eich bod yn ymwybodol iawn mai dim ond 1 y cant o ymosodiadau sydd wedi arwain at erlyn, er bod y GIG a'r pedwar heddlu yng Nghymru wedi cytuno ar bolisi dim goddefgarwch. Mae hynny er gwaethaf y ffaith bod mwy nag 8,000 o ddigwyddiadau o'r fath yng Nghymru y llynedd a bod y ffigur hwnnw'n uwch na'r un ar gyfer y flwyddyn cynt. Mae hefyd yn ymddangos bod rhai byrddau iechyd nad ydynt wedi cymryd unrhyw gamau cyfreithiol yn y ddwy flynedd diwethaf, er bod mwy o ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi. Brif Weinidog, yr wyf yn sicr, oherwydd yr hyn a ddywedaso, y gwnewch ymuno â mi i gondemnio gweithredoedd treisgar o'r fath. A oes mwy y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i annog byrddau iechyd i gychwyn mwy o erlyniadau?

Y Prif Weinidog: O ran helpu rhai sy'n dioddef oherwydd ymddygiad treisgar neu drais, yr wyf eisoes wedi sôn am y prosiect treialu sydd ar waith. Fodd bynnag, mae'n bwysig i fyrddau iechyd lleol fod yn llawdrwm ar bobl sy'n dod i ysbytai ac yn cam-drin neu'n ymosod ar staff. Nid oes rheswm nac esgus dros hynny. Yn sicr, ein neges ni fel Llywodraeth yw y dylai byrddau iechyd lleol ystyried cysylltu â'r heddlu ac erlyn, oherwydd nid oes esgus dros ymddygiad o'r math hwnnw ar safleoedd y GIG.

Andrew R.T. Davies: Un peth y byddai staff y GIG yn ei werthfawrogi'n fawr yw niferoedd digonol o swyddogion diogelwch a staff diogelwch ar ystadau iechyd. A allwch rwymo'ch Llywodraeth i gydweithio â byrddau iechyd lleol i sicrhau bod niferoedd digonol o swyddogion diogelwch ar gael mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac yn y wardiau, fel bod cymorth ar gael os bydd galw amdano ac, yn fwy na dim, fod y staff diogelwch sydd yno wedi'u hyfforddi'n ddigonol i sicrhau y gallant ateb y galwadau sydd arnynt yng ngwasanaeth

twenty-first-century health service?

The First Minister: At the moment, there is a pilot scheme of high-specification closed circuit television equipment taking place in four hospitals: the Prince Charles Hospital, the Royal Gwent Hospital, Glangwili hospital and Ysbyty Gwynedd. After the conclusion of that pilot scheme, it will be important to roll out that high-specification CCTV. When CCTV first began, the quality of the film was often not good enough to prosecute people who had committed violence—it was often grainy and black and white and it sometimes consisted of frame-by-frame photographs at speed rather than a continuous flow. When that pilot scheme is concluded, we hope that it will have demonstrated that the newer CCTV is of a higher specification and will be good enough to provide evidence in a criminal court.

Irene James: First Minister, recent newspaper articles have highlighted the problem of the non-reporting of violent incidents against NHS staff. This problem is further emphasised by a Unison case study that gives the example of a nurse who was attacked by a patient in her care and who failed to report the incident. The next day, the same patient attacked another nurse, causing severe facial injuries. What is the Welsh Assembly Government doing to encourage lone workers in particular to report incidents of abuse?

The First Minister: Irene, this year, some 8,000 high-risk lone workers will benefit from a new alert system that has been funded to the tune of £1.8 million. That will connect lone workers to a call centre with trained staff who will be able to alert the emergency services.

Helen Mary Jones: First Minister, further to your answers to Sandy Mewies about encouraging health board managers to report such incidents, which we clearly need to happen more often, it has been put to me that, even on occasions when those reports are

iechyd modern yr unfed ganrif ar hugain?

Y Prif Weinidog: Ar hyn o bryd, mae cynllun treialu cyfarpar teledu cylch cyfyng manyleb uchel yn digwydd mewn pedwar ysbyty: Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Brenhinol Gwent, ysbyty Glangwili ac Ysbyty Gwynedd. Wedi i'r cynllun treialu hwnnw ddod i ben, bydd yn bwysig cyflwyno'r teledu cylch cyfyng manyleb uchel hwnnw. Pan ddechreuwyd defnyddio teledu cylch cyfyng, yn aml nid oedd ansawdd y ffilm yn ddigon da i erlyn pobl a oedd wedi cyflawni trais—yr oedd yn aml yn aneglur ac yn ddu a gwyn ac yr oedd weithiau ar ffurf cyfres o luniau llonydd a oedd yn newid yn gyflym yn hytrach na llif parhaus. Pan ddaw'r cynllun treialu hwnnw i ben, yr ydym yn gobeithio y bydd wedi dangos bod y teledu cylch cyfyng mwy diweddar yn un sydd â manyleb uwch ac y bydd yn ddigon da i ddarparu tystiolaeth mewn llys troseddol.

Irene James: Brif Weinidog, mae erthyglau diweddar mewn papurau newydd wedi tynnu sylw at y broblem o beidio â chofnodi digwyddiadau treisgar yn erbyn staff y GIG. Mae'r broblem hon wedi'i hamlygu ymhellach mewn astudiaeth achos gan Unison sy'n cyfeirio at yr enghraifft o nyrs yr ymosodwyd arni gan glaf a oedd dan ei gofal a fethodd â rhoi gwybod am y digwyddiad. Drannoeth, ymosododd yr un claf ar nyrs arall, gan achosi anafiadau difrifol i'w hwyneb. Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog gweithwyr unigol yn benodol i roi gwybod am achosion o gam-drin?

Y Prif Weinidog: Irene, eleni, bydd tua 8,000 o weithwyr unigol yn cael budd o system rybuddio newydd sydd wedi'i hariannu ar gost o £1.8 miliwn. Bydd honno'n cysylltu gweithwyr unigol â chanolfan alwadau lle y mae staff hyfforddedig a fydd yn gallu rhybuddio'r gwasanaethau brys.

Helen Mary Jones: Brif Weinidog, ymhellach i'ch atebion i Sandy Mewies am gymhell rheolwyr byrddau iechyd i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath, gan ei bod yn amlwg ein bod am weld hynny'n digwydd yn amlach, awgrymwyd i mi fod yr

made, the police and prosecution service have a tendency to treat these events less seriously because they have happened in a hospital setting. Do you agree, First Minister, that this is unacceptable? Obviously, this Government has no direct responsibility for policing and criminal justice, but the Assembly Government does give extensive support to the police service in Wales. Will you undertake, with ministerial colleagues, to talk to the police and prosecution services to ensure that, when a case is reported—it might be an incident that has taken place in a hospital or an ambulance—it is treated with exactly the same seriousness as it would be if the incident had taken place between two strangers on a street?

The First Minister: Memoranda of understanding are in place for the police and the Crown Prosecution Service to clarify and streamline arrangements between them and the NHS. I will write to the police and the CPS to ensure that this approach continues to be effective.

As I have said in the Chamber before, the Public Order Act 1986 applies in any public place, and indeed in private premises if, for example, a display is put in a window and it causes a public order situation. The Offences Against the Person Act 1861 applies in all places and in hospitals in particular. It is essential that all agencies realise that an offence is an offence, regardless of where it is committed.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(3)2973(FM), yn ôl.

Cycle Routes

Q5 Ann Jones: Will the First Minister make a statement on cycle routes in the Vale of Clwyd? OAQ(3)2954(FM)

The First Minister: Our commitment to increasing cycling is set out in the national transport and walking and cycling action plans. The provision of a Vale of Clwyd cycle route is a matter for Denbighshire County Council and Taith to take forward and prioritise through the regional transport

heddlu a'r gwasanaeth erlyn, hyd yn oed ar adegau pan wneir adroddiadau o'r fath, yn tueddu i drin y digwyddiadau hyn fel rhai llai difrifol am eu bod wedi digwydd mewn ysbyty. A ydych yn cytuno, Brif Weinidog, fod hyn yn annerbyniol? Wrth gwrs, nid oes cyfrifoldeb uniongyrchol gan y Llywodraeth hon dros yr heddlu a chyfiawnder troseddol, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cymorth helaeth i'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru. A wnewch addo y byddwch chi, a'ch cyd-Weinidogion, yn siarad â'r heddlu a'r gwasanaethau erlyn i sicrhau, pan fydd achos wedi'i gofnodi—gallai fod yn ddigwyddiad mewn ysbyty neu mewn ambiwlans—y caiff ei drafod o ddifrif i'r un graddau â phe byddai wedi digwydd rhwng dau ddieithryn ar y stryd?

Y Prif Weinidog: Mae memoranda cyd-ddealltwriaeth wedi'u gwneud ar gyfer yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i egluro a symleiddio trefniadau rhyngddynt hwy a'r GIG. Ysgrifennaf at yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau bod y dull gweithredu hwn yn dal yn effeithiol.

Fel yr wyf wedi dweud yn y Siambr o'r blaen, mae Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn gymwys i bob lle cyhoeddus ac, yn wir, i fangre breifat os yw rhywbeth wedi'i arddangos mewn ffenestr, er enghraifft, a hwnnw'n achosi helynt o ran y drefn gyhoeddus. Mae Deddf Troseddau Corfforol 1861 yn gymwys i bob man ac i ysbytai'n benodol. Mae'n hanfodol i'r holl asiantaethau sylweddoli mai trosedd yw trosedd, ymhle bynnag y mae wedi'i gyflawni.

The Presiding Officer: Question 4, OAQ(3)2973(FM), has been withdrawn.

Llwybrau Beicio

C5 Ann Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lwybrau beicio yn Nyffryn Clwyd? OAQ(3)2954(FM)

Y Prif Weinidog: Mae ein hymrwymiad i hybu beicio wedi'i nodi yn y cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar drafndiaeth a cherdded a beicio. Mae darparu llwybr beicio yn nyffryn Clwyd yn fater i'w hyrwyddo a'i flaenoriaethu gan Gyngor Sir Ddinbych a Taith drwy broses y cynllun trafndiaeth

plan process.

Ann Jones: The northern part of my county, from St Asaph to the sea, has good cycle-route connections, and many people are benefiting from that. There is also benefit to the economy from having fewer people using the health service.

Many constituents have contacted me asking that the issue of the Lôn Clwyd cycle way be revisited. That is the cycle way that goes from St Asaph down the Vale to Denbigh to Ruthin. However, people who live in the south of my constituency are unable to take up that opportunity, and they therefore miss out on the benefits that cycling can bring. Will you and your Cabinet colleagues look at the issue to see that funding for cycle ways is not cut, and will you look at ways of promoting this healthy way of travelling to work?

The First Minister: Cycling promotes a number of benefits, the first of which is the health benefit. The second affects the environment, because if we can encourage more people to cycle to work, it will reduce their carbon footprint. The third is tourism. Cycle tourism is worth a substantial amount of money to the Welsh economy, and indeed the UK economy. The better the network of cycle routes made available, the better it will be at attracting more tourism, which will bring more money to the Vale of Clwyd.

Brynle Williams: Good afternoon, First Minister. I thank Ann for bringing up the issue of cycle routes, because it is important, and not just for people's health but for tourism, too. Though we welcome the flood defences for the Towyn and Rhyl areas, building them means that, regrettably, the cycle path from Rhuddlan to Rhyl, which has not been down very long, is to be covered over to be reinstated at a later date, and all at great expense. Through your Government, can you take the time to ensure that cycle routes are better integrated into the planning system, to take account of future developments? This is a multi-million pound scheme, and it is going to be covered over, only to be re-laid. It is just bad planning on the part of the council and, I believe, the

rhanbarthol.

Ann Jones: Mae cysylltiadau da ar lwybrau beicio yn rhan ogleddol y sir, rhwng Llanelwy a'r môr, ac mae llawer o bobl yn elwa o hynny. Mae mantais hefyd i'r economi o gael llai o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth iechyd.

Mae llawer o etholwyr wedi cysylltu â mi gan ofyn am ailystyried mater llwybr beiciau Lôn Clwyd. Hwnnw yw'r llwybr beiciau sy'n mynd o Lanelwy i lawr y dyffryn i Ddinbych ac i Ruthun. Fodd bynnag, nid yw pobl sy'n byw yn rhan ddeheuol fy etholaeth yn gallu achub ar y cyfle hwnnw, ac felly maent yn colli'r manteision y gall beicio eu cynnig. A wnewch chi a'ch cyd-Weinidogion ystyried y mater er mwyn sicrhau na thorrir ar gyllid ar gyfer llwybrau beiciau, ac a wnewch ystyried dulliau o hybu'r ffordd iach hon o deithio i'r gwaith?

Y Prif Weinidog: Mae beicio'n hyrwyddo nifer o fuddion, a'r pwysicaf ohonynt yw'r budd i iechyd. Mae'r ail yn effeithio ar yr amgylchedd, oherwydd os gallwn gymell mwy o bobl i feicio i'r gwaith, bydd yn lleihau eu hól troed carbon. Y trydydd yw twristiaeth. Mae twristiaeth beicio'n werth swm sylweddol o arian i economi Cymru ac, yn wir, i economi'r DU. Po orau fydd rhwydwaith y llwybrau beicio sydd ar gael, gorau fydd hwnnw o ran denu mwy o ymwelwyr, a daw hynny â mwy o arian i ddyffryn Clwyd.

Brynle Williams: Prynawn da, Brif Weinidog. Diolchaf i Ann am godi mater llwybrau beicio, gan ei fod yn bwysig, nid yn unig er mwyn iechyd pobl ond er mwyn twristiaeth hefyd. Er ein bod yn croesawu'r amddiffynfeydd rhag llyfogydd ar gyfer ardaloedd Tywyn a'r Rhyl, o ganlyniad i'w hadeiladu, gwaetha'r modd, bydd y llwybr beicio rhwng Rhuddlan a'r Rhyl, nad yw'n hen iawn, yn cael ei orchuddio a'i ailosod rywdro yn y dyfodol, a'r cwbl ar gost fawr. Drwy'ch Llywodraeth, a allwch neilltuo amser i sicrhau bod llwybrau beicio wedi'u hintegreiddio'n well â'r system gynllunio, er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol? Mae hwn yn gynllun gwerth rhai miliynau o bunnoedd, a bydd yn cael ei orchuddio, cyn ei ailosod. Mae hynny'n enghraifft o

Welsh Assembly Government.

gynllunio gwael ar ran y cyngor a hefyd, yn fy marn i, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

The First Minister: It seems to me that, in the instance that you talk of, it is the responsibility of the councils. You make a valid point, however, which is that cycling is a pastime and a sport, but it is also a mode of transport, and all local authorities should ensure that when they are examining new schemes, whether they are housing estates or industrial schemes, cycling is an integrated part of the transport proposals that they put forward.

Y Prif Weinidog: Mae'n ymddangos i mi, yn yr achos yr ydych yn sôn amdano, ei fod yn gyfrifoldeb i'r cynghorau. Yr ydych yn gwneud pwynt dilys, er hynny, sef bod beicio'n ddifyrrwch ac yn gamp, ond mae hefyd yn fodd trafndiaeth, a dylai'r holl awdurdodau lleol sicrhau, wrth ystyried cynlluniau newydd, boed hwy'n stadau tai neu'n gynlluniau diwydiannol, fod beicio'n rhan annatod o'r cynigion y maent yn eu cyflwyno ar gyfer trafndiaeth.

2.00 p.m.

We have tried to do that in the national transport plan, and we would encourage all local authorities to do that in future.

Yr ydym wedi ceisio gwneud hynny yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol, a byddem yn annog yr holl awdurdodau lleol i wneud hynny yn y dyfodol.

Janet Ryder: First Minister, to take you back to Ann Jones's supplementary question about the extension of the cycle path, one of the things that has hampered the extension was that some of the land where the old railway line was has, officially or unofficially, been subsumed into dwellings or farmers' fields. Can your Government move that situation forward for Denbighshire County Council, and what kind of support could you give to the county council if it chose to move ahead and to complete the cycle path?

Janet Ryder: Brif Weinidog, gan fynd â chi'n ôl at gwestiwn atodol Ann Jones am ymestyn y llwybr beicio, un o'r pethau sydd wedi llesteirio'r estyniad yw bod rhywfaint o dir yr hen reilffordd wedi'i gynnwys, yn swyddogol neu'n answyddogol, mewn anheddau neu yng nghaeau ffermwyr. A all eich Llywodraeth gymryd camau ar y mater hwnnw er mwyn Cyngor Sir Ddinbych, a pha fath o gymorth y gallech ei roi i'r cyngor sir pe byddai'n dewis symud ymlaen a chwblhau'r llwybr beicio?

The First Minister: I think that I am right in saying that the county council investigated the possibility of creating a cycle route using the old line between St Asaph, Denbigh and Ruthin 10 years ago. If I remember rightly, many farmers objected strongly to it at the time, for reasons that are known to them. At the moment, the situation is that the council proposes to undertake a feasibility study to identify a potential route for a cycleway between St Asaph and Ruthin. No route has been identified as yet, but if any railway land has been acquired officially or unofficially by someone, that person may be in a position where the land would have to be claimed back from them. If ownership is unclear or remains with the railway authorities, that is a matter for the council to pursue with the

Y Prif Weinidog: Credaf fy mod yn iawn wrth ddweud bod y cyngor sir wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o greu llwybr beicio gan ddefnyddio'r hen reilffordd rhwng Llanelwy, Dinbych a Rhuthun 10 mlynedd yn ôl. Os cofiaf yn iawn, yr oedd llawer o ffermwyr yn ei wrthwynebu'n gryf ar y pryd, am resymau sy'n hysbys iddynt hwy. Ar hyn o bryd, y sefyllfa yw bod y cyngor yn bwriadu cynnal astudiaeth ddichonoldeb i bennu llwybr dichonol i lwybr beiciau rhwng Llanelwy a Rhuthun. Ni phennwyd llwybr hyd yn hyn, ond os yw rhywun wedi caffael tir rheilffordd yn swyddogol neu'n answyddogol, gallai'r person hwnnw fod mewn sefyllfa lle y byddai'n rhaid hawlio'r tir yn ôl ganddo. Os yw'r berchnogaeth yn aneglur neu os ydyw gan awdurdodau'r

individual landowners.

rheilffordd o hyd, mae hynny'n fater i'r cyngor fynd yn ei gylch gyda'r tirlfeddianwyr dan sylw.

Broadband

Q6 Alun Davies: Will the First Minister provide an update on broadband not spots? OAQ(3)2961(FM)

The First Minister: The Deputy First Minister recently announced that four not spot areas in Carmarthenshire and Ceredigion are to be resolved under the current contract with BT, and we are working closely with the company to identify and resolve other areas across Wales.

Alun Davies: In reply to an earlier question, you mentioned the decision announced in the budget within the last few hours by the UK Government that sees the destruction of a policy that would have provided high-speed broadband to many different parts of Wales and the rest of the United Kingdom. First Minister, you will be aware of the work of the Welsh Assembly Government over the past few years to try to accelerate the provision of broadband to all parts of Wales by eliminating not spots and increasing the speed levels of available broadband. As second generation and high-speed broadband is rolled out to the major city areas of Wales and the United Kingdom, other areas are left behind. Those are not only rural areas, but urban areas outside of the major cities. This is a real crisis of economic development and social exclusion. First Minister, will you and your Government press the case with Ofcom, BT and other providers to ensure that Wales benefits from high-speed broadband and is not left behind as a nation?

The First Minister: I have said many times that broadband is equivalent to railway lines in the nineteenth century. In the nineteenth century, if you were not close to a railway line, you were left behind; it is the same with broadband now. That is true not just of broadband lines, but mobile broadband. We have to ensure that Wales is covered properly by mobile broadband, otherwise we will be at a disadvantage. The difficulty that I have

Band Eang

C6 Alun Davies: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fannau gwan ar gyfer derbyn band eang? OAQ(3)2961(FM)

Y Prif Weinidog: Cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog yn ddiweddar y bydd pedair ardal sy'n fannau gwan yn sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn cael eu cysylltu dan y contract presennol â BT, ac yr ydym yn cydweithio'n agos â'r cwmni i bennu a chysylltu ardaloedd eraill ledled Cymru.

Alun Davies: Mewn ateb i gwestiwn cynharach, cyfeiriasoch at y penderfyniad a gyhoeddwyd yn y gyllideb yn yr oriau diwethaf gan Lywodraeth y DU a fydd yn gweld diwedd ar bolisi a fyddai wedi darparu band eang cyflym i wahanol rannau o Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r gwaith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dros y blynyddoedd diwethaf i geisio darparu band eang yn gynt ym mhob rhan o Gymru drwy ddileu mannau gwan a chyflymu'r band eang sydd ar gael. Wrth gyflwyno ail genhedlaeth band eang a band eang cyflym yn ardaloedd y dinasoedd mawr yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, mae ardaloedd eraill yn cael eu gadael ar ôl. Nid ardaloedd gwledig yn unig yw'r rheini, ond ardaloedd trefol y tu allan i'r dinasoedd mawr. Mae hyn yn argyfwng gwirioneddol o ran datblygu economaidd ac allgáu cymdeithasol. Brif Weinidog, a wnewch chi a'ch Llywodraeth wthio'r ddadl gydag Ofcom, BT a darparwyr eraill i sicrhau bod Cymru'n elwa o fand eang cyflym ac na chaiff ei gadael ar ôl fel gwlad?

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi dweud lawer gwaith fod band eang yn cyfateb i reilffyrdd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, os nad oeddech yn agos i reilffordd, yr oeddech wedi'ch gadael ar ôl; mae'r un peth yn wir am fand eang yn awr. Mae hynny'n wir nid yn unig am linellau band eang, ond am fand eang symudol. Rhaid inni sicrhau darpariaeth briodol o fand eang symudol i Gymru

with the elimination of the broadband levy is that although I understand that the underspend from the digital switchover scheme will be used to fund broadband in rural areas, I do not think that there is enough money there, to put it bluntly. For much of Wales, there are not sufficient people to create a market for the provision of broadband, so it has to be done by Government. Unfortunately, because of the announcement in the budget today, I suspect that many parts of rural Wales will be left behind.

Mark Isherwood: I have already spoken to BT and Ofcom in the last fortnight about this, and I have also written to the Minister for Culture, Communications and Creative Industries in the UK Government. He confirmed that the UK Government will support the roll-out of basic broadband by 2012 to those communities currently without broadband. It is also committed to enabling the roll-out of super-fast broadband in remote areas at the same time as in more densely-populated areas, and will employ a range of interventions to achieve this, including access to other infrastructure to ensure that this happens. However, I understand that this will only reach 66 per cent of the UK by 2015, and that most of Wales remains in the final third outside this area. Therefore, what action will the Welsh Government take to address this, perhaps by using EU convergence funds for match funding? I understand that BT would be happy to bid to match that and I know that there are many other schemes, for example, those using satellite technology, that are already being piloted in Wales and would be keen to take part.

The First Minister: If you are concerned that rural Wales will miss out on broadband, why are you not lobbying your Government in London to ensure that money is made available for broadband? Having basic broadband is not good enough. It is like saying that we will have an electrified mainline link to Bristol, but everyone else can have a 30 mph steam train. The only way

oherwydd, fel arall, byddwn dan anfantais. Y drafferth yr wyf yn ei gweld wrth ddileu'r ardoll ar gyfer band eang yw, er fy mod yn deall y bydd y tanwariant o'r cynllun trosglwyddo i ddigidol yn cael ei ddefnyddio i ariannu band eang mewn ardaloedd gwledig, nad wyf yn credu bod digon o arian ar gael, a'i roi'n blwmp ac yn blaen. Mewn llawer rhan o Gymru, nid oes digon o bobl i greu marchnad ar gyfer darparu band eang, felly rhaid i Lywodraeth wneud hynny. Gwaetha'r modd, oherwydd y cyhoeddiad yn y gyllideb heddiw, yr wyf yn amau y bydd llawer o rannau o Gymru wledig yn cael eu gadael ar ôl.

Mark Isherwood: Yr wyf eisoes wedi siarad â BT ac Ofcom yn y pythefnos diwethaf am hyn, ac yr wyf hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Ddiwylliant, Cyfathrebu a Diwydiannau Creadigol yn Llywodraeth y DU. Cadarnhaodd y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi cymorth i ddarparu band eang sylfaenol erbyn 2012 i'r cymunedau hynny sydd heb fand eang ar hyn o bryd. Mae hefyd wedi ymrwymo i greu modd i gyflwyno band eang cyflym iawn mewn ardaloedd diarffordd yr un pryd ag mewn ardaloedd mwy poblog, a bydd yn defnyddio amryw o ymyriadau i gyflawni hyn, gan gynnwys mynediad i seilwaith arall er mwyn sicrhau y bydd hyn yn digwydd. Fodd bynnag, yr wyf yn deall na fydd hyn ond yn cyrraedd 66 y cant o'r DU erbyn 2015, a bod y rhan fwyaf o Gymru'n dal yn y drydedd ran olaf y tu allan i'r ardal hon. Felly, pa gamau a gymer Llywodraeth Cymru i ddelio â hyn, efallai drwy ddefnyddio cronfeydd cydgyfeirio'r UE i gael arian cyfatebol? Yr wyf yn deall y byddai BT yn fodlon gwneud cais am ddarparu arian cyfatebol ar gyfer hynny a gwn fod llawer o gynlluniau eraill, er enghraifft, y rheini sy'n defnyddio technoleg lloeren, sydd eisoes yn cael eu treialu yng Nghymru ac a fyddai'n awyddus i gymryd rhan.

Y Prif Weinidog: Os ydych yn bryderus y bydd Cymru wledig yn methu â chael band eang, pam nad ydych yn lobbio'ch Llywodraeth yn Llundain i sicrhau bod arian wedi'i ddarparu ar gyfer band eang? Nid yw cael band eang sylfaenol yn ddigon da. Mae yr un fath â dweud y cawn ni brif reilffordd wedi'i thrydaneiddio i Fryste, ond y caiff pawb arall drên wedi'i dynnu gan injan stêm

that adequate provision can happen, not just in rural Wales, but in rural Scotland and much of rural England, is for there to be Government intervention and for a pot of public money to be made available to ensure that superfast broadband of at least 40 Mbps is rolled out across the whole of Wales and to rural areas in the UK. My great fear is that, without the broadband levy, that simply will not happen.

Bethan Jenkins: I would reiterate much of what has been said. The Welsh Affairs Select Committee report 'Digital Inclusion in Wales', published last summer, said that:

'Although broadband is potentially available to over 99% of the population in Wales, the actual take-up of services is much lower.'

As has been said already, this is especially the case among the vulnerable and lower social classes in Wales. Can we have an update on the current situation with regard to improving the Communities 2.0 programme and giving more opportunities to those on lower incomes in Wales who suffer disproportionately from not being able to access broadband sufficiently?

The First Minister: On what we have taken forward in order to do that, we have the digital inclusion framework for Wales, which was launched for formal consultation last week, on 17 June. The final document will be published at the end of the year. We also have the digital inclusion initiative Communities 2.0, which began in April 2009. That has a budget of £19.9 million over six years. Its aim is to ensure that community and voluntary sector groups, as well as social enterprises, engage with the new technologies, and also to ensure that the most deprived communities get access to that level of broadband. There may be some other issues. A well-known broadband provider sent me an e-mail last night telling me about a broadband order that I had apparently made, but it had been made by someone with my name living somewhere else in Wales. I would not have minded, but it was the fifth time that it had done that. So there may be other obstacles in people's way. However, as

sy'n mynd 30 mya. Yr unig fodd i gael darpariaeth ddigonol, nid yn unig yng Nghymru wledig, ond yn yr Alban wledig a llawer o rannau o Loegr wledig, yw drwy ymyrraeth gan Lywodraeth a darparu swm o arian cyhoeddus i sicrhau bod band eang cyflym iawn ar o leiaf 40 Mb yr eiliad yn cael ei gyflwyno ledled Cymru ac mewn ardaloedd gwledig yn y DU. Yr wyf yn ofni'n fawr na fydd hynny'n digwydd heb yr ardoll ar gyfer band eang.

Bethan Jenkins: Byddwn yn ategu llawer o'r hyn a ddywedwyd. Yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig 'Digital Inclusion in Wales', a gyhoeddwyd yr haf diwethaf, dywedwyd:

Er y gallai band eang fod ar gael i fwy na 99 y cant o boblogaeth Cymru, mae'r nifer sy'n cael gwasanaethau'n is o lawer.

Fel y dywedwyd eisoes, mae hyn yn arbennig o wir am rai sy'n agored i niwed a'r dosbarthiadau cymdeithasol is yng Nghymru. A allwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran gwella'r rhaglen Cymunedau 2.0 a chynnig mwy o gyfleoedd i'r rheini sydd ar incymau is yng Nghymru sy'n cael mwy o gam, ar gyfartaledd, o beidio â gallu cael mynediad digonol at fand eang?

Y Prif Weinidog: O ran y camau yr ydym wedi'u cymryd i wneud hynny, dyna'r fframwaith cynhwysiant digidol i Gymru, a lanswyd ar gyfer ymgynghori ffurfiol yr wythnos diwethaf, ar 17 Mehefin. Cyhoeddir y ddogfen derfynol ddiwedd y flwyddyn. Hefyd mae'r fenter cynhwysiant digidol Cymunedau 2.0, a ddechreuodd yn Ebrill 2009. Mae cyllideb o £19.9 miliwn ar gyfer honno dros chwe blynedd. Ei nod yw sicrhau bod grwpiau yn y sector cymunedol a gwirfoddol, yn ogystal â mentrau cymdeithasol, yn cyfranogi o'r technolegau newydd, a sicrhau hefyd fod y cymunedau mwyaf difreintiedig yn cael mynediad at fand eang ar y lefel honno. Efallai fod rhai anawsterau eraill. Anfonwyd neges ataf drwy'r e-bost neithiwr gan ddarparwr band eang adnabyddus ynghylch archeb am fand eang yr oedd yn ymddangos fy mod wedi'i rhoi, ond a oedd wedi'i rhoi gan rywun sydd â'r un enw â mi sy'n byw mewn rhan arall o Gymru. Ni fyddwn wedi malio am hynny,

a Government, we have put in place firm foundations to ensure that those who live in areas in which there is access to superfast broadband but who do not take it up are encouraged and helped to do so.

Jenny Randerson: I agree that we need good broadband speeds for all, but I wish that Alun Davies was right in saying that it is only rural areas and areas outside our big cities that suffer from a lack of decent broadband speeds. There are broadband not spots in Cardiff Central, and large parts of my constituency have appallingly slow speeds. Those areas include the central areas. Your Government has been failing to tackle this adequately, First Minister. You acknowledge how important the role of Government is and I was pleased to hear that, but your Government has not come up to speed on this issue. We were looking in committee recently at the progress being made in Cornwall using EU funding to assist the roll-out of broadband. We are way behind in Wales. What will your Government do to ensure that EU funding is used, and used rapidly, because Wales cannot be left so badly behind on this issue any longer?

The First Minister: Our contract with BT has, so far, ensured that around 9,000 people have access to broadband who would otherwise not have had it. We anticipate that even more residents and businesses will be able to start placing orders for broadband services from the middle of September, and we are discussing with BT how to identify and resolve other not spots across Wales. Much has been achieved through the regional innovative broadband support scheme. We want to ensure that no part of Wales is left without broadband, and without superfast broadband in particular. However, we need your Government to also play its part, which it has not done today.

ond hwnnw oedd y pumed tro iddo wneud hynny. Felly mae'n bosibl bod pobl yn wynebu rhwystrau eraill. Fodd bynnag, fel Llywodraeth, yr ydym wedi gosod sylfeini cadarn i sicrhau bod y rheini sy'n byw mewn ardaloedd lle y mae mynediad at fand eang cyflym iawn, nad ydynt yn manteisio arno, yn cael cymorth ac anogaeth i wneud hynny.

Jenny Randerson: Yr wyf yn cytuno bod arnom angen band eang ar gyflymder da i bawb, ond byddai'n dda gennyf pe byddai Alun Davies yn iawn wrth ddweud mai dim ond ardaloedd gwledig ac ardaloedd y tu allan i'n dinasoedd mawr sy'n cael cam oherwydd diffyg band eang ar gyflymder derbyniol. Mae manau gwan o ran derbyn band eang yng Nghanol Caerdydd, ac mae cyflymderau gwarthus o isel mewn rhannau helaeth o'm hetholaeth. Mae'r ardaloedd canolog ymhlith yr ardaloedd hynny. Mae'ch Llywodraeth wedi methu â delio'n ddigonol â hyn, Brif Weinidog. Yr ydych yn derbyn pa mor bwysig yw rôl Llywodraeth ac yr oeddwn yn falch o glywed hynny, ond nid yw'ch Llywodraeth wedi gweithredu'n ddigon cyflym ar y mater hwn. Yr oeddem yn edrych yn y pwyllgor yn ddiweddar ar y cynnydd a wneir yng Nghernyw drwy ddefnyddio cyllid yr UE i roi cymorth i gyflwyno band eang. Yr ydym yn bell ar ei hôl yng Nghymru. Beth a wnaiff eich Llywodraeth i sicrhau y caiff cyllid yr UE ei ddefnyddio, a'i ddefnyddio'n gyflym, gan na all Cymru gael ei gadael mor bell ar ôl yn awr ar y mater hwn?

Y Prif Weinidog: Hyd yn hyn mae'r contract yr ydym wedi'i wneud â BT wedi sicrhau mynediad at fand eang i tua 9,000 o bobl na fyddent wedi'i gael fel arall. Rhagwelwn y bydd mwy byth o breswylwyr a busnesau'n gallu dechrau rhoi archebion am wasanaethau band eang o ganol Medi, ac yr ydym yn trafod â BT sut y gellir adnabod a datrys manau gwan eraill ledled Cymru. Cyflawnwyd llawer drwy'r cynllun cymorth band eang arloesol rhanbarthol. Yr ydym am sicrhau na fydd yr un rhan o Gymru wedi'i gadael heb fand eang, a heb fand eang cyflym iawn yn benodol. Er hynny, mae arnom angen i'ch Llywodraeth chi chwarae ei rhan hefyd, ac nid yw wedi gwneud hynny heddiw.

Darren Millar: First Minister, you will remember that, in January, the Deputy First Minister announced that he would make available the plans for the use of EU funds to get rural broadband not spots in particular online. In response to questions in April, he said that he would make an announcement before the end of the month on how those funds were to be used. We are still waiting, First Minister, for an answer. You tell us that broadband access is a priority for your Government; however, I beg to differ based on the Deputy First Minister's response so far. Can you bring us up to speed and tell us how these funds will be used and how communities in my constituency that currently do not have access to broadband can obtain these funds so that they can get online?

2.10 p.m.

The First Minister: You may have missed it, Darren, but on 7 June the Deputy First Minister announced the next phase of not spots to be addressed under the current contract with BT.

Gwasanaethau Niwrogyhyrol

C7 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau niwrogyhyrol? OAQ(3)2971(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi cydnabod bod angen gwella'r gwasanaethau ar gyfer pobl â chyflyrau niwrogyhyrol ac yr ydym wedi rhoi nifer o feysydd gwaith gwahanol yn eu lle i ymdrin â hyn.

David Lloyd: Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Yr wyf i, fel cadeirydd y grŵp amlbleidiol ar nychdod cyhyrol, ac aelodau o'r grŵp hwnnw o bob plaid, yn ymwybodol o'r dyhead sydd ymysg cleifion a'u teuluoedd sy'n dioddef o glefydau niwrogyhyrol, megis nychdod cyhyrol, i gael gwasanaeth arbenigol yng Nghymru. Mae'n deg nodi'r cynnydd mewn trefniadaeth a'r ffaith ein bod wedi cael cyhoeddiad ynglŷn â phenodi chynghorwyr gofal arbenigol mewn byr o amser; fodd bynnag, mae gwir angen gwell trefn er mwyn cael gwasanaeth cynhwysfawr i'r cleifion. A fydddech yn

Darren Millar: Brif Weinidog, byddwch yn cofio i'r Dirprwy Brif Weinidog gyhoeddi, ym mis Ionawr, y byddai'n darparu'r cynlluniau i ddefnyddio cronfeydd yr UE i gysylltu ardaloedd gwledig digyswllt yn benodol â band eang. Mewn ymateb i gwestiynau ym mis Ebrill, dywedodd y byddai'n gwneud cyhoeddiad cyn diwedd y mis am y modd y byddai'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio. Yr ydym yn dal i ddisgwyl am ateb, Brif Weinidog. Dywedwch wrthym fod mynediad at fand eang yn flaenoriaeth gan eich Llywodraeth. Fodd bynnag, rhaid imi anghytuno ar sail ymateb y Dirprwy Brif Weinidog hyd yn hyn. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni a dweud wrthym sut y defnyddir yr arian hwn a sut y bydd cymunedau yn fy etholaeth nad oes ganddynt fynediad at fand eang yn gallu cael yr arian hwn fel y gallant gael eu cysylltu?

Y Prif Weinidog: Efallai ichi golli hynny, Darren, ond ar 7 Mehefin cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog enwau'r ardaloedd digyswllt a fydd yn cael sylw nesaf dan y contract presennol â BT.

Neuromuscular Services

Q7 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on neuromuscular services? OAQ(3)2971(FM)

The First Minister: We have recognised the need to improve services for people with neuromuscular conditions and have put in place a number of different work strands to address this.

David Lloyd: Thank you for that answer, First Minister. As chair of the all-party group on muscular dystrophy, I, like cross-party members of that group, am aware of the desire among patients who suffer from neuromuscular diseases such as muscular dystrophy and their families to have a specialist service in Wales. It is fair to note the progress in procedure and that we have had an announcement that specialist care advisers will be appointed shortly; however, a better system needs to be in place to ensure a comprehensive service for the patients. Would you be willing to support the

fodlon cefnogi'r bwriad, fel mae Edwina Hart eisoes wedi'i wneud, i sefydlu gwasanaeth cynhwysfawr i'r cleifion hyn?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Gwn fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn argymhellion James Steers yn ddiweddar ynglŷn â'r ffordd ymlaen i ddelio â'r materion hyn, a'i bod wedi ysgrifennu at gadeiryddion y byrddau iechyd yng Nghymru yn cefnogi argymhellion y grŵp.

Peter Black: Dai Lloyd was very diplomatic in his contribution, but the fact of the matter is that the Minister for Health and Social Services promised, at a neuromuscular conference in Swansea in 2008, that access to specialist care for families with neuromuscular conditions in Wales would improve by the end of 2009. However, progress has been painstakingly slow, despite the fact that we are now half way through 2010. The evidence shows that there has not been a great deal of improvement, and that, instead, we have more working groups and bodies to talk about the issue, rather than to act on it. Can you give us a timetable as to when the improvements promised by the Minister for health will be fulfilled in Wales?

The First Minister: I have already mentioned the care workers who have been appointed—one in north Wales and one in south Wales. You will also be aware, Peter, that the all-Wales neurosciences standards were issued to the service in April of this year and provide a high level of service, particularly for children and young people. It is essential that local health boards realise their responsibility to ensure the standards that they have been provided with are met.

Mark Isherwood: What guarantees can you, as First Minister, provide that the neurosciences review will continue to be funded to provide twenty-first century standards of care for neuromuscular and neurological conditions?

The First Minister: We have a good record in moving forward the care of people with neuromuscular conditions. I have already mentioned the neurosciences standards that

intention, as Edwina Hart has already done, to establish a comprehensive service for these patients?

The First Minister: Of course. I know that the Minister for Health and Social Services has accepted the recommendations made by James Steers recently on the way forward to deal with these matters, and has written to the chairs of the health boards in Wales in support of the recommendations of the group.

Peter Black: Yr oedd cyfraniad Dai Lloyd yn ddiplomataidd iawn, ond y gwir amdani yw bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi addo, mewn cynhadledd niwrogyhyrol yn Abertawe yn 2008, y byddai mynediad at ofal arbenigol i deuluoedd sydd â chyflyrau niwrogyhyrol yng Nghymru'n gwella erbyn diwedd 2009. Er hynny, mae'r cynnydd wedi bod yn araf dros ben, er ein bod bellach hanner y ffordd drwy 2010. Mae'r dystiolaeth yn dangos na fu llawer o welliant ac, yn hytrach, fod gennym fwy o weithgorau a chyrff i siarad am y mater, yn lle gweithredu arno. A allwch roi amserlen i ni i ddangos pa bryd y bydd y gwelliannau sydd wedi'u haddo gan y Gweinidog dros iechyd yn cael eu cyflawni yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Yr wyf eisoes wedi cyfeirio at y gweithwyr gofal sydd wedi'u penodi—un yn y gogledd ac un yn y de. Byddwch hefyd yn ymwybodol, Peter, fod y safonau ar gyfer niwrowyddorau i Gymru gyfan wedi'u rhoi i'r gwasanaeth ym mis Ebrill eleni a'u bod yn darparu gwasanaeth ar lefel uchel, yn enwedig i blant a phobl ifanc. Mae'n hollbwysig i fyrddau iechyd lleol wireddu eu cyfrifoldeb i sicrhau bod y safonau a roddwyd iddynt wedi'u bodloni.

Mark Isherwood: Pa sicrwydd y gallwch chi, fel Prif Weinidog, ei roi y bydd yr adolygiad o niwrowyddorau'n dal i gael ei ariannu er mwyn darparu safonau gofal ar gyfer cyflyrau niwrogyhyrol a niwrolegol sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain?

Y Prif Weinidog: Mae gennym enw da o ran hyrwyddo gofal am bobl sydd â chyflyrau niwrogyhyrol. Yr wyf eisoes wedi sôn am y safonau ar gyfer niwrowyddorau a

were issued in May of last year. We continue to make good progress in that area.

Star Chamber

Q8 Nick Ramsay: Does the First Minister have any plans for the creation of a star chamber such as that announced by the UK Chancellor of the Exchequer? OAQ(3)2956(FM)

The First Minister: I am intrigued by the resurrection of a constitutional body first proposed, if I remember rightly from my A-level history, by Henry VII. I know that some people may take the view that we should have a more Tudor-like approach to constitutional law in this country. However, we have in place a body—the economic summit—that has produced schemes such as ProAct and ReAct, which we believe is a better approach.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, First Minister. We went back to the 1950s earlier and now we have gone back to Tudor times. I posed this question because, while I recognise that we have a different type of institution to that at Westminster, and we have our own procedures, there is a need for us to cast the spotlight on the way that Government scrutinises itself. That is particularly the case at this time of dealing with the economic crisis, when Wales needs to respond to the cuts that have been coming, and which will continue to come down the line. The type of body that is being proposed in Westminster is one that will allow Government Ministers to monitor each other, with big hitters in the Government playing a part in that monitoring. Your backbenches feature a number of big-hitting ex-Ministers with a great deal of experience that could be utilised in addition to the efficiency and innovation board that you have set up. I believe that that would be beneficial. Given your answer to the question, however, how can the Assembly Government better scrutinise itself in a way that will allow us to deal with the rather unfortunate legacy of over-inflated expenditure that has left us with an enormous debt that now needs to be dealt with?

gyhoeddwyd ym mis Mai y llynedd. Yr ydym yn dal i wneud cynnydd da yn y maes hwnnw.

Siambr Seren

C8 Nick Ramsay: A oes gan y Prif Weinidog unrhyw gynlluniau i greu siambr seren yn debyg i'r hyn a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys y DU? OAQ(3)2956(FM)

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ei chael yn ddiddorol iawn gweld atgyfodi corff cyfansoddiadol a gynigiwyd yn gyntaf, os cofiaf yn iawn o'm cwrs hanes Safon Uwch, gan Harri VII. Gwn fod rhai pobl a allai fod o'r farn y dylem drin cyfraith gyfansoddiadol mewn modd tebycach i'r Tuduriaid yn y wlad hon. Fodd bynnag, yr ydym wedi sefydlu corff—yr uwchgynhadledd economaidd—sydd wedi cynhyrchu cynlluniau fel ProAct a ReAct, y credwn ei fod yn cynnig dull gwell o weithredu.

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Aethom yn ôl i'r 1950au yn gynharach ac yn awr yr ydym wedi mynd yn ôl i gyfnod y Tuduriaid. Gofynnais y cwestiwn hwn oherwydd, er fy mod yn cydnabod bod gennym sefydliad o fath gwahanol i hwnnw yn San Steffan, a bod gennym ein gweithdrefnau ein hunain, mae angen inni ganolbwyntio ar y modd y mae'r Llywodraeth yn craffu ar ei gwaith ei hun. Mae hynny'n neilltuol o wir ar yr adeg hon wrth ddelio â'r argyfwng economaidd, pan fo angen i Gymru ymateb i'r toriadau sydd wedi dod, ac a fydd yn dal i ddod yn y dyfodol. Mae'r math o gorff sydd wedi'i gynnig yn San Steffan yn un a fydd yn caniatáu i Weinidogion y Llywodraeth fonitro ei gilydd, a bydd rhai dylanwadol yn y Llywodraeth yn cymryd rhan yn y monitro hwnnw. Mae nifer o gyn-Weinidogion dylanwadol ar eich meinciau cefn sydd â llawer o brofiad y gellid elwa arno yn ogystal â'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi yr ydych wedi'i sefydlu. Yr wyf yn credu y byddai hynny'n llesol. Yng ngolwg eich ateb i'r cwestiwn, fodd bynnag, sut y gall Llywodraeth y Cynulliad graffu'n well ar ei gwaith ei hun mewn modd a fydd yn caniatáu inni ddelio â'r hanes anffodus braidd o wariant chwyddedig sydd wedi ein gadael gyda dyled

anferth y mae angen delio â hi'n awr?

The First Minister: First of all, I have faith in the ability of Assembly Members from all parties to scrutinise Government properly. It may not be a faith that is shared by the Government at Westminster, when it comes to Parliament, but I think that it is correct here. As I mentioned, we have already set up the efficiency and innovation board, which includes a ministerial working group, which met yesterday, as part of its proceedings. The objective of that group is to do precisely what you mentioned—in other words, for Ministers to look at other departments to see where expenditure can be reduced, and to ensure that we achieve value for money for the people of Wales. We have set up a body along similar lines, although we did not have to go back to 1485 to find the name.

Rhodri Morgan: Would the First Minister agree that any reassessment of budget priorities under such a star chamber would now have to take into account the reduced spending power in Welsh communities caused by the rise in value-added tax from 17.5 per cent to 20 per cent? It would also need to look at how that compares with the last rise in VAT under John Major's Conservative Government, and how that compares with the previous rise in VAT under Margaret Thatcher's Government, or with the impact of the original introduction of VAT by Edward Heath's Government. Do we therefore now conclude that when David Cameron told Jeremy Paxman just before the election that he had absolutely no plans to increase VAT, what he actually meant was 'I have absolutely no plans to increase VAT more than once every 10 years'?

The First Minister: One conclusion we can draw from the budget today is that, whenever the Conservatives get into power—and this now applies to their Liberal Democrat helpers—they put up indirect taxes. They always say that they will go in for tax reduction, but VAT is now going up again. You are quite right to say that Ted Heath did it, and I remember Norman Lamont doing it, too—he slipped it in right at the end of his budget speech, which lasted for an hour and 50 minutes, incredibly. Now, of course, we

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf oll, mae gennyf ffydd yng ngallu Aelodau Cynulliad o bob plaid i graffu'n iawn ar waith y Llywodraeth. Efallai nad yw'r un ffydd gan y Llywodraeth yn San Steffan, mewn cysylltiad â'r Senedd, ond yr wyf yn credu ei bod yn briodol yma. Fel y dywedais, yr ydym eisoes wedi sefydlu'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, sy'n cynnwys gweithgor gweinidogol, a gyfarfu ddoe, yn rhan o'i drafodion. Amcan y grŵp hwnnw yw gwneud yn union yr hyn y cyfeiriasoch ato—mewn geiriau eraill, i Weinidogion edrych ar adrannau eraill i weld ymhle y gellir lleihau gwariant, a sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian i bobl Cymru. Yr ydym wedi sefydlu corff tebyg, er nad oedd yn rhaid inni fynd yn ôl i 1485 i ddod o hyd i'r enw.

Rhodri Morgan: A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno y byddai unrhyw ailasesu ar flaenoriaethau cyllideb dan siambr seren o'r fath yn gorfod ystyried yn awr y pŵer gwario llai sydd yng nghymunedau Cymru oherwydd y cynnydd mewn TAW o 17.5 y cant i 20 y cant? Byddai angen hefyd iddo ystyried sut y mae hynny'n cymharu â'r cynnydd diwethaf mewn TAW dan Lywodraeth Geidwadol John Major, a sut y mae hynny'n cymharu â'r cynnydd blaenorol mewn TAW dan Lywodraeth Margaret Thatcher, neu effaith cyflwyno TAW yn wreiddiol gan Lywodraeth Edward Heath. A ddeuwn i'r casgliad yn awr felly mai'r hyn a olygai David Cameron mewn gwirionedd pan ddywedodd wrth Jeremy Paxman yn union cyn yr etholiad nad oedd ganddo unrhyw fwriad o gwbl i gynyddu TAW, oedd 'Nid oes gennyf unrhyw fwriad o gwbl i gynyddu TAW fwy nag unwaith bob 10 mlynedd'?

Y Prif Weinidog: Un casgliad y gallwn ddod iddo ar sail y gyllideb heddiw yw y bydd y Ceidwadwyr, pryd bynnag y deuant i rym—ac mae hyn yn wir yn awr am y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n eu helpu—yn cynyddu trethi anuniongyrchol. Maent yn dweud bob tro y byddant yn ceisio lleihau trethi, ond mae TAW yn cynyddu eto'n awr. Yr ydych yn hollol gywir wrth ddweud i Ted Heath wneud hynny, ac yr wyf yn cofio i Norman Lamont wneud hynny, hefyd—fe'i gwthiodd i mewn ar ddiwedd ei arraith gyllideb, a oedd yn

have today's rise. We know that VAT is a regressive tax that will hit the poorest hardest, and that is something that we on this side of the Chamber will never accept.

Chris Franks: First Minister, Henry VII might have created the star chamber, but that did not stop Henry VIII from bankrupting the state, so the track record is not particularly good. Would you agree that the Welsh Government's approach of holding economic summits with interested parties has been more agile and effective than the axe-factor approach of the UK Government to the recession? I am pleased to say that Plaid Cymru leader Ieuan Wyn Jones has to be congratulated for ensuring that the economic summits led to the creation of schemes that help thousands of people—those looking for work, and those faced with redundancy. In Rhondda Cynon Taf, over 1,200 people took up assistance under the ReAct training programme, and 570 in the Vale of Glamorgan. What assurances can you give the Senedd that these schemes will be maintained in the light of the savage budget cuts that have been announced?

The First Minister: The one thing that we will not do is dissolve the monasteries and plunder their wealth—I can promise you that. I also know that Henry VIII had a harsh approach to public officials who displeased him, and that is not something that we will follow in quite the same way. However, the point that you make is a good one. How do we ensure that schemes such as ProAct and ReAct and their successor schemes are continued?

2.20 p.m.

The First Minister: We know that ProAct has been a success and we know that more than 10,000 people are in jobs, training, or both because of ProAct. We talk sometimes as politicians of x million pounds being put in here or x million pounds being spent there; people understand that they are in jobs and people see other people in jobs because of what Government has done. We will do all

anhygoel o hir, gan iddi bara awr a 50 munud. Yn awr, dyma'r cynnydd heddiw, wrth gwrs. Gwyddom fod TAW yn dreth atchweliadol a fydd yn taro'r rhai tlotaf yn galetaf, ac mae hynny'n rhywbeth na fyddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr byth yn ei dderbyn.

Chris Franks: Brif Weinidog, efallai fod Harri VII wedi creu'r siambr seren, ond ni wnaeth hynny atal Harri VIII rhag troi'r wladwriaeth yn fethdalwr, felly nid oes enw da iawn ganddi. A fyddech yn cytuno bod dull Llywodraeth Cymru o gynnal uwchgynadleddau economaidd â phartion cysylltiedig wedi bod yn fwy hyblyg ac effeithiol na'r modd y mae Llywodraeth y DU wedi delio â'r dirwasgiad drwy estyn am y fwyell? Yr wyf yn falch o ddweud bod lle i longyfarch arweinydd Plaid Cymru Ieuan Wyn Jones am sicrhau bod yr uwchgynadleddau economaidd wedi arwain at greu cynlluniau sy'n helpu miloedd o bobl—y rheini sy'n chwilio am waith, a'r rheini sy'n wynebu eu diswyddo. Yn Rhondda Cynon Taf, cafodd mwy na 1,200 o bobl gymorth dan raglen hyfforddi ReAct, a 570 ym Mro Morgannwg. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r Senedd y bydd y cynlluniau hyn yn parhau o ystyried y toriadau llym sydd wedi'u cyhoeddi yn y gyllideb?

Y Prif Weinidog: Yr unig beth na wnawn yw diddymu'r mynachlogydd a dwyn eu cyfoeth—gallaf addo hynny i chi. Yr wyf hefyd yn gwybod bod Harri VIII yn delio'n llym â swyddogion cyhoeddus a oedd yn ei ddigio, ac nid yw hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ddilyn yn hollol. Sut y sicrhawn barhad cynlluniau fel ProAct a ReAct a'r cynlluniau a fydd yn eu dilyn?

On the issue of the deferral of budget cuts, which other Members and I have raised many times over the past few weeks, given that the emergency budget has just been announced, could we have an indication from the Welsh Assembly Government of when it expects to make clear its decision on any deferral and any details about the nature of such a deferral? In his response last week, the First Minister hinted that there would be much more meat on the bone of whether a deferral would take place nearer the time of the comprehensive spending review. Such uncertainty is unhelpful. While I appreciate the comments that you and the First Minister have made about needing all the information to move forward on this issue, having an indication of when you anticipate making that decision would be helpful for everyone.

datblygiadau tai'n fater i awdurdodau lleol—ac, yn fy achos i, awdurdod parc cenedlaethol hefyd—ond mae'n bwysig rhoi lle a rhyddid i gymunedau. Weinidog, a allwch ofyn i'r Gweinidog perthnasol roi datganiad gerbron yn rhoi arweiniad ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i helpu awdurdodau lleol i ddiogelu mannau gwyrdd?

Jane Hutt: Wrth gwrs, mae hyn yn fater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ond yr wyf yn ddiolchgar eich bod yn derbyn ei bod yn bwysig i dir fod ar gael i ddatblygu tai a busnesau.

Nick Ramsay: Drefnydd, mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi a hwythau'n pryderu am yr oedi wrth ddelio â'u hawliadau am ad-dalu ffioedd cartref gofal sydd wedi'u talu'n anghywir. Deallaf fod oedi o ddwy neu dair blynedd cyn iddynt gael unrhyw newydd. Gwn fod Aelodau Cynulliad eraill wedi codi'r mater hwn dros y flwyddyn ddiwethaf. A allem gael datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr hyn y mae hi a'r Llywodraeth yn ei wneud i ddelio â'r ôl-groniad hwnnw, er mwyn tawelu meddyliau fy etholwyr i ac etholwyr Aelodau eraill yn y Siambr?

Ynghylch y mater o ohirio toriadau yn y gyllideb, y mae Aelodau eraill a minnau wedi'i godi lawer gwaith yn ystod yr wythnosau diwethaf, gan fod y gyllideb frys newydd gael ei chyhoeddi, a allem gael rhyw arwydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddangos pa bryd y mae'n disgwyl egluro ei phenderfyniad ar unrhyw ohirio ac unrhyw fanylion am natur gohirio o'r fath? Yn ei ymateb yr wythnos diwethaf, lled awgrymodd y Prif Weinidog y byddai llawer mwy o fanylion ynghylch a fyddai gohirio'n digwydd yn nes at adeg yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Nid yw ansicrwydd o'r fath o gymorth. Er fy mod yn deall y sylwadau yr ydych chi a'r Prif Weinidog wedi'u gwneud am yr angen i gael yr holl wybodaeth er mwyn symud ymlaen ar y mater hwn, byddai cael rhyw awgrym o ba bryd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn gwneud y penderfyniad hwnnw'n gymorth i bawb.

Jane Hutt: I will ask the Minister for Health and Social Services to provide you with an update on the refund of care home fees, although I know that the opportunity for people to make such claims has been extended. I responded earlier to the issue of handling the expectation of a cut, which was announced in May. We have been given the flexibility to defer, but you will understand and respect—an important word—the fact that I want to make a responsible decision about how we handle this, bearing in mind the impact not only on our public services but on the fragile recovery of our economy. We do have some clarity, namely on the capital/revenue split, and we received details on that from the Treasury last week. We have also asked for guaranteed access to end-year flexibility. It would be helpful if you could share this message with your colleagues, because if we do not get EYF, it reduces our room for manoeuvre in making a responsible decision.

2.50 p.m.

However, we also need more clarity on the split between departmental expenditure limits and annually managed expenditure. As a result of today's budget, we will not know that until the spending review. We now have a date for the spending review, namely 20 October, so we know how we will timetable the draft budget in respect of that. I want to bring that back to Plenary before the end of this session. I have made that commitment publicly more than once inside and outside the Chamber, and I want to be able to return to tell you our recommended view.

Jane Hutt: Gofynnaf i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ad-dalu ffioedd cartref gofal, er fy mod yn gwybod bod y cyfle i bobl wneud hawliadau o'r fath wedi'i ymestyn. Ymatebais yn gynharach ynghylch y mater o ddelio â'r disgwyl am doriad, a gyhoeddwyd ym mis Mai. Yr ydym wedi cael cynnig hyblygrwydd i ohirio, ond byddwch yn deall ac yn parchu—gair pwysig—y ffaith fy mod am wneud penderfyniad cyfrifol ynghylch sut y byddwn yn ymdrin â hyn, gan gofio'r effaith nid yn unig ar ein gwasanaethau cyhoeddus ond ar adferiad bregus ein heconomi. Yr ydym wedi cael rhywfaint o eglurhad, sef ar y rhaniad rhwng gwariant cyfalaf a refeniw, a chawsom fanylion am hynny gan y Trysorlys yr wythnos diwethaf. Yr ydym hefyd wedi gofyn am sicrwydd o fynediad at hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Byddai o gymorth pe gallech rannu'r neges hon â'ch cymheiriaid, oherwydd os na chawn hyblygrwydd diwedd blwyddyn, bydd gennym lai o le i symud wrth wneud penderfyniad cyfrifol.

Fodd bynnag, mae arnom angen mwy o eglurhad hefyd ar y rhaniad rhwng terfynau gwariant adrannol a gwariant a reolir yn flynyddol. O ganlyniad i'r gyllideb heddiw, ni fyddwn yn gwybod hynny tan yr adolygiad o wariant. Yr ydym wedi cael gwybod dyddiad yr adolygiad o wariant bellach, sef 20 Hydref, felly gwyddom sut y byddwn yn amserlennu'r gyllideb ddrafft mewn cysylltiad â hynny. Hoffwn godi'r mater hwnnw eto yn y Cyfarfod Llawn cyn diwedd y sesiwn hon. Yr wyf wedi ymrwymo i hynny'n gyhoeddus fwy nag unwaith y tu mewn a'r tu allan i'r Siambr, ac yr wyf am allu dychwelyd i ddweud wrthy'ch y farn yr ydym yn ei hargymell.

Datganiad am Faterion sy'n Ymwneud ag Addasu Genetig Statement on Genetically Modified Issues

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Gwŷr yr Aelodau imi ymgynghori ddiwedd y llynedd ar gynigion Llywodraeth Cymru i reoli cydfodolaeth cnydau a

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): Members will be aware that, towards the end of last year, I consulted on the Welsh Government's proposals for managing the

addaswyd yn enetig, confensiynol ac organig yng Nghymru. Yr oedd ein hagwedd at gydfodolaeth yn cyd-fynd â'n hagwedd ragofalus a chyfyngol at gnydau GM, fel y nodwyd yn ein hymrwymiaidau yn 'Cymru'n Un'.

Yr hyn yr wyf am ei wneud heddiw yw sôn am y prif negeseuon sydd wedi deillio o'r ymgynghoriad a'r camau nesaf yr wyf yn bwriadu eu cymryd fel rhan o'r broses. Er ei bod hi'n glir o'r ymatebion a gafwyd fod cnydau GM o hyd yn bwnc llosg yng Nghymru, wrth ystyried yr ymatebion yn fanylach, daeth yn amlwg bod cefnogaeth gyffredinol i roi'r mesurau GM mwyaf cyfyngol posibl ar waith yng Nghymru.

Yr oedd cefnogaeth gref i fesurau a fyddai'n sicrhau y byddai unrhyw lygru ar gnydau organig a chonfensiynol gan gnydau GM yn cael ei gadw i'r isafswm isaf posibl. Yr oedd cefnogaeth hefyd i'r drefn gydfodoli gynnwys yr holl gynhyrchwyr bwyd, cynhyrchwyr mêl, garddwyr a phobl sydd â rhandiroedd. Cefnogwyd sefydlu ardaloedd heb gnydau GM ac yn arbennig yr opsiwn o greu ardal ddi-GM wirfoddol ar gyfer Cymru gyfan, a hefyd ddefnyddio'r rheolau cydfodoli mwyaf llym mewn perthynas â thir ar draws ffiniau er mwyn diogelu integriti ffermio yng Nghymru a hawl pobl i ddewis bwyd o gynhwysion â'u genynnau heb eu haddasu. Yn olaf, yr oedd cefnogaeth i orfodi'n statudol yr holl fesurau cydfodoli.

Yr oedd llawer o'r rhai a wnaeth ymateb yn bryderus ynghylch sut y byddai cnydau GM yn effeithio ar gynhyrchu mêl a chynnyrch organig yng Nghymru, ac yr oeddent o'r farn y dylid sefydlu proses er mwyn cael gwybod am unrhyw gnydau GM posibl i gael eu tyfu yn eu hardal. Yr oedd barn gref y dylai cnydau GM gael eu gwahardd mewn ardaloedd a ddynodwyd am resymau amgylcheddol. Yr oedd cefnogaeth hefyd i osod cyfrifoldebau ar ffermwyr a deiliaid trwyddedau GM i atal a/neu adfer unrhyw ddifrod amgylcheddol a achosir o ganlyniad i ryddhau organeddau wedi'u haddasu'n enetig. Yn olaf, yr oedd cefnogaeth i ddatblygu cofrestr genedlaethol gan roi'r hawl i'r cyhoedd weld y gofrestr cnydau GM ynghyd â'r lleoliadau tyfu cysylltiedig dri mis cyn unrhyw fwriad i fynd ati i'w tyfu.

co-existence of genetically modified, conventional and organic crops in Wales. Our approach to co-existence was in line with our precautionary and restrictive approach to GM crops, as set out in our 'One Wales' commitments.

What I propose to do today is outline the key messages resulting from the consultation exercise and the next steps that I propose to take as part of the process. Although it is clear from the responses that GM crops remain an emotive issue in Wales, when considering the responses in greater detail, it is clear that there is overall support for implementing the most restrictive GM measures possible in Wales.

There was strong support for measures that would keep any GM contamination of organic and conventional crops to an absolute minimum. There was support for the co-existence regime to include all food producers, honey producers, gardeners and allotment holders. The establishment of GM-production-free zones and in particular the option of an all-Wales voluntary GM-free zone was supported, as was the application of the most stringent co-existence rules to cross-border land to protect the integrity of Welsh farming and the consumer's right to choose food that is free from genetic modification. Finally, there was support to make all the co-existence measures statutorily enforceable.

Many of the respondents were concerned about the impact of GM crops on honey production and organic produce in Wales, and they were of the view that a process should be put in place to inform them of any GM crops that might be grown in their vicinity. There were firm views that GM crops should be excluded from environmentally designated areas. There was also support for the imposition of responsibilities on farmers and GM permit holders to prevent and/or remediate any environmental damage resulting from the release of genetically modified organisms. Finally, there was support for the development of a national register, granting public access to the register of GM crops as well as associated growing locations three months before any potential planting.

Yn fy marn i, felly, cafwyd cefnogaeth at ei gilydd i lawer o'r cynigion yn ein dogfen ymgynghori ac o'n agwedd ragofalus at gydfodolaeth cnydau GM yng Nghymru. Er hyn, ni all cydfodolaeth gael ei defnyddio fel ffordd o geisio gwahardd cnydau GM yng Nghymru drwy'r drws cefn.

O ran y camau nesaf, mae cefnogaeth arbennig o gryf o blaid sefydlu cofrestr genedlaethol statudol gan roi'r hawl i'r cyhoedd ei gweld. Bydd cofrestr yn fodd o dracio unrhyw ddatblygiadau GM a fydd yn cymryd mantais neu'n cael eu cyflwyno'n llechwraidd yng Nghymru cyn y caiff rhywogaeth GM a fydd wedi'i chymeradwyo'n fasnachol a'i datblygu ar gyfer hinsawdd y Deyrnas Gyfunol ei marchnata'n swyddogol yn y Deyrnas Gyfunol. Mae hefyd yn rhan hollbwysig o'r drefn gydfodoli er mwyn gweld pa gnydau GM a fydd yn cael eu tyfu ac ymhle. Yr wyf yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth, felly, er mwyn creu cofrestr gyhoeddus o gnydau GM cyn y tymor tyfu yn 2011.

O ran gweddill y mesurau cydfodoli a gynigir, mae rhai materion y bydd angen eu hystyried ymhellach yng ngoleuni'r ymgynghoriad. Byddaf wedyn yn paratoi rheoliadau i gynnwys mesurau cydfodoli, a chânt eu cyflwyno mewn da bryd cyn cymeradwyo unrhyw gnydau GM masnachol yn y dyfodol sy'n addas ar gyfer yr amgylchiadau tyfu yn y Deyrnas Gyfunol.

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghori eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl y Cyfarfod Llawn heddiw. Fy mwriad o hyd fydd cadw rheolaeth dynn ar y trefniadau o ran cydfodolaeth cnydau GM yng Nghymru. Fy ymrwymiad, felly, yw diogelu a chynnal hawl pobl i ddewis bwyd heb bresenoldeb GM, a hawl ffermwyr yng Nghymru i dyfu cnydau organig a chonfensiynol sydd heb eu llygru gan ddeunydd GM.

Gan ein bod yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â GM, cymeraf y cyfle i sôn hefyd am rai datblygiadau ar lefel Ewrop o ran cnydau GM a allai fod yn bellgyrhaeddol eu harwyddocâd i ni.

Therefore, in my view, there was overall support for many of the proposals within our consultation document and of our precautionary approach to GM co-existence in Wales. Despite this, co-existence cannot be used as a back-door mechanism to try to ban GM crops in Wales.

On the next steps, there was particularly strong support for the establishment of a statutory national register, with the public having a right to access it. A register would be a means of tracking any opportunistic or surreptitious GM developments in Wales before a GM variety that has been commercially approved and developed for United Kingdom climatic conditions is officially marketed in the United Kingdom. It is also a vitally important component of the co-existence regime as a means of identifying which GM crops are to be grown and where. I am proposing to introduce legislation, therefore, for the creation of such a public register of GM crops before the growing season in 2011.

On the remaining co-existence measures proposed, there are a few issues that will require some further consideration in the light of the consultation exercise. I will then set out to prepare regulations that will include co-existence measures, and they will be introduced well in advance of the approval of any future commercial GM crops suitable for the growing conditions in the UK.

The consultation responses will be published on the Welsh Assembly Government website following today's Plenary meeting. It remains my intention to keep a tight rein on GM crop co-existence in Wales. I am committed, therefore, to safeguarding and maintaining people's right to choose food without a GM presence, and the right of farmers in Wales to grow organic and conventional crops that are free from contamination by GM materials.

As we are focusing on GM issues here today, I will take the opportunity to update you on some developments at the European level in respect of GM crops that could have far-reaching significance for us.

Bydd rhai yn eich plith yn gwybod fy mod yn credu y dylid cynnwys ffactorau economaidd gymdeithasol ym mhroses gymeradwyo'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer organeddau GM. Bûm wrthi'n lobïo Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a Chomisiwn Ewrop ynghylch y materion hyn, ac yr wyf yn falch bod y Comisiwn wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r system reoleiddio ar gyfer organeddau a addaswyd yn enetig. Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i lunio adroddiad ar y syniad o ehangu asesiadau GM a'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn ystyried ffactorau economaidd gymdeithasol. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi anfon tri holiadur i holi barn yr aelod wladwriaethau am y materion hyn.

Holodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig farn y Llywodraethau datganoledig, a chyflwynais ddatganiad cadarn o blaid yr angen i gynnwys materion economaidd gymdeithasol yn rhan o broses asesu a chymeradwyo'r Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad i'r safbwynt hwn, cafwyd rhai trafodaethau anodd gyda DEFRA, ond gwnaethom ddal ati er mwyn sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed yn yr Undeb Ewropeaidd, ac, yn y diwedd, cafodd ein safbwynt ei gynnwys yn rhan o ymateb yr aelod wladwriaeth i'r Comisiwn. Mae'n hollbwysig ein bod yn dal ati i sicrhau bod ein safiad ar bolisi GM yn cael ei glywed a'i warchod wrth i Ysgrifennydd Gwladol newydd DEFRA, yn ei datganiadau cychwynnol, ymrwmo Llywodraeth glymblaid newydd y Deyrnas Gyfunol i fod y Llywodraeth mwyaf pleidiol eto i gnydau GM, gan ddweud ei bod o blaid bwyd GM o dan yr amgylchiadau iawn.

Yn ogystal â'r datblygiad pwysig hwn, bûm yn cefnogi symudiadau yn yr Undeb Ewropeaidd i ddatganoli penderfyniadau am dyfu cnwd GM cymeradwy i'r aelod wladwriaethau. Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth yr Arlywydd Barroso yn ei araith ym mis Mawrth eleni, pan ddywedodd, wrth osod y canllawiau gwleidyddol ar gyfer y Comisiwn nesaf, ei fod yn cydnabod bod angen sybsidiaredd mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â GM, a bod angen rhyddid i aelod wladwriaethau benderfynu a dynt am dyfu cnydau GM ar eu tir. Yn dilyn

Some of you will be aware that I believe that socioeconomic factors should be included in the European Union's approval process for GMOs. I have been actively lobbying the UK Government and the European Commission on these issues, and am I pleased that the Commission has recently announced that a review of the regulatory system for genetically modified organisms is to be undertaken. The Commission has committed to produce a report on the concept of expanding the GM assessment and the decision-making process in order to take account of socioeconomic factors. As a consequence, the Commission has sent out three questionnaires to gather member states' views on these issues.

The Department for Environment, Food and Rural Affairs sought the views of the devolved Governments, and I submitted strong views of the need to include socioeconomic issues in the European Union's assessment and approval process. As a consequence of that stance, we had some difficult discussions with DEFRA, but we persevered to ensure that our voice was heard at the European Union level, and, in the end, our views formed a part of the member state response to the Commission. It is imperative that we continue to ensure that our stance on GM policy is heard and safeguarded, given that the new Secretary of State at DEFRA, in her initial statements, has committed the new United Kingdom coalition Government to being the most pro-GM Government yet, stating that she was in favour of GM foods in the right circumstances.

In addition to that important development, I have been supporting moves at the European Union level to devolve decisions about growing an approved GM crop in a country to member states. That proposal was supported by President Barroso in his speech in March this year when he said, in outlining the political guidelines for the next Commission, that he recognised the need for subsidiarity in respect of GM issues, and that member states needed to have the freedom to decide whether they wish to cultivate GM crops on their territory. Following that, the

hyn, cyhoeddodd y Comisiwn y byddai'n cyflwyno cynnig yn 2010 a fyddai'n caniatáu mwy o ddewis i aelod wladwriaethau benderfynu a ydynt am dyfu cnydau GM. Mae hyn yn dangos yn glir bod y Comisiwn yn agored i'r syniad o ganiatáu rhai newidiadau i'r broses gymeradwyo sydd yn ei lle ar hyn o bryd, newidiadau a fyddai'n galluogi aelod wladwriaethau i benderfynu eu hunain a ydynt am dyfu cnydau GM. Byddwn eisiau sicrhau bod y grym hwn yn cael ei ddatganoli yn llawn i Gymru, a hynny er mwyn caniatáu i'r Cynulliad benderfynu ar bolisi GM ar gyfer tir Cymru.

Brynle Williams: Prynawn da, Weinidog, a diolch i chi am eich datganiad heddiw.

As you have said, Minister, this is an emotive issue, but we must also be careful not to close the door on scientific developments in future. The idea of establishing a register for growers has to be supported. We must ensure that we know where GM crops are being grown so that, if there are any unfortunate incidents, they can be traced. Have you given any thought to the buffer zones that would be needed between GM crops, organically grown crops, and the land of honey producers or any other interested parties?

We must also remember that food production needs to increase to meet global demand, but I err on the side of caution. Some 60 years ago, a supposedly fine product that was meant to be the answer to the problems of world food production was DDT, but it took 60 years before the picture fully emerged of what was going on. The same applies to GM crops: we need to be cautious before we allow these products to be sold on the open market.

3.00 p.m.

We need to safeguard, in Aberystwyth in your constituency, one of the finest, if not the finest, plant breeding stations in the world. There is a long way to go with conventional crops, increasing production and the work that has been done in the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences in Aberystwyth. I ask you to ensure

Commission announced that it would come up with a proposal in 2010 to give member states more choice in deciding whether to cultivate GM crops. That shows clearly that the Commission is open to the idea of allowing some changes to the existing approval process, changes that would allow member states to decide themselves whether they wish to grow GM crops. I would wish to ensure that such a power was devolved fully to Wales in order to allow the Assembly to make decisions about GM policy on Welsh soil.

Brynle Williams: Good afternoon, Minister, and thank you for your statement today.

Fel yr ydych wedi dweud, Weinidog, mae hwn yn fater sy'n ennyn teimladau cryf, ond rhaid inni ofalu hefyd na fyddwn yn cau'r drws ar ddatblygiadau gwyddonol yn y dyfodol. Rhaid cymeradwyo'r syniad o sefydlu cofrestr i dyfwyr. Rhaid inni sicrhau ein bod yn gwybod ymhle y mae cnydau GM yn cael eu tyfu fel y gellir eu holrhain os bydd unrhyw ddigwyddiadau anffodus. A ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r lleiniau clustogi y byddai eu hangen rhwng cnydau GM, cnydau a dyfwyd yn organig, a thir cynhyrchwyr mêl neu unrhyw bartion eraill sy'n gysylltiedig?

Rhaid inni gofio hefyd fod angen cynhyrchu mwy o fwyd er mwyn ateb y galw byd-eang, ond pwyll piau hi yn fy marn i. Tua 60 mlynedd yn ôl, un cynnyrch y tybid ei fod yn iawn a oedd i fod i ddatrys problemau o ran cynhyrchu bwyd drwy'r byd oedd DDT, ond aeth 60 mlynedd heibio cyn iddi ddod yn amlwg beth oedd yn digwydd. Mae'r un peth yn wir am gnydau GM: mae angen inni fod yn ofalus cyn inni ganiatáu gwerthu'r cynhyrchion hyn ar y farchnad agored.

Mae angen inni ddiogelu, yn Aberystwyth yn eich etholaeth chi, fridfa blanhigion sydd ymysg y gorau yn y byd, os nad y gorau un. Mae llawer o waith i'w wneud ar gnydau confensiynol, drwy gynyddu cynnyrch a'r gwaith sydd wedi'i wneud yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn Aberystwyth. Gofynnaf ichi

that we continue funding that for the future, Minister.

On your final point, I hope that Wales will have the power to decide and will be consulted by Brussels as to whether we grow this crop in Wales. It is up to the people. They put us in this establishment and it is up to us to confer competence upon them.

Elin Jones: Diolch am eich sylwadau a chwestiynau, Brynle. Cytunaf fod lle amlwg i wyddoniaeth annibynnol roi cyngor i ni fel gwleidyddion ynglŷn â'r penderfyniadau sydd angen eu cymryd ar gnydau wedi eu haddasu'n enetig. Yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, mae gennym adran o fewn Prifysgol Aberystwyth sydd â diddordeb, o bosibl, yn y maes hwn er nad wyf yn ymwybodol o unrhyw fwriad sydd ganddi yn y tymor byr i wneud ymchwil penodol. Fodd bynnag, byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu, yn y pen draw, ar yr hawl i gynnal ymchwil awyr agored ar dir Cymru yn y maes hwn. Mewn egwyddor, mae ymchwil, ac ymchwil annibynnol yn enwedig, yn gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygu'r dechnoleg hon a'r technolegau sydd ynghlwm wrth addasu genetig.

Gwerthfawrogaf eich cefnogaeth i'r cynnig i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn sefydlu cofrestr genedlaethol gyhoeddus ar gyfer unrhyw fwriad i dyfu cnwd wedi ei addasu'n enetig yng Nghymru. O ran parth clustog o gwmpas unrhyw dir sydd wedi ei glustnodi ar gyfer cnwd wedi ei addasu'n enetig neu unrhyw dyfwr sydd eisiau ei dyfu, nid ydym wedi dod i gasgliadau penodol eto. Dyna'r rhan nesaf o gyflwyno'r ddeddfwriaeth. Mae'r newidiadau posibl ar lefel Ewrop a drafodais yn fy natganiad yn golygu bod angen inni gymryd ychydig o amser i ystyried beth fyddai goblygiadau'r newidiadau hynny ar rai o'r polisiau yr ydym yn eu rhoi ar waith yng Nghymru. Felly, mae'n bwysig bod penderfyniadau'n digwydd ar lefel Ewrop am sybsidiaredd er mwyn penderfynu ar addasu genetig cyn ein bod yn gorffen cyflwyno'r ddeddfwriaeth y bydd angen ei chyflwyno yng Nghymru ar hyn.

Yr wyf hefyd yn ddiolchgar ichi am eich

sicrhau ein bod yn dal i ariannu hynny ar gyfer y dyfodol, Weinidog.

Ynghylch eich pwynt olaf, gobeithiaf y bydd gan Gymru bŵer i benderfynu ac y bydd Brwsel yn ymgynghori â ni ynghylch a fyddwn yn tyfu'r cnwd hwn yng Nghymru. Mater i'r bobl ydyw. Hwyl sy'n ein rhoi yn y sefydliad hwn a'n lle ni yw rhoi gallu yn eu dwylo.

Elin Jones: Thank you for your comments and questions, Brynle. I agree that independent science has a key role in providing advice to us as politicians about the decisions that need to be taken on genetically modified crops. In the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences, we have a department within Aberystwyth University that has an interest, perhaps, in this area, although I am not aware that it intends, in the short term, to carry out specific research. However, ultimately, it would be The Welsh Ministers who would decide on the right to conduct open-air research on Welsh soil in this area. In principle, research, especially independent research, makes an important contribution to developing this technology and the technologies associated with genetic modification.

I appreciate your support for the proposal to introduce legislation that will establish a national public register for any plans to grow genetically modified crops in Wales. On buffer zones around any land that has been earmarked for genetically modified crops or any grower who wants to grow such crops, we have not yet come to any conclusions. That is the next part of introducing the legislation. The potential changes at European level that I discussed in my statement mean that we need to take some time to consider what the implications of those changes would be on some of the policies that we put in place in Wales. Therefore, it is important that decisions are taken on a European level on subsidiarity to determine genetic modification before we complete the introduction of legislation that needs to be introduced in Wales on this.

I am also grateful to you for your support this

cefnogaeth y prynhawn yma i'r egwyddor mai yng Nghymru y dylid gwneud y penderfyniad ar dyfu cynydu wedi eu haddasu'n enetig. Felly, os datganolir y penderfyniad ar hyn i'r aelod wladwriaeth yng nghyd-destun Ewrop, byddwch chi fel finnau am weld datganoli pellach o fewn y Deyrnas Gyfunol, fel y gall Cymru benderfynu ar ei pholisi ei hun. Pan fyddaf yn cwrdd â'r Gweinidog i drafod addasu genetig yfory, yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, byddaf yn siŵr o gyflwyno eich sylwadau fel llefarydd yr wrthblaid yma iddo.

Joyce Watson: I am thankful for the opportunity to speak on today's statement as it could potentially affect the livelihoods of thousands of farmers and food producers in Wales, and also the confidence that people in Wales have in their food. I will first talk about the long-term effects of genetically modified crops on the environment and biodiversity, which have not been sufficiently researched. If the crops were allowed to be farmed or grown in Wales, GM crops would cross-pollinate with non-GM crops, with potentially devastating consequences for biodiversity in Wales, which is already under threat. Greenpeace states that the widespread prevalence of GM crops would contaminate the environment and affect all wildlife that is dependent on it. What is more, Greenpeace points out that no GM crops have been proved to be drought and disease resistant, as is theorised. It is clear that supporting a science that has not been thoroughly researched and could have devastating consequences on the environment in a country where such a significant amount of the landscape is rural would be questionable.

If cross-pollination were to take place through the introduction of GM crops, there would be no means of limiting its effects to a certain area; we cannot limit the area that bees cover. This means that, if GM crops were to be introduced, crops across the country could be contaminated.

Secondly, the emphasis that has been placed on the commercialisation of GM crops—prioritising the economic benefits to multinationals over the wellbeing of the

afternoon for the principle that decisions on growing GM crops should be made in Wales. Therefore, if the decision on this is devolved to member states in the European context, you, like me, would want to see further devolution within the United Kingdom, so that Wales can set its own policy. When I meet with the Minister in the Department for Environment, Food and Rural Affairs tomorrow to discuss genetic modification, I will be sure to inform him of your comments as spokesman for the opposition here.

Joyce Watson: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i sôn am y datganiad heddiw oherwydd gallai effeithio ar fywoliaeth miloedd o ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd yng Nghymru, a hefyd ar ymddiriedaeth pobl Cymru yn eu bwyd. Soniaf yn gyntaf am effeithiau hirdymor cynydu a addaswyd yn enetig ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth, na chafwyd digon o ymchwil iddynt. Pe caniateid ffermio neu dyfu'r cynydu yng Nghymru, byddai cynydu GM yn croesbeillio â chynydu sy'n rhydd o GM, a gallai hynny arwain at ganlyniadau trychinebus i fioamrywiaeth yng Nghymru, sydd eisoes dan fygythiad. Dywed Greenpeace y byddai cynydu GM, os oeddent yn gyffredin, yn halogi'r amgylchedd ac yn effeithio ar yr holl fywyd gwyllt sy'n dibynnu arno. Yn ogystal â hynny, mae Greenpeace yn tynnu sylw at y ffaith nad oes unrhyw gynydu GM y profwyd eu bod yn gallu gwrthsefyll sychder ac afiechyd, fel y rhagdybiwyd. Mae'n amlwg y byddai amheuon ynghylch cefnogi gwyddor nad ymchwiliwyd iddi'n drwyadl ac a allai effeithio'n drychinebus ar yr amgylchedd mewn gwlad y mae cymaint o'i thirwedd yn wledig.

Pe bai croesbeillio'n digwydd drwy gyflwyno cynydu GM, ni fyddai modd cyfyngu ei effeithiau i ardal benodol; ni allwn gyfyngu'r ardal y mae gwenyn yn hedfan drosti. Oherwydd hyn, pe cyflwynid cynydu GM, gallai cynydu ar draws y wlad gael eu halogi.

Yn ail, mae'r pwyslais sydd wedi'i roi ar fasnacheiddio cynydu GM—gan roi blaenoriaeth i'r manteision economaidd i gwmnïau rhyngwladol dros les y bobl a'r

people and wildlife consuming the produce—is concerning. There have been two high-profile resignations from the steering group that is looking at the public perception of GM crops—they believed that there is a bias in favour of the introduction of GM crops. The control that multinationals hold on food would be greatly increased if companies with a monopoly on GM crops were to be given the green light to expand into Wales.

Finally, we need to resist the introduction of GM crops in Wales as much as possible because they will affect, as the Minister has mentioned, consumer confidence in food. It is essential that evidence on our food is thoroughly researched and made available to consumers, and, while significant doubt remains on the effects of GM crops, it is important that their prevalence is restricted.

Minister, given the strong position that the coalition here in Cardiff has taken with regard to GM crops, will you give your assurances that you will resist any calls from the coalition in Westminster on this issue?

Elin Jones: Joyce, you have articulated the concerns that many have about GM crops and food. The statutory national register will put in the public domain details of any landowner wishing to grow GM crops, and we will also look at providing notice to neighbours on an intention to grow GM crops. Currently, at an EU level, there is no approval for any GM seed that could practically be grown in Wales, given the conditions of Welsh agriculture. Well in advance of that becoming a potential reality, we will be moving in Wales towards co-existence measures and buffer zones between conventional organic farming and any GM farming. The consultation that we have undertaken on this contains proposals that are far more stringent than those consulted on in England. As the Welsh Government, and as a National Assembly, we currently do not have powers to stop the growing of any approved seed in Wales, but if there is a decision to devolve to the member state the competence to decide on whether a GM-approved seed could be grown within that member state, I would hope, as I said to Brynle, that there could be

bywyd gwyllt sy'n bwyta'r cynnyrch—yn peri pryder. Mae dau aelod amlwg wedi ymddiswyddo o'r grŵp llywio sy'n edrych ar ganfyddiad y cyhoedd o gnydau GM—credent fod rhagfarn o blaid cyflwyno cnydau GM. Byddai mwy o reolaeth o lawer gan gwmnïau rhyngwladol dros fwyd pe byddai cwmnïau sydd â monopoli ar gnydau GM yn cael rhwydd hynt i ehangu yng Nghymru.

Yn olaf, mae angen inni wrthsefyll cyflwyno cnydau GM yng Nghymru i'r graddau mwyaf posibl gan y byddant yn effeithio ar ymddiriedaeth defnyddwyr mewn bwyd, fel y mae'r Gweinidog wedi dweud. Mae'n hollbwysig cael ymchwil drylwyr i roi tystiolaeth am ein bwyd a bod honno ar gael i ddefnyddwyr, a thra bydd amheuan o hyd ynghylch effeithiau cnydau GM, mae'n bwysig cyfyngu eu cyffredinolrwydd.

Weinidog, o gofio'r safbwynt pendant y mae'r glymblaid yma yng Nghaerdydd wedi'i fabwysiadu ar gnydau GM, a wnewch ein sicrhau y byddwch yn gwrthsefyll unrhyw alwadau gan y glymblaid yn San Steffan ar y mater hwn?

Elin Jones: Joyce, yr ydych wedi cyfleu'r pryderon y mae llawer yn eu teimlo ynghylch cnydau a bwyd GM. Bydd y gofrestr genedlaethol statudol yn fodd i gyhoeddi manylion unrhyw berchennog tir sy'n dymuno tyfu cnydau GM, a byddwn hefyd yn ystyried darparu hysbysiad i gymdogion am fwriad i dyfu cnydau GM. Ar hyn o bryd, ar lefel yr UE, ni chafwyd cymeradwyaeth i unrhyw had GM y gellid eu tyfu'n ymarferol yng Nghymru, dan amodau amaethyddiaeth yng Nghymru. Ymhell cyn i'r posibilrwydd hwnnw godi, byddwn yn symud yng Nghymru tuag at fesurau cydfodoli a lleiniau clustogi rhwng ffermio organig confensiynol ac unrhyw ffermio GM. Mae'r ymgynghoriad yr ydym wedi'i gynnal ar hyn yn cynnwys cynigion sy'n gaethach o lawer na'r rheini yr ymgynghorwyd arnynt yn Lloegr. Fel Llywodraeth Cymru, ac fel Cynulliad Cenedlaethol, nid oes gennym bwerau ar hyn o bryd i atal tyfu unrhyw had sydd wedi'u cymeradwyo yng Nghymru, ond os penderfynir datganoli i'r aelod-wladwriaeth y cymhwysedd dros benderfynu a ellid tyfu had GM sydd wedi'u cymeradwyo o fewn yr

further devolution of that power to Wales, so that we could decide here on our policy of growing GM crops, taking the decisions that are relevant to our circumstances and our aspirations as a Government and as an Assembly.

3.10 p.m.

Michael German: I recognise the public unease around GM technology, and I also recognise the complexity of the legal position that you find yourself in, given the mix of policy—from UK policy to European policy—with regard to restriction and so on. There is always confusion between experimentation—and being able to get information about it—and cultivation and use in the wider sense. I confirm that we, as a party, are opposed to the commercial growing of GM crops, unless we have demonstrable evidence showing that it is safe. It is also important that communities should be allowed to create GM-free zones—wherever they may be and whatever their size. Therefore, in that sense, we welcome your statement.

I have four sets of issues for you to address. The first relates to the public unease to which I referred. To what extent will you be able to engage with the wider public, given that it is so difficult for the public to understand the nature of the different jurisdictions that have management over this issue, and given the ways in which some newspapers have reported stories? It is a tricky issue to get people to understand where the competence lies, even with the suggested approach at the end of your statement. Therefore, how will you communicate that message to the wider public in Wales?

You have already touched on the second issue, which is cross-contamination. You say that you have not yet made a decision. The issue of cross-contamination is vital, because if an institution, such as Aberystwyth University, which you mentioned, was to receive permission to carry out open-air experiments by another jurisdiction, you would need to protect the land around it, given that airborne spores can travel

aelod-wladwriaeth honno, byddwn yn gobeithio, fel y dywedais wrth Brynle, y gellid datganoli'r pŵer hwnnw ymhellach i Gymru, fel y gallem benderfynu yma ar ein polisi ar dyfu cnydau GM, drwy wneud y penderfyniadau sy'n berthnasol i'n hamgylchiadau ac i'n dyheadau fel Llywodraeth ac fel Cynulliad.

Michael German: Yr wyf yn cydnabod yr anesmwythyd sydd ymysg y cyhoedd ynghylch technoleg GM, ac yr wyf hefyd yn cydnabod cymhlethdod y cyd-destun cyfreithiol yr ydych ynddo, o gofio'r cymysgedd polisi—rhwng polisi'r DU a pholisi Ewrop—o ran cyfyngu ac yn y blaen. Mae dryswch bob amser rhwng arbrofi—a'r gallu i gael gwybodaeth amdano—a thyfu a defnyddio yn yr ystyr mwy cyffredinol. Yr wyf yn cadarnhau ein bod ni, fel plaid, yn gwrthwynebu tyfu cnydau GM yn fasnachol, oni chawn dystiolaeth eglur sy'n dangos bod hynny'n ddiogel. Mae hefyd yn bwysig caniatáu i gymunedau greu parthau sy'n rhydd o GM—ymhle bynnag y maent ac o ba bynnag faint. Felly yr ydym yn croesawu'ch datganiad yn hynny o beth.

Mae pedair set o faterion yr hoffwn ichi ymdrin â hwy. Mae'r gyntaf yn ymwneud â'r anesmwythyd cyhoeddus y cyfeiriais ato. I ba raddau y byddwch yn gallu ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol, o gofio ei bod mor anodd i'r cyhoedd ddeall natur y gwahanol awdurdodaethau sydd â rheolaeth dros y mater hwn, ac o gofio'r modd y mae rhai papurau newydd wedi cofnodi storïau? Mae'n anodd cyfleu i bobl ymhle y mae'r cymhwysedd, hyd yn oed o ddilyn y llwybr a awgrymwyd ar ddiwedd eich datganiad. Felly, sut y byddwch yn cyfleu'r neges honno i'r cyhoedd yng Nghymru'n fwy cyffredinol?

Yr ydych eisoes wedi cyfeirio at yr ail fater, sef croes-halgi. Dywedwch nad ydych wedi gwneud penderfyniad eto. Mae mater croes-halgi'n hanfodol, oherwydd pe byddai sefydliad, fel Prifysgol Aberystwyth, y cyfeiriasoch ati, yn cael caniatâd i gynnal arbrofion yn yr awyr agored gan awdurdodaeth arall, byddai angen ichi warchod y tir o'u cwmpas, o gofio bod sborau'n gallu cael eu cario'n bell yn yr

considerable distances. That is part of the difficulty in conducting experimentation in the open air.

The third issue relates to cross-border issues. If there was ever a classic example of a case where you could not draw a border between Wales and England, this is it. You will know of the example in north Wales, where a farmer had fields that straddled England and was using the English side to cultivate GM crops under licence. The farmer was not doing so on the Welsh side, but the reality was that the spores transmitted themselves through the air. Therefore, how do you propose to ensure that your regime works in Wales, given that you have no influence over those who work the land across the border in England?

The fourth question, which arises from my previous question, is on the issue of devolution, which you just mentioned. Does the UK support the European Commission's attitude towards the devolution of some of these responsibilities to member states? If you know the answer to that, do you also know the position of your colleagues in Scotland and Northern Ireland? They could strengthen your arm and create a united front in making the case for the devolution of these responsibilities to Wales. Do you meet your colleagues from other devolved administrations outside of your meetings with the Secretary of State? If so, have you had a discussion on this matter? That would be an important step in taking forward the devolution of this issue—something that I think we would all support.

Elin Jones: I was pleased to see in the responses to the consultation document that there is support within Wales either for GM-free zones or for Wales as a whole to be a voluntary GM-free zone. We undertook an extensive consultation on the coexistence proposals and possible legislation but, as is usual in these cases, it was the usual suspects who responded to the consultation, so I cannot say that the wider public have been engaged fully in the issues around the growing of GM crops in Wales and how to protect conventional and organic farming if that is allowed. On cross-contamination and coexistence measures, as I have said already,

awyr. Mae hynny'n un o'r anawsterau wrth gynnal arbrofion yn yr awyr agored.

Mae'r trydydd mater yn ymwneud â materion trawsffiniol. Os bu erioed enghraifft glasurrol o achos lle na allech dynnu ffin rhwng Cymru a Lloegr, dyma hi. Gwyddoch am yr enghraifft yng ngogledd Cymru, lle'r oedd gan ffermwr gaeau a oedd o boptu i'r ffin â Lloegr ac yntau'n defnyddio'r rhai ar ochr Lloegr i dyfu cynydau GM dan drwydded. Nid oedd y ffermwr yn gwneud hynny ar ochr Cymru, ond y gwir oedd bod y sborau'n symud drwy'r awyr. Felly, sut yr ydych yn bwriadu sicrhau y bydd y drefn sydd gennych yn gweithio yng Nghymru, gan nad oes gennych unrhyw ddylanwad dros y rheini sy'n trin y tir ar draws y ffin yn Lloegr?

Mae'r pedwerydd cwestiwn, sy'n codi o'm cwestiwn blaenorol, yn ymwneud â mater datganoli, yr ydych newydd sôn amdano. A yw'r DU yn cymeradwyo ymagwedd Comisiwn Ewrop at ddatganoli rhai o'r cyfrifoldebau hyn i aelod-wladwriaethau? Os gwyddoch yr ateb i hynny, a ydych hefyd yn gwybod beth yw safbwynt eich cymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon? Gallent fod yn gefn i chi a chreu undod wrth ddadlau o blaid datganoli'r cyfrifoldebau hyn i Gymru. A ydych yn cwrdd â'ch cymheiriaid mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill y tu allan i'ch cyfarfodydd â'r Ysgrifennydd Gwladol? Os ydych, a ydych wedi cael trafodaeth ar y mater hwn? Byddai hynny'n gam pwysig wrth hyrwyddo datganoli ar y mater hwn—rhywbeth y byddem i gyd yn ei gefnogi, yr wyf yn credu.

Elin Jones: Yr oeddwn yn falch o weld yn yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori fod cefnogaeth yng Nghymru un ai o blaid cael parthau sy'n rhydd o GM neu dros wneud Cymru gyfan yn barth sy'n rhydd o GM yn wirfoddol. Ymgymerasom ag ymgynghoriad eang ar y cynigion ar gydfodoli a deddfwriaeth ddichonol ond, fel a ddigwydd fel arfer mewn achosion o'r fath, y rhai arferol a ymatebodd i'r ymgynghoriad, felly ni allaf ddweud bod y cyhoedd yn gyffredinol wedi cymryd rhan yn llawn wrth drafod y materion sy'n ymwneud â thyfu cynydau GM yng Nghymru a sut i warchod ffermio confensiynol ac organig os caniateir hynny.

I will take a decision, subject to the key decisions that are likely to be made within the European Union on where the decision making lies, probably after that European negotiation is completed, on the exact coexistence measures in Wales. If there is the potential for the approval of a seed that could be grown in the climatic conditions of Wales to move through the European process quicker than that negotiation on decision making in Europe, then we would need to look at speeding up the coexistence regulations in Wales. The cross-border issues on coexistence will be challenging, no doubt, especially since I hinted earlier that, in England, a consultation on coexistence and buffer zones has already been undertaken and those proposals are far more lenient, if I can put it that way, than ours. It may well be that the whole of Offa's Dyke needs to be a buffer zone for this purpose, but we will have to consider those issues carefully, as they can have a very real effect on farmers whose farms straddle the border. As for the view of DEFRA and the UK Government on whether decision making on the growing of GM crops should be devolved to the member state, I hope to be able to tell you that after tomorrow, because tomorrow I have my first meeting to discuss GM issues with the UK Minister. I am pretty confident that the view of the Scottish Government is that it would like to see the responsibility on deciding on GM crop growing in Scotland to be devolved, but I hope that we are able to reach a consensus, even though there may be a difference of policy in England, Scotland, Northern Ireland and Wales on GM crops, that each constituent country should be the competent authority for taking the decision on GM crop cultivation.

Rhodri Glyn Thomas: Croesawaf yn fawr eich datganiad y prynhawn yma ac yr wyf yn eich llongyfarch ar yr agwedd ofalus a gochelgar yr ydych wedi ei gymryd tuag at dyfu cnydau GM yng Nghymru. Fel y nodwyd gan Joyce Watson, pe bai caniatâd i dyfu cnydau GM yn agos at gnydau confensiynol ac organig yng Nghymru, gallai hynny danseilio gwerth y cnydau hynny a ffydd y cyhoedd yn yr hyn y maent yn ei

Ynghylch croes-halogi a mesurau cydfodoli, fel yr wyf wedi dweud eisoes, byddaf yn gwneud penderfyniad, yn amodol ar y penderfyniadau allweddol sy'n debygol o gael eu gwneud o fewn yr Undeb Ewropeaidd ynghylch lle y gwneir penderfyniadau, ar ôl cwblhau'r negodi Ewropeaidd hwnnw yn ôl pob tebyg, ar yr union fesurau cydfodoli a fydd yng Nghymru. Os oes posibilrwydd y bydd had y gellid eu tyfu yn hinsawdd Cymru'n cael eu cymeradwyo drwy broses Ewrop yn gynt na'r negodi hwnnw ar benderfyniadau yn Ewrop, yna byddai angen inni ystyried gweithredu'n gynt ar y rheoliadau ynghylch cydfodoli yng Nghymru. Bydd y materion trawsffiniol sy'n ymwneud â chydfodoli'n sicr o gynnig her, yn enwedig o gofio bod ymgynghoriad wedi'i gynnal eisoes yn Lloegr ar gydfodoli a lleiniau clustogi ac, fel yr awgrymais yn gynharach, fod y cynigion hynny'n fwy goddefgar o lawer, os caf ei roi felly, na'n rhai ni. Mae'n ddigon posibl y bydd angen i Glawdd Offa fod yn llain glustogi ar ei hyd i'r diben hwn, ond bydd yn rhaid inni ystyried y materion hynny'n ofalus, oherwydd gallant effeithio'n bendant iawn ar ffermwyr y mae eu ffermydd o boptu i'r ffin. O ran safbwynt DEFRA a Llywodraeth y DU ynghylch a ddylid datganoli penderfyniadau ar dyfu cnydau GM i'r aelod-wladwriaeth, yr wyf yn gobeithio gallu rhoi gwybod i chi am hynny drennydd, gan mai yfory y caf fy nghyfarfod cyntaf i drafod materion GM â Gweinidog y DU. Yr wyf yn eithaf sicr mai barn Llywodraeth yr Alban yw yr hoffai weld datganoli'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar dyfu cnydau GM yn yr Alban, ond yr wyf yn gobeithio y gallwn ddod i gonsensws, er y gellid cael gwahaniaeth ym mhollisiau Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru ar gnydau GM, y dylai pob un o wledydd y DU fod yn awdurdod cymwys ar gyfer penderfynu ynghylch tyfu cnydau GM.

Rhodri Glyn Thomas: I very much welcome your statement this afternoon and I congratulate you on the precautionary and careful attitude that you have taken towards the growing of GM crops in Wales. As has been noted by Joyce Watson, were there permission to grow GM crops close to conventional and organic crops in Wales that could undermine the value of those crops and the public's confidence in what they eat. It

fwyta. Gallai hefyd danseilio elfen eithriadol o bwysig o'n marchnata yng Nghymru, sef y gallwn sôn am gnydau sy'n cael eu tyfu'n wyrdd ac yn lân, ac am gynnyrch o Gymru sydd yn wyrdd ac yn lân. Rhaid inni wneud pob peth i ddiogelu'r elfen farchnata honno. Yr ydych wedi cyfeirio at y newid, o bosibl, yn agwedd y Llywodraeth yn San Steffan, ac at y ffaith ei bod yn ymddangos bod Gweinidog y Llywodraeth newydd yn llawer mwy cefnogol o ehangu tyfu cnydau GM. A allwch ein sicrhau y byddwch yn parhau i ymladd o blaid achos Cymru i'n diogelu ni rhag hynny? Nid oes neb eisiau cau'r drws ar wyddoniaeth, ac yr ydym yn hapus i gefnogi datblygiadau gwyddonol yn y maes, ond nid ydym am weld y cnydau hyn yn cael eu tyfu yn fasnachol nes bod gennym sicrwydd llwyr o'u diogelwch ac na fyddant, mewn unrhyw ffordd, yn llygru cnydau eraill nac unrhyw dda sy'n pori ar y tiroedd hynny.

3.20 p.m.

Yr ydych wedi sôn am drafodaethau anodd â DEFRA yn y gorffennol, a gallwn ragweld efallai y bydd trafodaethau'r dyfodol hyd yn oed yn anoddach os yw'r agwedd hon wedi newid. Mawr hyderaf, Weinidog, y byddwch yn parhau i lwyddo i ddiogelu buddiannau Cymru yn y trafodaethau anodd hynny.

Yn olaf, yr ydych wedi cyfeirio at y datganiad yr ydym yn disgwyl amdano o Frwsel. Yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol y bore yma, clywsom ei bod yn debygol y caiff datganiad ei wneud ar 13 Gorffennaf ac y bydd yn rhoi mwy o bwerau i'r aelod wladwriaeth wneud penderfyniadau yn y maes hwn. Yr ydym wedi cael sicrwydd gennych y prynhawn yma y byddwch chi, ynghyd â Gweinidog materion gwledig yr Alban, yn ymladd yr achos dros wneud y penderfyniadau hyn yng Nghymru ac yn yr Alban. Unwaith eto, mawr hyderwn, Weinidog, y byddwch yn llwyddiannus yn y trafodaethau hynny oherwydd ein bod wedi cymryd safiad arbennig yng Nghymru, ac yr ydym am ddiogelu'r safiad hwnnw i'r dyfodol er lles ein diwydiant amaeth a'r economi wledig yng Nghymru, ac oherwydd y potensial sydd gennym i farchnata Cymru mewn ffordd bositif iawn o ran ei chnydau a'i chynnyrch yn gyffredinol.

could also undermine an exceptionally important element of our marketing in Wales, that is, that we can talk about crops that are grown 'green and clean', and about clean and green Welsh produce. We must do everything to safeguard that marketing element. You have referred to the possible change in the attitude of the Westminster Government, and to the fact that it appears that the new Government Minister is much more supportive of expanding the growth of GM crops. Can you assure us that you will continue to fight Wales's corner and safeguard us from that? No-one wants to close the door on science, and we are happy to support scientific developments in this area, but we do not want to see these crops grown on a commercial basis until we have a full assurance of their safety and that they will in no way contaminate other crops or livestock grazing those lands.

You have spoken about difficult negotiations with DEFRA in the past, and we could perhaps anticipate that these discussions will become even more difficult if this attitude has changed. I am confident that you will continue to succeed in safeguarding Wales's interests in those difficult discussions.

Finally, you mentioned the statement that we are expecting from Brussels. In the Committee on European and External Affairs this morning, we heard that that statement is likely to be made on 13 July and that it is likely that it will provide further powers to member states to make decisions in this area. You have given us an assurance this afternoon that you, along with the Scottish Minister for rural affairs, will fight for these decisions to be made in Wales and in Scotland. Once again, we are confident that you will be successful in those discussions because we have taken a particular stance here in Wales, and we want to safeguard that position for the future for the sake of our agriculture industry and the rural economy in Wales and because of the potential that we have to market Wales in a very positive way in respect of its crops and produce in general.

Elin Jones: Yr wyf yn cytuno â chi fod elfen farchnata gref i'n gallu fel gwlad i hyrwyddo ein cynnyrch a'n bwydydd fel rhai sy'n cael eu cynhyrchu mewn cyd-destun gwyrdd a glân, yn eich geiriau chi. Mae'n glir o sylwadau cychwynnol yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei bod hi'n weddol gefnogol o fwydydd GM, ond, fel y soniais yn gynharach, cafwyd rhai trafodaethau digon anodd â'r Ysgrifennydd Gwladol blaenorol yng nghyd-destun safbwynt Cymru ar bleidleisio ar hadau GM a oedd yn dod gerbron Cyngor y Gweinidogion. Ein safbwynt ni yw bod angen ystyried materion economaidd gymdeithasol yn ogystal â materion gwyddonol wrth i gais am gytuno hedyn ddod gerbron Cyngor y Gweinidogion. Mae hwn yn fater sy'n destun gwaith ymgynghori ar lefel Comisiwn Ewrop. Nid yw Cymru ar ben ei hun fel gwlad sydd am weld y datblygiadau hyn yn cael eu hystyried o'r safbwynt economaidd gymdeithasol.

O ran a fydd y penderfyniadau ar dyfu cynydau GM yn cael eu datganoli i Gymru yn y pen draw, yr wyf yn mawr obeithiol o hynny. Fel y dywedodd Mike German yn ei gwestiwn, mae'r polisiâu a phenderfyniadau am gnydau GM yn dod yn bennaf o fewn fframwaith Ewrop ac yn benderfyniadau a deddfwriaeth sy'n dod o dan gymhwysedd Llywodraeth Cymru, felly mae gan Lywodraeth Cymru awdurdod a chymhwysedd yn y maes hwn yn barod. Byddwn yn gobeithio, felly, os bydd y polisi yn cael ei ddatganoli ymhellach o'r Undeb Ewropeaidd o dan egwyddor sybsidiaredd, y bydd y cymhwysedd yn dod i Gymru ac nid i'r Deyrnas Gyfunol yn unig.

Andrew R.T. Davies: Thank you, Minister, for your statement today. As a grower, I have followed the genetically modified debate with much interest over the past few years. There have been wild accusations made on both sides of the argument, when informed debate would enlighten the consumers who, ultimately, if these products come to the market, will choose whether they wish to purchase and consume them. In that context, I would appreciate the Minister giving me and fellow Members a clear understanding of how she is basing her advice and actions on

Elin Jones: Of course, I agree that there is a strong marketing element to our ability as a country to promote our products and food as produced in a clean and green context, to use your words. It is clear from the initial words of the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs that she is quite supportive of genetically modified food, but, as I said earlier, there were quite difficult negotiations with the previous Secretary of State in the context of the Welsh stance on voting on genetically modified seeds that came before the Council of Ministers. Our stance is that there is a need to consider socioeconomic issues in addition to scientific issues when an application for agreeing a seed comes before the Council of Ministers. This is a matter that is being consulted on at European Commission level. Wales is not alone as a country that wishes to see these developments considered from a socioeconomic perspective.

As for whether the decision on growing genetically modified crops will ultimately be devolved to Wales, I very much hope that that will be the case. As Mike German said in his question, the policy and decisions on genetically modified crops are primarily policies and decisions in the European framework, and are decisions and legislation that come under the Welsh Government's competence; therefore, the Welsh Government already has authority in this field. Therefore, if there is to be further decentralisation of the policy from the European Union under the subsidiarity principle, I hope that the competency will come to Wales and not just to the United Kingdom.

Andrew R.T. Davies: Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Fel un sy'n tyfu cynydau, yr wyf wedi dilyn y ddadl am addasu genetig gyda llawer o ddiddordeb dros y blynyddoedd diwethaf. Gwnaed cyhuddiadau annoeth ar ddwy ochr y ddadl, pan fyddai dadl wybodus wedi goleuo'r defnyddwyr a fydd, yn y pen draw, os caiff y cynhyrchion hyn eu marchnata, yn dewis a fyddant yn eu prynu a'u bwyta. Yn y cyd-destun hwnnw, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn egluro i mi ac i'm cyd-Aelodau sut y mae'n seilio ei chynghor a'i

science rather than the misinformed perspectives, perhaps, that both sides of this argument could well be presenting. Both the commercial side and the pressure group side have vested interests in this. As we go forward, it is important that the evidence that the Minister collates and the actions that she undertakes are based on the science. GM crops are grown in large areas of the world now. Genetically modified soya, for example, is grown widely in South America and in North America. I have heard Members talk about consumption. It would amaze me if people in the United Kingdom, and in Wales, had not already consumed genetically modified crops, given the proliferation of genetically modified soya.

Moving on to labelling, that is of fundamental importance, particularly in the discussions that the Minister will have with her colleagues at Westminster and in the European Union on how exactly information can be conveyed to the consumer by means of appropriate, clear and concise labelling. We are all aware of the European Union's actions last week on the labelling of food products. Understanding the contents of the product that you are purchasing is critical in making an informed choice about the consumption of GM crops. I would be grateful if the Minister could indicate whether she has had any discussions, or whether she is minded to have any discussions, to move this argument forward. As well as what she is doing in Wales, we have to be mindful of what goes on in the wider world.

Thirdly, while we can take a view of the actions of the Minister and those of Assembly Government Ministers, there is the issue of free trade. Many countries set great store by free trade and the free movement of goods and agricultural produce. Extensive negotiations are now under way with the World Trade Organization on free trade. Is the Minister confident that the actions that she has laid out here would not be in breach of such negotiations and such deliberations, and has she tested the water to ensure that that is the case? Ultimately, the driver of this

gweithredoedd ar dystiolaeth wyddonol yn hytrach na'r safbwyntiau cyfeiliornus, o bosibl, y mae'n ddigon posibl bod y rhai ar ddwy ochr y ddadl yn eu cyflwyno. Mae budd yn hyn i'r rhai ar yr ochr fasnachol ac i'r rhai ar ochr y grwpiau pwysu. Mae'n bwysig, wrth fynd ymlaen, fod y dystiolaeth y mae'r Gweinidog yn ei chasglu, a'r camau y mae'n eu cymryd, wedi'u seilio ar y dystiolaeth wyddonol. Mae cynydau GM yn cael eu tyfu mewn rhannau helaeth o'r byd yn awr. Er enghraifft, mae soia a addaswyd yn enetig yn cael ei dyfu ar raddfa eang yn Ne America ac yng Ngogledd America. Yr wyf wedi clywed Aelodau'n sôn am fwya cynnyrch. Byddwn yn rhyfeddu pe na fyddai pobl yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru eisoes wedi bwyta cynydau a addaswyd yn enetig, o gofio pa mor gyffredin yw soia a addaswyd yn enetig.

Gan symud ymlaen at labelu, mae hynny o bwys sylfaenol, yn enwedig yn y trafodaethau a gaiff y Gweinidog â'i chymheiriaid yn San Steffan ac yn yr Undeb Ewropeaidd ynghylch sut yn union y gellir cyfleu gwybodaeth i'r defnyddiwr drwy labelu priodol, clir a chryno. Yr ydym i gyd yn ymwybodol o'r camau a gymerodd yr Undeb Ewropeaidd yr wythnos diwethaf o ran labelu cynhyrchion bwyd. Mae deall beth sydd yn y cynnyrch yr ydych yn ei brynu'n hanfodol wrth ddewis yn wybodus ynghylch bwyta cynydau GM. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud a yw wedi cael unrhyw drafodaethau, neu a yw o blaid cael unrhyw drafodaethau, er mwyn symud ymlaen â'r dadl hon. Yn ogystal â'r hyn y mae'n ei wneud yng Nghymru, rhaid inni ystyried yr hyn sy'n mynd ymlaen yn y byd ehangach.

Yn drydydd, er y gallwn farnu ynghylch gweithredoedd gan y Gweinidog a chan Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad, dyna fater masnach rydd. Mae llawer o wledydd yn rhoi pwys mawr ar fasnach rydd ac ar symud nwyddau a chynnyrch amaethyddol yn ddirwystr. Mae negodiadau cynhwysfawr yn mynd ymlaen yn awr â Sefydliad Masnach y Byd ar fasnach rydd. A yw'r Gweinidog yn sicr na fyddai'r camau gweithredu y mae wedi'u hegluro yma'n mynd yn groes i negodiadau a thrafodion o'r fath, ac a yw wedi gwneud ymholiadau i gadarnhau

trade will be whether certain sections of the world, such as South America, for example, use GM crops and agricultural crops as a red line in any negotiations. That must inform the Minister and the Government's thinking about what they can do in Wales, above all, to offer the safeguards that growers and consumers require.

Elin Jones: I will reiterate that this Government's policy position of having the most restrictive and precautionary approach to the development of genetic modification within the EU framework was agreed in 'One Wales'. That position, over the years, has had a degree of cross-party support in this Assembly. I do not believe that decisions on the approval of GM seed and potential crops for cultivation should only be based on science. I completely agree that scientific advice should inform that decision, but, in my view, and in the view of a number of EU member states, Governments and Ministers should also be able to consider the socioeconomic implications of allowing GM crop cultivation.

I am a strong advocate of labelling and 'honest labelling', as I think that I have heard it referred to in the Chamber on a few occasions. I think that consumers want to see food products clearly labelled as to whether they contain GM crops. I accept your point that it can be difficult to trace GM crops, particularly with regard to food and feedstuffs that are imported into the EU. As a Government, we have very little power over labelling, and our role is primarily to influence EU policy development, and also the UK position on food labelling.

Finally, on free trade, any regulations that we put in place here on a national register or coexistence measures need to be within the EU legislative framework. I guess that that EU legislative framework, in its turn, is within the agreement on trade discussions, but it is clear that regulations here would be within the EU framework.

hynny? Yn y pen draw, yr hyn a fydd yn ysgogi'r fasnach hon yw a fydd rhai rhannau o'r byd, fel De America, er enghraifft, yn defnyddio cnydau GM a chnydau amaethyddol fel maen prawf mewn unrhyw negodiadau. Rhaid i hynny fod yn ystyriaeth gan y Gweinidog a'r Llywodraeth wrth feddwl am yr hyn y gallant ei wneud yng Nghymru, yn fwy na dim er mwyn cynnig i dyfwyr cnydau a defnyddwyr y diogelwch y mae arnynt ei angen.

Elin Jones: Egluraf eto fod safbwynt polisi'r Llywodraeth hon o gael y dull mwyaf cyfyngol a rhagofalus o ddatblygu addasu genetig o fewn fframwaith yr UE yn rhan o gytundeb 'Cymru'n Un'. Mae rhywfaint o gefnogaeth drawsbleidiol wedi bod i'r safbwynt hwnnw, dros y blynyddoedd, yn y Cynulliad hwn. Nid wyf yn credu y dylid seilio penderfyniadau ar gymeradwyo had GM a chnydau y gellid eu tyfu ar dystiolaeth wyddonol yn unig. Cytunaf yn llwyr y dylai cyngor gwyddonol gyfrannu at benderfyniad o'r fath, ond, yn fy marn i, ac ym marn nifer o aelod-wladwriaethau'r UE, dylai Llywodraethau a Gweinidogion hefyd allu ystyried y goblygiadau economaidd gymdeithasol o ganiatáu tyfu cnydau GM.

Yr wyf yn gefnogol iawn i labelu a 'labelu gonest', fel yr wyf wedi clywed cyfeirio ato weithiau, yr wyf yn credu, yn y Siambr hon. Credaf fod defnyddwyr am weld labelu cynhyrchion bwyd yn glir o ran a ydynt yn cynnwys cnydau GM. Derbyniaf eich pwynt i'r perwyl y gall fod yn anodd olrhain cnydau GM, yn enwedig mewn cysylltiad â bwydydd a bwydydd anifeiliaid a fewnforir i'r UE. Fel Llywodraeth, ychydig iawn o bŵer sydd gennym dros labelu, a'n prif rôl yw dylanwadu ar y broses o ddatblygu polisi'r UE, a hefyd ar safbwynt y DU ar labelu bwyd.

Yn olaf, mewn cysylltiad â masnach rydd, mae angen i unrhyw reoliadau a weithredwn yma ar gofrestr genedlaethol neu fesurau cydfodoli fod yn gyson â fframwaith deddfwriaethol yr UE. Tybiwn fod fframwaith deddfwriaethol yr UE yn gyson, yn ei dro, â'r cytundeb ar drafodaethau masnach, ond mae'n glir y byddai rheoliadau yma'n gyson â fframwaith yr UE.

3.30 p.m.

Brian Gibbons: I thank the Minister for her statement. After 10 years, it is almost an article of faith of the Assembly, and it is probably a badge of honour to many, that we have the most restrictive regime in relation to GM crops in the United Kingdom and maybe even in Europe. I am not too sure, however, that this is always to our benefit. Given the balance of opinion in Wales, I am sure that the Minister is right to say that there is widespread concern about GM crops. However, I would be worried about the register, and detailed thought is needed in this regard. People probably have the right to know, but I would be worried if this register became the name, blame and shame register, and if people who are going about legitimate business were subjected to victimisation or abuse. That is a risk in relation to the register. Feelings run high on this issue, and that would be one of my concerns, bearing in mind the equally legitimate point that people have a right to know.

I listened to Brynle's point about DDT. No-one is suggesting that we dispense DDT sandwiches in the Assembly canteen. However, one advantage of GM crops and their cultivation and development is that there may be less dependence on chemicals in agriculture. Therefore, this again is not a one-way street. Equally, the appliance of science, and the increasing productivity of agriculture, means that, throughout the world, fewer people face starvation, despite the fact that the world's population has increased. Adopting a position that seems to be unbalanced in its negativity is a concern. In the 10 years that the Assembly has been considering this issue, in relation to its restrictive regime, science has provided consolation and comfort rather than confirming the more apocalyptic stories in relation to Frankenstein foods, and so on, which informed—or misinformed—this debate from the beginning.

Therefore, the debate continues. We need a more balanced view of this issue. I would be worried if Wales, which tries to promote itself as a pioneer of developing the knowledge economy, found itself with

Brian Gibbons: Diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad. Wedi 10 mlynedd, mae bron yn erthygl ffydd i'r Cynulliad, ac mae'n debyg ei fod yn destun balchder i lawer, mai ni sydd â'r drefn fwyaf cyfyngol mewn cysylltiad â chnydau GM yn y Deyrnas Unedig, ac efallai yn Ewrop hyd yn oed. Er hynny, nid wyf yn hollol sicr bod hyn yn fantais i ni bob amser. O ystyried y farn gyffredinol yng Nghymru, yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn iawn wrth ddweud bod pryder cyffredinol ynghylch cnydau GM. Er hynny, byddwn yn pryderu ynghylch y gofrestr, ac mae angen ystyried hyn yn fanwl. Mae'n debyg bod gan bobl hawl i wybod, ond byddwn yn pryderu pe byddai'r gofrestr hon yn troi'n gofrestr ar gyfer bwrw'r bai a chodi cywilydd ar bobl, a phe byddai pobl sy'n mynd ynghylch eu busnes cyfreithlon yn cael eu herlid neu eu cam-drin. Mae perygl o'r fath mewn cysylltiad â'r gofrestr. Mae teimladau cryf ynghylch y mater hwn, a byddai hynny'n un o'm pryderon, gan gofio'r pwynt sydd yr un mor ddilys fod gan bobl hawl i wybod.

Gwrandewais ar bwynt Brynle am DDT. Nid oes neb yn awgrymu y dylem gynnig brechdanau DDT yn ffreutur y Cynulliad. Fodd bynnag, un o'r manteision o gnydau GM ac o'u tyfu a'u datblygu yw y gellid bod yn llai dibynnol ar gemegau mewn amaethyddiaeth. Felly, unwaith eto, mae mwy nag un ochr i'r ddadl. Yn yr un modd, drwy gymhwysu gwyddoniaeth, ac am fod amaethyddiaeth yn fwy cynhyrchiol, mae llai o bobl drwy'r byd yn wynebu newyn, er bod poblogaeth y byd wedi tyfu. Mae mabwysiadu safbwynt sy'n ymddangos yn anghytwys o ran ei negyddoldeb yn destun pryder. Yn ystod y 10 mlynedd y mae'r Cynulliad wedi bod yn ystyried y mater hwn, mewn cysylltiad â'i drefn gyfyngol, mae gwyddoniaeth wedi cynnig cysur yn hytrach na chadarnhau'r storïau mwyaf apocalyptaidd mewn cysylltiad â bwydydd Frankenstein, ac yn y blaen, sydd wedi cyfrannu i'r ddadl hon—neu ei charmarwain—ers y dechrau.

Felly, mae'r ddadl yn parhau. Mae arnom angen barn fwy cytbwys am y mater hwn. Byddwn yn pryderu pe byddai Cymru, sy'n ceisio ei hyrwyddo ei hun fel un o arloeswyr yr economi wybodaeth, yn cael ei bod wedi

barriers preventing the development of the most innovative and exciting areas of bio-science being developed in the world.

Elin Jones: I want to stress that the ‘One Wales’ policy on having the most restrictive and precautionary policy on GM crop cultivation is not a policy that I wear with a badge of honour. However, like you, I want to see scientific advances in agriculture. I believe that independent science has a key role in informing Ministers today, and into the future, on the role of GM technology and associated technologies. Therefore, I am not turning my face—and neither is this Government—away from the science that can and probably will develop in this field, and I agree that this debate goes on.

You mentioned the legislation that will be necessary in order to have a statutory public register of GM crop growing in Wales. I have no doubt that many Assembly Members will want to scrutinise that legislation in detail, through the Assembly’s processes, as well as considering some of the points that you raise. Ultimately, this decision is a matter of getting the balance right between the interests of the community and neighbouring farms, ensuring that they have access to information on GM crops grown in their area, while allowing any farmer or grower to grow a crop from a seed that has been approved within the EU legislation, as they have the right to do so. The community and other growers in the area should be informed that it is being grown and that there is a potential for cross-contamination and the overriding interest is that that information is in the public domain.

codi rhwystrau rhag datblygu’r agweddau mwyaf arloesol a chyffrous ar fio-wyddoniaeth yn y byd.

Elin Jones: Hoffwn bwysleisio nad yw’r polisi yn ‘Cymru’n Un’ ar fabwysiadu’r polisi mwyaf cyfyngol a rhagofalus ar dyfu cynydau GM yn bolisi sy’n destun balchder i mi. Fodd bynnag, fel chithau, yr wyf am weld datblygiadau gwyddonol mewn amaethyddiaeth. Credaf fod rôl allweddol i dystiolaeth wyddonol annibynnol wrth roi gwybodaeth i Weinidogion heddiw, ac yn y dyfodol, am rôl technoleg GM a thechnolegau cysylltiedig. Felly, nid wyf fi—na’r Llywodraeth hon—yn anwybyddu’r datblygiadau gwyddonol a allai ac a fydd, yn ôl pob tebyg, yn digwydd yn y maes hwn, a chytunaf fod y ddadl hon yn parhau.

Cyfeiriasoch at y ddeddfwriaeth a fydd yn angenrheidiol er mwyn cael cofrestr gyhoeddus statudol ar gyfer tyfu cynydau GM yng Nghymru. Yr wyf yn sicr y bydd llawer o Aelodau’r Cynulliad am graffu’n fanwl ar y ddeddfwriaeth honno, drwy brosesau’r Cynulliad, yn ogystal ag ystyried rhai o’r pwyntiau yr ydych yn eu codi. Yn y pen draw, mae’r penderfyniad hwn yn fater o ddal y ddysgl yn wastad rhwng buddiannau’r gymuned a ffermydd cyfagos, gan sicrhau eu bod yn gallu gweld gwybodaeth am gnydau GM sy’n cael eu tyfu yn eu hardal, gan ganiatáu i unrhyw ffermwr neu dyfwr dyfu cnwd o had sydd wedi’u cymeradwyo dan ddeddfwriaeth yr UE, fel y mae ganddynt hawl i wneud. Dylai’r gymuned a thyfwrwyr eraill yn yr ardal gael eu hysbysu ei fod yn cael ei dyfu a bod posibilrwydd o groes-halogi a’r budd pennaf yw bod y wybodaeth honno ar gael i’r cyhoedd.

Datganiad am Gyn-filwyr ac Aelodau o’r Lluoedd Arfog yng Nghymru sy’n Gwasanaethu ar Hyn o Bryd **Statement on Veterans and Serving Members of the Armed Forces in Wales**

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): Today, I want to make a statement on the great value that we place on our armed forces community and the Assembly Government’s commitment to improving our delivery of public services to them. Before doing so, it is right to mention yesterday’s tragic news that

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Heddiw, hoffwn wneud datganiad am y gwerth mawr a roddwn ar gymuned ein lluoedd arfog ac am ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i wella’r gwasanaethau cyhoeddus a ddarparwn ar eu cyfer. Cyn gwneud hynny, mae’n iawn sôn

the number of British personnel killed in Afghanistan has now reached 300. As a Flintshire Member, I am only too aware of the recent loss in Helmand of Lance Corporal Alan Cochran. His funeral will take place on Friday, and I offer my sincere condolences to his family. I also offer my condolences to the families of service personnel who have lost their lives in active service and pay great tribute to operational service personnel around the world today. News of this kind brings into sharp focus how much we demand of our armed forces.

On Saturday, Cardiff will host the UK celebration of Armed Forces Day in Cardiff bay. Their Royal Highnesses, the Prince of Wales and the Duchess of Cornwall, will lead the people of England, Northern Ireland, Scotland and Wales in honouring our armed forces community. Armistice Day has long been established as an occasion for remembering those who perished in the defence of our state. However, until four years ago, there was no national event to recognise living members of the armed forces community, and the sacrifices that they have made to protect our security and defend our freedoms. In 2006, the first Veterans Day took place. It quickly became firmly established in the national calendar and, last year, it expanded to become Armed Forces Day. It is not just our regular troops that we honour on Armed Forces Day, although they do a vital and difficult job; this is also a day for recognising veterans of earlier conflicts, forces families, reservists and cadets—many of whom are likely to form the next generation of serving personnel.

While defence policy is not devolved, we can take considerable pride in Wales's long military tradition. Our nation is closely identified with several regiments, and the army currently has a significant presence here, mainly split between Brecon, Brawdy and St Athan. The RAF also has a long-standing association with various parts of Wales. The Royal Navy maintains close links, with several ships and submarines affiliated to Welsh towns and cities. There are also a number of reservist and cadet

am y newyddion trychinebus ddoe bod nifer aelodau lluoedd Prydain sydd wedi'u lladd yn Affganistan bellach wedi cyrraedd 300. A minnau'n Aelod dros sir y Fflint, yr wyf yn ymwybodol iawn inni golli'r Is-gorpral Alan Cochran. Cynhelir ei angladd ddydd Gwener, ac estynnaf fy nghydymdeimlad diffuant i'w deulu. Estynnaf fy nghydymdeimlad hefyd i deuluoedd aelodau'r lluoedd sydd wedi colli eu bywyd ar faes y gad a rhoddaf deyrnged fawr i'r lluoedd hynny sy'n gwasanaethu drwy'r byd heddiw. Mae newyddion fel hyn yn dangos yn glir iawn faint yr ydym yn ei ofyn gan ein lluoedd arfog.

Ddydd Sadwrn, bydd Caerdydd yn cynnal dathliad Diwrnod Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn y bae. Bydd Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn arwain pobl Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru wrth anrhydeddau cymuned ein lluoedd arfog. Mae Diwrnod y Cofio wedi cael ei gynnal ers tro i goffáu'r rheini a fu farw wrth amddiffyn ein gwladwriaeth. Serch hynny, tan bedair blynedd yn ôl, nid oedd digwyddiad cenedlaethol i gydnabod yr aelodau hynny o gymuned y lluoedd arfog sy'n fyw, a'r aberth y maent hwy wedi'i wneud i amddiffyn ein diogelwch a gwarchod ein rhyddid. Yn 2006, cynhaliwyd Diwrnod cyntaf y Cyn-filwyr. Yn fuan iawn, daeth yn rhan o'r calendr cenedlaethol a'r llynedd, ehangodd a dod yn Ddiwrnod y Lluoedd Arfog. Nid dim ond ein lluoedd rheolaidd y byddwn yn eu hanrhydeddu ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, er eu bod yn gwneud gwaith hanfodol ac anodd; mae'n ddiwrnod hefyd inni gydnabod cyn-filwyr gwrthdrawiadau blaenorol, teuluoedd y lluoedd, y lluoedd wrth gefn a'r cadlanciau. Mae'n debyg mai llawer o'r cadlanciau hyn fydd y genhedlaeth nesaf i wasanaethu yn y lluoedd

Er nad yw polisi amddiffyn wedi'i ddatganoli, gallwn ymfalchïo'n fawr fod gan Gymru draddodiad milwrol ers blynnyddoedd lawer. Mae cysylltiad clos rhwng ein cenedl a sawl catrawd, ac mae gan y fyddin ar hyn o bryd bresenoldeb sylweddol yma, a hynny'n bennaf yn Aberhonddu, Brawdy a Sain Tathan. Mae gan yr RAF hefyd gysylltiad ers tro â sawl rhan o Gymru. Mae gan y Llynges Frenhinol berthynas clos o hyd â sawl llong a llong danfor sy'n gysylltiedig â nifer o drefi a dinasoedd Cymru. Hefyd, mae nifer o

detachments here. As a former member of TS Tuscan, I am very familiar with it.

Joining the armed forces is a popular career option for many of our young people. We believe that the proportion of recruits from Wales consistently runs ahead of our 5 per cent share of the UK population. Nearly 3,000 soldiers, sailors and Royal Air Force personnel are based in Wales. With their families, they are an integral part of Welsh society. They use our schools, our health services and our public transport. Therefore, the Assembly Government has an obligation to ensure that these and other public services are delivered in a way that meets their needs. They must not be disadvantaged just because the military chain of command expects them to relocate every two or three years. They must not lose out on service provision simply because they live behind the fence of a Ministry of Defence base.

Over the last few years, we have focused particularly on improving the delivery of public services to armed forces communities. In some cases, we have recognised their particular sacrifice by treating them more favourably than other service users, and rightly so. For example, veterans are now entitled to priority NHS treatment for health conditions that are attributable to their military service. The Minister for Health and Social Services has rolled out a dedicated veterans' mental health service across Wales. She has also put work in hand to improve liaison between health services and the military to improve healthcare for ex-service personnel.

When service families with children have to relocate to a new area, there are special arrangements allowing them to apply for school places in advance of the move.

3.40 p.m.

feintiau wrth gefn a chadlanciau yma. A minnau'n gyn-aelod o TS Tuscan, yr wyf yn gyfarwydd iawn ag ef.

Mae ymuno â'r lluoedd arfog yn ddewis gyrfa poblogaidd i lawer o'n pobl ifanc. Credwn fod nifer y recriwtiaid o Gymru'n gyson uwch na'n cyfran 5 y cant o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Mae gan bron 3,000 o filwyr, morwyr ac aelodau'r Llu Awyr Brenhinol eu canolfan yng Nghymru. Ynghyd â'u teuluoedd, maent yn rhan hanfodol o gymdeithas Cymru. Maent yn defnyddio'n hysgolion, ein gwasanaethau iechyd a'n trafndiaeth gyhoeddus. Felly, mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y gwasanaethau hyn a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion. Rhaid iddynt beidio â bod o dan anfantais am y rheswm syml bod y gadwyn reoli filwrol yn disgwyl iddynt symud i rywle arall bob dwy neu dair blynedd. Rhaid iddynt beidio â chael eu hamddifadu o wasanaethau am y rheswm syml eu bod yn byw y tu ôl i ffens un o safleoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi canolbwyntio'n benodol ar wella darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer cymunedau'r lluoedd arfog. Mewn ambell achos, yr ydym wedi cydnabod eu haberth arbennig drwy eu trin yn fwy ffafriol na defnyddwyr eraill gwasanaethau, a hynny'n gwbl gywir. Er enghraifft, mae gan gyn-filwyr bellach yr hawl i gael blaenoriaeth wrth gael triniaeth o dan y GIG am gyflyrau iechyd sy'n deillio o'u gwasanaeth milwrol. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi lledaenu gwasanaeth iechyd meddwl arbennig i gyn-filwyr ledled Cymru. Mae hefyd wedi rhoi gwaith ar y gweill i wella'r cysylltiad rhwng gwasanaethau iechyd a'r lluoedd i wella gofal iechyd i'w cyn-aelodau.

Pan fydd teuluoedd y lluoedd a chanddynt blant yn gorfod symud i ardal newydd, mae trefniadau arbennig sy'n caniatáu iddynt wneud cais am leoedd mewn ysgol cyn iddynt symud.

From next April, severely disabled veterans will qualify for concessionary bus travel without having to wait until they are 60. Service personnel wishing to purchase homes with the support of the homebuy scheme have been given priority status. They can also, exceptionally, apply to sublet their homes if they are moved away on active service. Members of the forces who have a second home in Wales have had their council tax reduced by 50 per cent. That is particularly helpful to people who are buying a home for their retirement from military service.

Looking ahead, we are determined to make sure that our policies and programmes take proper account of the particular needs of the armed forces community. To help with this, I have established an expert group to advise the Assembly Government on issues of concern to the armed forces community in Wales, and on how these might best be addressed. The group includes the three service commanders for Wales, representing the Royal Navy, the army and the RAF Families Federation, together with third sector nominees, two of whom are service veterans. I chaired the group's first meeting on 26 May, and was pleased by the open and positive approach taken by all participants.

Armed Forces Day falls on the last Saturday of June, but local events across the UK extend its currency over a period of some weeks. Each year, the Ministry of Defence selects a town or city to host the UK's national celebration. I am delighted that Cardiff, with support from the Welsh Assembly Government, was chosen to be the host this year. Events have already been held in some parts of Wales, and others will be held later. However, on Saturday, the main focus will be on Cardiff. The formal part of the day will begin with a parade of serving personnel, veterans, reservists and cadets, who will march from Cardiff castle to the bay, where the salute will be taken by His Royal Highness the Prince of Wales. This will be followed by an open-air drumhead service in Roald Dahls Plass, led by the

O fis Ebrill ymlaen, bydd cyn-filwyr sy'n ddifrifol o anabl yn gymwys i deithio'n rhatach ar fysiau heb orfod disgwyl nes iddynt gyrraedd eu 60 oed. Mae aelodau'r lluoedd sy'n dymuno prynu cartref gyda chymorth y cynllun cymorth prynu wedi cael statws blaenoriaeth. Gallant hefyd, mewn sefyllfa eithriadol, wneud cais am isosod eu cartrefi os cânt eu symud i ffwrdd i wasanaethu ar faes y gad. Mae aelodau'r lluoedd a chanddynt ail gartref yng Nghymru wedi cael gostyngiad o 50 y cant ar eu treth gyngor. Mae hynny o gymorth arbennig i bobl sy'n prynu cartref iddynt ymdddeol iddo ar ôl cwblhau eu gwasanaeth milwrol.

Ac edrych ymlaen, yr ydym yn benderfynol o wneud yn siŵr bod ein polisiâu a'n rhaglenni yn rhoi sylw priodol i anghenion penodol cymuned y lluoedd arfog. I gynorthwyo gyda hyn, yr wyf wedi sefydlu grŵp arbenigol i gynghori Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â phethau sy'n destun pryder i gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru, ac ynglŷn â sut orau y gellid mynd i'r afael â'r rhain. Mae'r grŵp yn cynnwys tri Chadlywydd y gwasanaethau ar gyfer Cymru, ac mae'r rheini'n cynrychioli Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges Frenhinol, y fyddin a'r RAF, ynghyd ag enwebeion o'r trydydd sector, a dau o'r rheini'n gyn-filwyr. Bŵm yn cadeirio cyfarfod cyntaf y grŵp ar 26 Mai, ac yr oeddwn yn falch o weld ymagwedd agored a chadarnhaol pawb a oedd yn rhan o'r cyfarfod.

Cynhelir Diwrnod y Lluoedd Arfog ddydd Sadwrn olaf mis Mehefin, ond bydd digwyddiadau lleol a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig yn ymestyn yr achlysur dros nifer o wythnosau. Bob blwyddyn, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dewis tref neu ddinas i gynnal dathliad cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Yr wyf wrth fy modd i Gaerdydd gael ei dewis i gynnal y digwyddiad eleni, gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad. Mae digwyddiadau wedi'u cynnal eisoes mewn ambell ran o Gymru, a chynhelir rhai eraill yn ddiweddarach. Fodd bynnag, ddydd Sadwrn, Caerdydd fydd y canolbwynt yn bennaf. Bydd rhan ffurfiol y diwrnod yn dechrau gyda gorymdaith gan aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd ar hyn o bryd, cyn-filwyr, milwyr wrth gefn a chadlanciau, a

chaplain-in-chief to the RAF. In the afternoon and evening, there will be a free programme of military displays and public entertainment. I urge all Assembly Members to show their support for our armed forces community by joining in this year's Armed Forces Day events, either here in Cardiff or in their constituencies.

Mark Isherwood: I start by endorsing your comments regarding the tragic news of the three-hundredth death of a member of British military personnel in Afghanistan. I offer my condolences to the bereaved family and friends not only of the three-hundredth individual to be lost but also to those of the 299 that went before. I was pleased to hear you refer to Lance Corporal Alan Cochran of the first battalion of the Mercian Regiment, and I, too, will be at his funeral in Ysceifiog on Friday.

I join you in welcoming the fact that the capital of Wales is hosting UK Armed Forces Day this year, and I hope that you will join me in welcoming the fact that the Secretary of State for Wales, Cheryl Gillan, attended a ceremony at Cardiff castle yesterday to hoist the Armed Forces Day flag and to launch officially a week of events leading up to it on 26 June, when she will be alongside His Royal Highness the Prince of Wales, the Duchess of Cornwall and the Secretary of State for Defence, Dr Liam Fox, for a day of events at the castle and in Cardiff bay.

Last Saturday, the north-east Wales veterans' group's armed forces day was held in Rhyl. Speaking to a large group of veterans and veterans' representatives, I told them that you would be making this statement today. They asked what it would be about, and I said that I presumed that you would be talking about the support that the Welsh Government is providing for the armed forces and veterans. They replied by saying that that was not filtering through to them. They did not

byddant yn gorymdeithio o gastell Caerdydd i'r bae, lle bydd Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru'n derbyn y saliw. Wedyn, bydd gwasanaeth awyr agored gan ddefnyddio drymiau'n allor yn Roald Dahls Plass, o dan arweiniad prif gaplan yr RAF. Yn y prynhawn a chyda'r nos, bydd rhaglen o arddangosiadau milwrol ac adloniant i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim. Anogaf bob Aelod o'r Cynulliad i ddangos ei gefnogaeth i gymuned ein lluoedd arfog drwy ymuno â digwyddiadau Diwrnod y Lluoedd Arfog eleni, naill ai yng Nghaerdydd neu yn eu hetholaeth.

Mark Isherwood: Dechreuaf drwy ategu eich sylwadau am y newyddion trychinebus ynglŷn â marwolaeth y tri chanfed aelod o luoedd arfog Prydain yn Affganistan. Estynnaf fy nghydymdeimlad i deulu a chyfeillion y tri chanfed unigolyn a gollwyd a hefyd i deuluoedd a chyfeillion y 299 a fu farw o'i flaen. Yr oeddwn yn falch o'ch clywed yn cyfeirio at yr Is-Gorpral Alan Cochran o fataliwn cyntaf Catrawd Mercia, a byddaf finnau hefyd yn ei angladd yn Ysgeifiog ddydd Gwener.

Ymunaf â chi i groesawu'r ffaith bod prifddinas Cymru'n croesawu Diwrnod Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig eleni, ac yr wyf yn gobeithio yr ymunwch â mi i groesawu'r ffaith i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Cheryl Gillan, fod yn bresennol mewn seremoni yng nghastell Caerdydd ddoe i godi baner Diwrnod y Lluoedd Arfog, ac i lansio'n swyddogol wythnos o ddigwyddiadau'n arwain ato ar 26 Mehefin. Bryd hynny, bydd hi ochr yn ochr ag Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, Duges Cernyw a'r Ysgrifennydd Amddiffyn, y Dr Liam Fox, ar gyfer diwrnod o ddigwyddiadau yn y castell ac ym mae Caerdydd.

Ddydd Sadwrn diwethaf, cynhaliwyd diwrnod lluoedd arfog grŵp cyn-filwyr gogledd-ddwyrain Cymru yn y Rhyl. Wrth siarad â grŵp mawr o gyn-filwyr a'u cynrychiolwyr, dywedais wrthynt y byddech yn rhoi'r datganiad hwn heddiw. Yr oeddent yn holi am beth fyddai'r datganiad, a dywedais fy mod yn tybio y byddech yn sôn am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei rhoi i'r lluoedd arfog ac i gyn-filwyr. Eu hateb hwy oedd nad oedd hynny'n

suggest that you are not providing it, but they said that they were not aware of the services that they could access. I want to know how you hope to share that information more widely.

Their first concern, which is not really a devolved matter but which you may have a view on, was that the term 'Armed Forces Day', which was introduced by a previous Westminster Government, omitted recognition of veterans, and that the title needed to be 'armed forces and veterans day'.

You rightly referred to the large number—some 3,000—of soldiers, sailors and air force personnel who are based in Wales, who, with their families, are an integral part of Welsh society. Will you also recognise the tens of thousands of veterans who live in Wales alongside them, whose interests we also collectively share. You referred to prioritising NHS treatment for health conditions that are attributable to military service. From my discussion with veterans and senior legion representatives in Rhyl on Saturday, no-one is aware of that—the message is not getting through. One of them had been to his GP the previous week and the GP did not know about it. They were asking whether leaflets were being sent to GP surgeries and whether hospital staff, clinicians and nurses were being informed. How will you ensure that they are aware of the rights of veterans who are entitled to these services?

You made reference to some aspects of housing and that support for the homebuy scheme had been given priority status, which I warmly support and welcome. However, again, the veterans told me that housing for soldiers was one of their key concerns, especially for the most junior ranks. I believe that there was a UK Government commitment to upgrade the housing stock, including houses for junior ranks by 2020. I would be grateful if you could confirm that you will be pursuing that with the UK Government, given the devolved contribution

hidlo drwodd iddynt hwy. Nid oeddent yn awgrymu nad ydych yn ei ddarparu, ond nad oeddent yn gwybod am y gwasanaethau y gallent fanteisio arnynt. Hoffwn wybod sut yr ydych yn gobeithio rhannu'r wybodaeth honno'n fwy eang.

Y peth cyntaf oedd yn eu poeni, ac nid yw hynny mewn gwirionedd yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond efallai fod gennych farn yn ei gylch, oedd nad yw'r term 'Diwrnod y Lluoedd Arfog', a gyflwynwyd gan un o Lywodraethau blaenorol San Steffan, yn cydnabod cyn-filwyr ac mai 'diwrnod y lluoedd arfog a chyn-filwyr' y dylai'r teitl fod.

Yr oeddech yn llygad eich lle'n cyfeirio at y nifer fawr—tua 3,000—o filwyr, morwyr ac aelodau'r llu awyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sydd, gyda'u teuluoedd, yn rhan hanfodol o gymdeithas Cymru. A wnech hefyd gydnabod y degau o filoedd o gyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru ochr yn ochr â hwy, ac yr ydym ni hefyd gyda'n gilydd yn gyfrifol am eu buddiannau? Cyfeiriasoch at flaenoriaethu triniaeth o dan y GIG ar gyfer cyflyrau iechyd sydd wedi deillio o wasanaeth milwrol. Ar ôl trafod pethau gyda'r cyn-filwyr ac uwch gynrychiolwyr y lleng yn y Rhyl ddydd Sadwrn, nid oes neb yn ymwybodol o hynny—nid yw'r neges yn cyrraedd pobl. Yr oedd un ohonynt wedi bod yn gweld ei feddyg teulu yr wythnos gynt ac nid oedd y meddyg teulu'n gwybod am y peth. Yr oeddent yn gofyn a oedd tafenni'n cael eu hanfon i feddygfeydd meddygon teulu ac a oedd staff ysbytai, clinigwyr a nyrsys yn cael gwybod. Sut y sicrhewch eu bod yn ymwybodol o hawliau cyn-filwyr y mae ganddynt yr hawl i'r gwasanaethau hyn?

Crybwyllwyd gennych rai agwedddai ar dai a bod statws blaenoriaeth wedi'i roi i gefnogi'r cynllun cymorth prynu. Yr wyf yn cefnogi ac yn croesawu hynny'n gynnes. Serch hynny, unwaith eto, dywedodd y cyn-filwyr wrthyf mai tai i filwyr oedd un o'u prif bryderon, yn enwedig i'r rheini ar y rhengoedd isaf. Credaf fod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ymrwymiad i wella'r stoc tai, gan gynnwys tai i'r rhengoedd isaf, erbyn 2020. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y byddwch yn mynd ar drywydd hynny gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, o ystyried y

that you might be able to make on that.

I welcome the fact that you referred to the establishment of an expert group to advise the Assembly Government on these issues. I am aware that, on 3 June, Chris O'Neill wrote to you and that you have to respond by 24 June. I know that he has not yet received your response. Chris is a member of the Westminster parliamentary justice group that is looking at the number of veterans who become involved in the criminal justice system. He has been instrumental in setting up a group in north Wales, involving statutory and voluntary bodies. Plaid Cymru MP, Elfyn Llwyd, has led on some of these issues in Westminster and he asked for their group to be included in your group. I know that you have had your first meeting, but I would welcome a positive response on that, given the wide range of agencies already involved and the wide range of veterans with complex issues, whom they have come across, including homelessness, substance misuse, involvement with the criminal justice system, mental health problems and problems adapting to civilian life. They recognise that veterans will engage with veterans and cannot simply rely on statutory services to integrate and make that transition back into civilian life.

Your statement also refers to the roll-out of dedicated veterans' mental health services across Wales. I am advised that only last Sunday, early in the morning, BBC radio was talking about the link between military post-traumatic stress disorder and suicide, prison populations and the UK Government's determination to appoint a champion at every hospital and doctors' surgery in the land. Will the Welsh Government seek to duplicate that? It also referred to the work done by Combat Stress. It mentioned that there were 4,300 people on its list and how much demand for services was increasing. Does that include Wales? Will Wales be included beyond the mental health roll-out referred to?

cyfraniad datganoledig y gallech ei wneud yn y cyswllt hwnnw efallai.

Yr wyf yn croesawu'r ffaith eich bod wedi cyfeirio at sefydlu grŵp arbenigol i gynghori Llywodraeth y Cynulliad am y materion hyn. Yr wyf yn gwybod i Chris O'Neill ysgrifennu atoch ar 3 Mehefin, a'i bod yn rhaid ichi ymateb erbyn 24 Mehefin. Gwn nad yw wedi cael ymateb gennych eto. Mae Chris yn aelod o grŵp cyfiawnder seneddol San Steffan sy'n edrych ar faint o gyn-filwyr sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol at sefydlu grŵp yn y gogledd, a hwnnw'n cynnwys cyrff statudol a gwirfoddol. Mae AS Plaid Cymru, Elfyn Llwyd, wedi arwain ar rai o'r materion hyn yn San Steffan a gofynnodd a fyddai modd cynnwys eu grŵp hwy yn eich grŵp chi. Gwn eich bod wedi cael eich cyfarfod cyntaf, ond byddwn yn croesawu ymateb cadarnhaol ynglŷn â hynny, ac ystyried yr ystod eang o asiantaethau sydd eisoes yn ymwneud â'r peth a'r ystod eang o gyn-filwyr a chanddynt broblemau dyrys, y maent wedi dod ar eu traws. Mae hynny'n cynnwys digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, problemau iechyd meddwl a phroblemau wrth ymaddasu i fywyd dinesig. Maent yn cydnabod y bydd cyn-filwyr yn ymwneud â chyn-filwyr ac na allant ddibynnu'n syml ar wasanaethau statudol i gymhathu a chroesi'r bont yn ôl i fywyd dinesig.

Mae eich datganiad hefyd yn cyfeirio at ledaenu gwasanaethau iechyd meddwl arbennig i gyn-filwyr ledled Cymru. Caf ar ddeall fod radio'r BBC yn sôn ddydd Sul diwethaf, yn gynnwys yn y bore, am y cysylltiad rhwng anhwylder straen wedi trawma milwrol a hunanladdiad, poblogaethau'r carchardai a phenderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i benodi hyrwyddwr ym mhob ysbyty a meddygfa yn y wlad. A wnaiff Llywodraeth Cymru geisio gwneud yr un peth? Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith a wneir gan Combat Stress. Crybwyllwyd bod 4,300 o bobl ar ei restr a dweud cymaint yr oedd y galw am ei wasanaethau'n cynyddu. A yw hynny'n cynnwys Cymru? A gynhwysir Cymru y tu hwnt i ledaenu'r gwasanaethau iechyd meddwl y cyfeiriwyd ato?

I believe that that mental health roll-out will require every local health board to have a community veterans' mental health therapist. Clinicians tell me that that will help and is helping some, but for those with complex PTSD, it simply opens up nightmares and sends them back into the community until their next therapy session. A consultant psychiatrist in Wales with a special interest in PTSD, and who has undertaken research into PTSD, e-mailed me and has since met me to say that, with the greatest of respect to the national health service, he feels that PTSD sufferers do not have adequate provision by quite a margin. While their needs are not met, sufferers are harming themselves, attempting to escape through suicidal behaviour and bearing a living pain—all of which are preventable.

Will you therefore consider what support we can give to such providers, particularly the unique provision in Wales currently at Pathways in north Wales? I have a letter from the Minister for Health and Social Services detailing the reasons why the health service in Wales cannot support it. However, when I visited it at its open day with other AMs, including Janet Ryder, a couple of weeks ago, Pathways told me that it was receiving funded referrals from primary care trusts in England.

3.50 p.m.

Therefore, if the English NHS can provide funded referrals, surely Wales can do so too. I recognise that, as one of the clinicians who was a medical officer with the second battalion of the Parachute Regiment told me, if mental health services in the NHS were so comprehensive, the suicide rate for veterans would not be so high, veterans would not make up such a large proportion of the prison population, and the number of veterans sleeping rough would not be so large. In that context, I close by asking you to speak to the Deputy First Minister who, when he attended

Credaf, wrth ledaenu'r gwasanaethau iechyd meddwl hynny, y bydd gofyn i bob bwrdd iechyd lleol gael therapydd iechyd yn y gymuned. Dywed clinigwyr wrthyf y bydd hynny o gymorth a'i fod yn helpu rhai, ond i'r rheini a chanddynt PTSD cymhleth, y cyfan mae'n ei wneud yw agor y drws ar hunllefau a'u hanfon yn ôl i'r gymuned tan eu sesiwn therapi nesaf. Anfonodd seiciatrydd ymgynghorol yng Nghymru a chanddo ddiddordeb arbennig mewn PTSD, —gŵr sydd wedi gwneud gwaith ymchwil i'r maes—e-bost ataf ac mae wedi cyfarfod â mi ers hynny i ddweud, a phob parch i'r gwasanaeth iechyd gwladol, ei fod yn teimlo nad yw dioddefwyr yn cael darpariaeth ddigonol o bell ffordd. Gan nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu, mae dioddefwyr yn eu niweidio'u hunain, yn ceisio dianc drwy ymddwyn mewn ffordd a allai arwain at hunanladdiad ac yn goddef byw mewn poen. Byddai modd atal y rheini i gyd.

Felly, a wnewch ystyried pa gymorth y gallwn ei roi i ddarparwyr o'r fath, yn enwedig y ddarpariaeth unigryw yng Nghymru ar hyn o bryd yn Pathways yn y gogledd? Mae gennyf lythyr gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn sôn am pam na all y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ei gefnogi. Fodd bynnag, pan ymwelais â'r lle adeg ei ddiwrnod agored, gydag ACau eraill, gan gynnwys Janet Ryder, wythnos neu ddwy yn ôl, dywedodd Pathways wrthyf fod ymddiriedolaethau gofal sylfaenol yn Lloegr yn cyfeirio cleifion yno ac yn talu am hynny.

Felly, os gall GIG Lloegr gyfeirio cleifion yno a thalu amdanynt, siawns na all Cymru wneud hynny hefyd. Yr wyf yn sylweddoli, fel y dywedodd un o'r clinigwyr wrthyf a oedd yn swyddog meddygol gydag ail fataliwn Catrawd y Parasiwtwyr wrthyf, pe bai'r gwasanaethau iechyd meddwl yn y GIG mor gynhwysfawr â hynny, ni fyddai'r gyfradd hunanladdiad ymhlith cyn-filwyr mor uchel, ni fyddai cyn-filwyr yn gyfran mor fawr o boblogaeth y carchardai, ac ni fyddai cynifer o gyn-filwyr yn cysgu ar y stryd. Yn y cyd-destun hwnnw, gorffennaf

the open day, told the clinicians that he would speak to his fellow members of the Welsh Government to seek their support for that wonderful project.

Carl Sargeant: Thank you, Mark; you raised many issues. I was present at yesterday's flag-raising ceremony at Cardiff castle. It was a fantastic event, supported by serving personnel, veterans and cadets. It was a great start to the week, so I am pleased that you welcomed the progress made on that.

You asked for my opinion—I am reluctant to give opinions—on the name being used for Armed Forces Day. As I told you earlier, the whole purpose of Armed Forces Day is to broaden recognition of all service personnel, including veterans, forces families, reservists and cadets. It is an overarching day of celebration, and I hope that you can share that message across Wales.

You raised a couple of other issues. The armed forces advisory group is a really useful tool for communicating the work that we do and the needs of the personnel. Indeed, we have a representative from the Royal British Legion on board. We also have representatives from all the family units from the various branches of service personnel. In our first meeting, the issue of communicating with veterans and service personnel and sharing the message regarding what is happening in Wales came through. I must say, the message relayed to me through the board was very positive. We are currently discussing best practice on signposting opportunities for serving personnel and veterans. That is something that we are taking forward.

You mentioned that Chris wrote to me about a couple of weeks ago. I think that I signed the letter off yesterday. To be perfectly honest, we have had no shortage of representatives wishing to help us to progress the group. I have informed the core of the

drwy ofyn ichi siarad â'r Dirprwy Brif Weinidog, a ddywedodd wrth y clinigwyr pan ddaeth i'r diwrnod agored y byddai'n siarad â'i gyd-Weinidogion yn Llywodraeth Cymru i geisio'u cefnogaeth i'r prosiect gwych hwnnw.

Carl Sargeant: Diolch ichi Mark; codwyd llawer o bwyntiau gennych. Yr oeddwn yn bresennol yn seremoni codi'r faner ddoe yng nghastell Caerdydd. Yr oedd yn ddigwyddiad rhagorol, a chafwyd cefnogaeth y rhai sy'n gwasanaethu yn y lluoedd ar hyn o bryd, cyn-filwyr a chadlanciau. Yr oedd yn ddechrau gwych i'r wythnos, felly yr wyf yn falch ichi groesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn hynny o beth.

Gofynasoch am fy marn—yr wyf yn gyndyn o gynnig fy marn—ynghlŷn â'r enw a ddefnyddir ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog. Fel y dywedais wrthyhych gynnau, holl bwrpas Diwrnod y Lluoedd Arfog yw ehangu'r gydnabyddiaeth a roddir i holl aelodau'r lluoedd, gan gynnwys cyn-filwyr, teuluoedd y lluoedd, y lluoedd wrth gefn a'r cadlanciau. Mae'n ddiwrnod o ddatlu sy'n cynnwys pawb, a gobeithio y gallwn rannu'r neges honno drwy Gymru.

Codwyd nifer o faterion eraill gennych. Mae grŵp cynghori'r lluoedd arfog yn gyfrwng gwirioneddol ddefnyddiol i gyfleu'r gwaith yr ydym yn ei wneud ac anghenion aelodau'r lluoedd. Yn wir, mae gennym gynrychiolydd o'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn aelod. Mae gennym hefyd gynrychiolwyr o bob un o unedau'r teuluoedd o wahanol ganghennau'r lluoedd. Yn ein cyfarfod cyntaf, soniwyd am gyfathrebu â chyn-filwyr ac aelodau'r lluoedd a soniwyd am rannu'r neges ynghlŷn â'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Rhaid imi ddweud bod y neges a gyflëwyd i mi drwy'r bwrdd yn gadarnhaol iawn. Yr ydym wrthi'n trafod yr arferion gorau o ran cyfeirio aelodau'r lluoedd a chyn-filwyr at gyfleoedd. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef.

Soniasoch i Chris ysgrifennu ataf wythnos neu ddwy yn ôl. Credaf imi lofnodi'r llythyr ddoe. A bod yn gwbl onest, nid oes prinder cynrychiolwyr wedi bod sy'n dymuno'n cynorthwyo i fwrw ymlaen â'r grŵp. Yr wyf wedi dweud wrth graidd y sefydliad y

organisation that if and when we feel that there is a need to bring in specialist advice or detailed information, I would be happy to open it up for people to come along and discuss the matter with us. I am hoping that by having a tight-knit, focused community group that takes in veterans, the voluntary sector and serving personnel, we can home in on the issues that affect people across Wales. At the moment, I believe that the balance is right, but I am not closing the door to additional information that could be relayed into this service-user group.

You also raised many issues to do with health. As you will be aware, I am the link Minister for the armed forces in Wales. The detail on education and health falls specifically to the Ministers involved, such as the Minister for Health and Social Services. Therefore, there are a few things there that I would ask the Minister to respond directly to you on, if that would be okay, with regard to some of the detail to do with health. I can positively say that with regard to veterans' health, the health boards and trusts now have a champion on veteran and armed forces health issues. They will be the advocate for veterans and serving personnel to ensure that their needs are reflected in service plans, to improve the links between the health service, veterans, voluntary sector groups, and the military. I know that the Minister for health has done an awful lot of work on this, and she will write to you on the specific detail of what you mentioned earlier.

Jeff Cuthbert: I, too, share the feelings of sadness and sorrow at the news that the number of British troops killed in Afghanistan has now reached 300. I am sure that we all look forward to the day when they can be withdrawn from Afghanistan, once the Taleban is removed as a force that not just terrorises the Afghan people, but also brings great instability to the west, in partnership with other organisations.

I take enormous pride in the fact that Armed

byddwn yn falch o agor y drws i bobl ddod yno a thrafod y mater gyda ni os a phan deimlwn fod angen inni gael cyngor arbenigol neu wybodaeth fanwl. Yr wyf yn gobeithio y gallwn, drwy gael grŵp tynn yn y gymuned sy'n canolbwyntio'n benodol ar y maes ac sy'n cynnwys cyn-filwyr, y sector gwirfoddol a'r lluoedd arfog, ganolbwyntio ar y materion sy'n effeithio ar bobl ledled Cymru. Ar hyn o bryd, credaf fod y cydbwysedd yn iawn, ond nid wyf yn cau'r drws ar wybodaeth ychwanegol y gellid ei throsglwyddo i'r grŵp hwn sy'n defnyddio gwasanaethau.

Codasoch lawer o bethau hefyd ynglŷn ag iechyd. Fel y gwyddoch, fi yw'r Gweinidog cyswllt ar gyfer y lluoedd arfog yng Nghymru. Mae'r manylion ynglŷn ag addysg ac iechyd, yn disgyn yn benodol ar ysgwyddau'r Gweinidogion dan sylw, megis y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, mae ychydig o bethau yn y fan honno y byddwn yn gofyn i'r Gweinidog ymateb i chi'n uniongyrchol yn eu cylch, pe bai hynny'n iawn, o ran rhai o'r manylion sy'n ymwneud ag iechyd. Gallaf ddweud yn bendant o ran iechyd cyn-filwyr, bod gan y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd hyrwyddwr yn awr ar gyfer materion sy'n ymwneud ag iechyd cyn-filwyr a'r lluoedd arfog. Byddant yn eiriol ar ran cyn-filwyr ac aelodau'r lluoedd er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael sylw wrth gynllunio gwasanaethau, i wella'r cysylltiadau rhwng y gwasanaeth iechyd, cyn-filwyr, grwpiau'r sector gwirfoddol a'r lluoedd arfog. Gwn fod y Gweinidog dros iechyd wedi gwneud llawer iawn o waith yn y maes hwn, a bydd yn ysgrifennu atoch am fanylion penodol yr hyn a grybwyllwyd gennych gynnu.

Jeff Cuthbert: Yr wyf ffinau'n teimlo'n drist ac yn llawn gofid am y newyddion bod nifer aelodau lluoedd Prydain sydd wedi'u lladd yn Affganistan bellach wedi cyrraedd 300. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn edrych ymlaen at y diwrnod pan fydd modd eu tynnu o Affganistan, pan na fydd y Taleban bellach yn rym sy'n dychrynu pobl y wlad honno, ac sydd hefyd, ar y cyd â mudiadau eraill, yn dod ag ansefydlogrwydd mawr i'r gorllewin,

Yr wyf yn eithriadol o falch y cynhelir

Forces Day will be held in Cardiff on Saturday. I will be there and I am sure that you will join me in encouraging all Assembly Members to come to Cardiff, if they can, or to support Armed Forces Day in other ways in their communities and to take the opportunity to send out press releases to make clear their support for our armed forces. Last week, we were visited by HMS Scott, which is the Royal Navy's survey vessel, named after Robert Scott. It was here—in part, at least—to commemorate the hundredth anniversary of his departure from Cardiff on what turned out to be a tragic expedition.

My final point is to stress that the armed forces are not just about dealing with conflict and peacekeeping, but that they also provide excellent career opportunities for young people. Will you join me in encouraging Careers Wales, schools and colleges to welcome representatives of the careers sections of the armed forces onto their premises so that young people can understand the type of training and careers that may be available to them in the armed forces, which include a large number of civilian qualifications, such as full modern apprenticeships in a wide range of skills? In celebrating Armed Forces Day on Saturday, do you agree that the issue of career opportunities should also be well understood to show that the armed forces are more than organisations that take up arms?

Carl Sargeant: Thank you for your contribution, Jeff. You are absolutely right; it is a tribute to Wales and to Cardiff that we will be the centre of UK activity on Armed Forces Day and that the focus will be on Wales on Saturday. I will also be attending on Saturday.

On the point that you raised on career opportunities, the statistics that we hold in Wales about the opportunities that are presented to our young people are clear: we provide around 10 per cent of new recruits in the armed forces wholesale. Therefore, it is clear that we contribute our fair share to the armed forces and that the armed forces offer opportunities for young people across Wales.

Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn. Byddaf yno ac yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi i annog pob un o Aelodau'r Cynulliad i ddod i Gaerdydd, os gallant, neu i gefnogi Diwrnod y Lluoedd Arfog mewn ffyrdd eraill yn eu cymuned a manteisio ar y cyfle i anfon datganiadau i'r wasg er mwyn dangos yn glir eu bod yn cefnogi ein lluoedd arfog. Yr wythnos diwethaf, cawsom ymweliad gan HMS Scott, sef llong ymchwil y Llynges Frenhinol a enwyd ar ôl Robert Scott. Yr oedd yma—yn rhannol, o leiaf—i goffáu canfed pen-blwydd ei hwylio o Gaerdydd ar alldaith a ddaeth i ben mewn ffordd mor drasig.

Fy mhwynt olaf yw pwysleisio bod y lluoedd arfog yn gwneud mwy na dim ond ymdrin â gwrthdaro a chadw'r heddwch. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd rhagorol i bobl ifanc gael gyrfa. A wnewch ymuno â mi i annog Gyrfa Cymru, ysgolion a cholegau i groesawu cynrychiolwyr adrannau gyrfaedd y lluoedd arfog i'w safleoedd er mwyn i bobl ifanc ddeall pa fath o hyfforddiant a gyrfa a all fod ar gael iddynt yn y lluoedd? Mae hynny'n cynnwys nifer fawr o gymwysterau sifil, megis prentisiaethau modern llawn mewn ystod eang o sgiliau. O ddatlu Diwrnod y Lluoedd Arfog ddydd Sadwrn, a gytunwch y dylid ceisio sicrhau bod pobl yn deall yn iawn y cyfleoedd am yrfa sydd ar gael er mwyn dangos bod y lluoedd arfog yn fwy na chyrff sy'n codi arfau?

Carl Sargeant: Diolch ichi am eich cyfraniad, Jeff. Yr ydych yn llygad eich lle; mae'n deyrnged i Gymru ac i Gaerdydd mai yma y bydd y canolbwynt ar gyfer gweithgarwch y Deyrnas Unedig ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog ddydd Sadwrn. Byddaf finnau'n bresennol ddydd Sadwrn hefyd.

O ran eich pwynt ynglŷn â chyfleoedd am yrfa, mae'r ystadegau sydd gennym yng Nghymru am y cyfleoedd a roddir i'n pobl ifanc yn glir: byddwn yn darparu oddeutu 10 y cant o'r recriwtiaid newydd i'r lluoedd arfog drwyddi draw. Felly, mae'n amlwg ein bod yn cyfrannu'n cyfran deg i'r lluoedd arfog a bod y lluoedd arfog yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ledled Cymru.

I also share your views on personnel who come from Wales and are on active service, as I mentioned earlier. On Saturday, when Cardiff will be the centre of the UK commemoration of Armed Forces Day, other ceremonies will be held the length and breadth of Wales, in places such as Brawdy, Caernarfon, Ebbw Vale, Pembroke and Tredegar, to name a few. I hope that they have a great event on Saturday and great events throughout this week as well.

Eleanor Burnham: Thank you for your well-thought-out statement, Minister. Our party also extends its condolences on the latest in a long line of deaths. I look forward to the day when we can resolve the conflict that perpetuates the ongoing war in Afghanistan. I would rather see our youth involved in more productive activities than killing people. We have spent an enormous amount of energy and effort on this and lost an enormous number of lives. The amount of money that is being spent is constantly going up and I regret it greatly.

I hope that you will agree that, if we expect our youth to lay down their lives in the ultimate sacrifice, we should do our best to ensure that we provide the best of care for them, not only during but post combat.

4.00 p.m.

I noticed an article on the BBC website earlier, stating that Dr Dafydd Alun Jones—perhaps the gentleman to whom Mark was referring—a psychiatrist who treats veterans who have PTSD, is unfortunately rather critical of the help available to Wales's most severe cases. Will you look into the points that he raises? I have also been to the Bangor centre, although I was not able to go to the open day, and Mark and I have often asked the Minister for health about this, so I wonder whether you would revisit that issue. Dr Jones's contention is that; however, good Combat Stress is, it is not able to deal with severe, lengthy and complicated cases. Please could you therefore reassure us that you will

Yr wyf finnau hefyd yn cytuno â'r hyn a ddywedasoch am yr aelodau hynny o'r lluoedd sydd yn dod o Gymru ac wrthi'n gwasanaethu, fel y dywedais gynnu. Ddydd Sadwrn, pan fydd Caerdydd yn ganolfan i goffáu Diwrnod y Lluoedd Arfog yn y Deyrnas Unedig, bydd seremonïau eraill yn cael eu cynnal ar hyd ac ar led Cymru, mewn mannau megis Brawdy, Caernarfon, Glynwby, Penfro a Thredegar ac enwi dim ond rhai. Yr wyf yn gobeithio y cânt ddigwyddiad rhagorol dydd Sadwrn ac y cynhelir digwyddiadau gwych drwy'r wythnos hon hefyd.

Eleanor Burnham: Diolch ichi am eich datganiad meddylgar, Weinidog. Mae ein plaid ninnau hefyd yn estyn ei chydymdeimlad â'r diweddaraf mewn rhestr hir o farwolaethau. Edrychaf ymlaen at y diwrnod pan fedrwn ddatrys y gwrthdaro sy'n tanio'r rhyfel parhaus yn Affganistan. Byddai'n well gennyf weld ein pobl ifanc yn ymwneud â gweithgareddau mwy cynhyrchiol na lladd pobl. Yr ydym wedi treulio llawer iawn o ynni ac ymdrech ar hyn ac wedi colli nifer fawr iawn o fywydau. Mae'r arian sy'n cael ei wario'n cynyddu o hyd ac yr wyf yn gresynu'n fawr ato.

Yr wyf yn gobeithio y cytunwch, os ydym yn disgwyl i'n pobl ifanc golli eu bywyd drwy wneud yr aberth eithaf, y dylem wneud ein gorau glas i sicrhau ein bod yn darparu'r gofal gorau ar eu cyfer, nid dim ond yn ystod y frwydr ond wedyn hefyd.

Sylwais ar erthygl ar wefan y BBC gynnu, yn dweud bod y Dr Dafydd Alun Jones—efallai'r gŵr bonheddig yr oedd Mark yn cyfeirio ato—seiciatrydd sy'n trin cyn-filwyr a chanddynt PTSD, yn anffodus yn feirniadol o'r cymorth sydd ar gael i'r achosion mwyaf difrifol yng Nghymru. A wnewch edrych ar y pwyntiau a godir ganddo? Yr wyf hefyd wedi bod i'r ganolfan ym Mangor, er nad oeddwn yn gallu mynd i'r diwrnod agored, ac mae Mark a finnau wedi gofyn i'r Gweinidog dros iechyd am hyn droeon, felly tybed a fyddch yn edrych ar hynny eto. Dadl y Dr Jones yw, pa mor dda bynnag yw Combat Stress, na all ymdrin ag achosion difrifol, hirhoedlog a chymhleth. A allech felly dawelu ein meddwl

discuss the issue in some depth with the Minister for Health and Social Services?

What discussions are you having with Ministers at Westminster? On Friday or Saturday, I happened to tune into Radio 4 and hear a discussion on PTSD. Could you look at international best practice, Minister, because the medical care in the Netherlands that was featured on the programme went beyond post-combat treatment? In the Netherlands, there seem to be teams within the fighting forces and, post combat, they look particularly at any ongoing mental health issues, and not just for a year, which I presume is what we do. Perhaps you could confirm that you will look into that issue with your established expert group, because what was being discussed on the radio seemed to be a very enlightened approach. If we expect our youth to lay down their lives for us, the least that we can do is look a little more closely at what is happening in this regard.

With those few points and questions, I will leave it there.

Carl Sargeant: Thank you for your comments, Eleanor. As I mentioned earlier, the specifics of health policy fall within the remit of the Minister for health, and so she will write to you, as appropriate. While the treatment of injured service personnel is the responsibility of the Ministry of Defence, we are certainly using our devolved powers over health to help to improve the lives of veterans. The Minister for health has prioritised improving the health and wellbeing of service personnel and veterans in Wales, and the key to that are the new targets for 2011-12, specifically requiring all health bodies to consider the needs of service personnel and veterans when planning their services. Over the coming months, Healthcare Inspectorate Wales will be working with armed forces organisations and charities to facilitate a series of workshops across Wales, aimed at engaging directly with armed forces personnel and their families, including veterans, to gather

your views on the issue. y byddwch yn trafod y mater yn eithaf trwyadl gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol?

Pa drafodaethau yr ydych yn eu cynnal gyda Gweinidogion yn San Steffan? Ddydd Gwener neu ddydd Sadwrn, digwyddais wrando ar Radio 4 a chlywed trafodaeth am PTSD. A allech edrych ar yr arferion gorau'n rhyngwladol, Weinidog, oherwydd yr oedd y gofal meddygol yn yr Iseldiroedd y soniwyd amdano ar y rhaglen yn mynd y tu hwnt i roi triniaeth ar ôl y frwydr? Yn yr Iseldiroedd, i bob golwg, mae timau o fewn y lluoedd arfog, ac wedyn, pan fydd rhywun yn dychwelyd o faes y gad, byddant yn edrych yn benodol ar unrhyw faterion iechyd meddwl parhaus, ac nid dim ond am flwyddyn, sef yr hyn a wnawn ni, yr wyf yn tybio. Efallai y gallech gadarnhau y byddwch yn edrych ar hynny gyda'r grŵp arbenigol sydd wedi'i sefydlu gennych, oherwydd yr oedd yr hyn a drafodid ar y radio i bob golwg yn ymagwedd oleuedig. Os ydym yn disgwyl i'n pobl ifanc aberthu eu bywyd, y peth lleiaf y gallwn ei wneud yw edrych ychydig yn fwy gofalus ar yr hyn sy'n digwydd yn y cyswllt hwn.

Gyda'r ychydig bwyntiau a'r cwestiynau hynny, fe'i gadawaf yn y fan honno.

Carl Sargeant: Diolch ichi am eich sylwadau, Eleanor. Fel y soniais gynnu, daw manylion polisi iechyd o fewn cylch gorchwyl y Gweinidog dros iechyd, ac felly, bydd hi'n ysgrifennu atoch, fel sy'n briodol. Er mai cyfrifoldeb y Gweinidog Amddiffyn yw'r driniaeth a gaiff aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi'u hanafu, yr ydym yn sicr yn defnyddio'n pwerau datganoledig dros iechyd i wella byd cyn-filwyr. Mae'r Gweinidog dros iechyd wedi blaenoriaethu gwella iechyd a lles aelodau'r lluoedd a chyn-filwyr yng Nghymru, a'r allwedd i hynny yw'r targedau newydd ar gyfer 2011-12, a'r rheini'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol i bob corff iechyd ystyried anghenion aelodau'r lluoedd a chyn-filwyr wrth gynllunio'u gwasanaethau. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'n gweithio gyda sefydliadau'r lluoedd arfog ac elusennau i hwyluso cyfres o weithdai ledled Cymru. Y nod fydd meithrin cysylltiad uniongyrchol ag aelodau'r lluoedd arfog a'u

information about need. Some of the issues that they will be covering include the adequacy and availability of health provision, access to health services, and the effectiveness of priority treatment for veterans and service personnel. Indeed, our experience is that the expert group can bring any concerns about healthcare in Wales to me. It is a vocal and useful group that I hope to use much more.

Janet Ryder: Plaid Cymru also sends its condolences to those who have lost members of their family in the armed services. Minister, we also join you in recognising that this is a celebration of past and present members of the armed forces in many different guises over many years. It was encouraging to hear in your statement some of the issues that are being dealt with, which we all know are of concern to forces families, such as the ability to apply for school places in advance of a move because of a relocation, which helps a family to settle into an area better. Certainly, we have all been lobbied quite heavily on the extension of the concessionary bus travel scheme to disabled veterans, and it is good to see that happening. The same is true of help with home purchasing and letting should forces members be stationed away from home.

It is interesting to hear you talk about the external group to advise the Assembly Government. While you have given us the make-up of the group and you have touched on some of the issues that it may look at, in listening to the contributions this afternoon, all the issues relate to the armed forces.

We are all aware that, unfortunately, more than 11 per cent of the prison population is made up of ex-servicemen and women, for reasons stemming from their backgrounds. Jeff Cuthbert said in his contribution that the armed forces can offer a good career pathway. The Ministry of Defence invests millions of pounds in training men and women to be members of the armed forces,

teuluoedd, gan gynnwys cyn-filwyr, i gasglu gwybodaeth am eu hanghenion. Rhai o'r materion y byddant yn ymdrin â hwy fydd i ba raddau y mae'r ddarpariaeth iechyd ar gael ac i ba raddau y mae'n ddigonol, mynediad at wasanaethau iechyd, ac effeithiolrwydd triniaeth flaenoriaethol i gyn-filwyr ac aelodau'r lluoedd. Yn wir, ein profiad yw y gall y grŵp arbenigol gyflwyno unrhyw bryderon ynglŷn â gofal iechyd yng Nghymru imi. Mae'n grŵp sy'n dweud ei ddweud ac yn fuddiol ac yr wyf yn gobethio'i ddefnyddio'n fwy helaeth o lawer.

Janet Ryder: Mae Plaid Cymru hefyd yn anfon ei chydymdeimlad at y sawl sydd wedi colli aelodau o'r teulu yn y lluoedd arfog. Weinidog, yr ydym ninnau hefyd yn ymuno â chi i gydnabod mai dathlu cyfraniad aelodau'r lluoedd arfog yn y gorffennol ac yn y presennol yw hyn, a hynny ar sawl gwahanol wedd dros flynyddoedd lawer. Yr oedd yn galonogol eich clywed yn sôn yn eich datganiad am rai o'r materion yr ymdrinnir â hwy, y gwyddom eu bod i gyd yn destun pryder i deuluoedd y lluoedd, megis gallu gwneud cais am leoedd mewn ysgolion cyn symud wrth iddynt gael eu hadleoli. Mae hynny'n gymorth i deulu ymgartrefu mewn ardal yn well. Yn sicr, yr ydym i gyd wedi cael ein lobïo'n eithaf cryf ynglŷn ag estyn y cynllun teithio'n rhatach ar fysiau i gyn-filwyr anabl, ac mae'n beth da gweld hynny'n digwydd. Mae'r un peth yn wir am gymorth i brynu a lesio tŷ pan fydd aelodau'r lluoedd yn cael eu lleoli oddi cartref.

Mae'n ddiddorol eich clywed yn sôn am y grŵp allanol i gynghori Llywodraeth y Cynulliad. Er eich bod wedi dweud wrthym pwy yw aelodau'r grŵp ac ichi sôn am rai o'r materion y gall eu hystyried, wrth wrando ar y cyfraniadau y prynhawn yma, â'r lluoedd arfog y mae a wnelo'r holl faterion hynny.

Yr ydym i gyd yn ymwybodol, yn anffodus, bod dros 11 y cant o boblogaeth y carchardai'n gyn aelodau o'r lluoedd arfog, am resymau sy'n deillio o'u cefndir. Dywedodd Jeff Cuthbert yn ei gyfraniad fod y lluoedd arfog yn gallu cynnig llwybr gyrfda. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn buddsoddi miliynau o bunnoedd er mwyn hyfforddi dynion a menywod i fod yn

and they are trained to a very high level. Yet they are decommissioned at a stroke: with the signing of a piece of paper. They can leave the life that they had become used to living, an organised life surrounded by groups of people, and suddenly enter one that has very little support. The level of support has increased because of pressure placed on the Ministry of Defence, but do you agree, Minister, that the MOD has a duty of care to those people who sign up to the armed forces for all our benefit, and so it should pick up the tab and contribute most of the finance to help those men and women to settle back into civilian life?

Pathways offers excellent provision in Menai Bridge in north Wales, and I urge the Minister to visit. Do you agree, Minister, that the best way in which we could serve the forces families of those servicemen and women currently serving abroad, particularly in Afghanistan, would be to see the troops withdrawn, on a planned basis, as soon as possible to enable them to come home?

Carl Sargeant: As you are aware, Janet, defence is not devolved and therefore many of those policies are made at Westminster. What I have outlined today are the issues surrounding Armed Forces Day, which you clearly recognise and support. Many of the questions today have been about health, and I know that the Minister for health has been present, listening to those detailed questions, and I am sure that she will respond accordingly.

The expert group was very positive about the actions that we take in Wales, not only the lines of communication between Ministers but also the delivery of the service. The group was very positive, and I am pleased that it was able to bring some of its main issues of concern to the fore in its discussions with me. For instance, there is strong representation from the Department for Health and Social Services on the board, and that official takes the detail on health processes back to the Minister. I am also pleased that the all-Wales mental health and

aelodau o'r lluoedd arfog, ac fe'u hyfforddir at lefel uchel iawn. Eto i gyd, cânt eu rhyddhau o'r lluoedd dros nos, drwy lofnodi darn o bapur. Gallant ymadael â'r bywyd yr oeddent wedi dod yn gyfarwydd ag ef, bywyd â threfn iddo, a grwpiau o bobl o'u cwmpas ym mhob man, ac yna'n sydyn, symud i fyd lle nad oes fawr o gymorth iddynt. Mae lefel y cymorth wedi cynyddu oherwydd y pwysau a roddwyd ar y Weinyddiaeth Amddiffyn, ond a ydych yn cytuno, Weinidog, fod gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddyletswydd gofal i'r bobl hynny sy'n ymuno â'r lluoedd arfog er ein budd ni i gyd, ac felly y dylai godi'r bil a chyfrannu'r rhan fwyaf o'r arian i gynorthwyo'r dynion a'r menywod hynny i ailafael yn eu bywyd yn y byd y tu allan?

Mae Pathways yn cynnig darpariaeth ragorol ym Mhorthaethwy yn y gogledd, a phwysaf ar y Gweinidog i ymweld â hwy. A ydych yn cytuno, Weinidog, mai'r ffordd orau inni wasanaethu teuluoedd aelodau'r lluoedd arfog a'r menywod sydd wrthi'n gwasanaethu dramor, yn enwedig yn Affganistan, fyddai paratoi cynllun i'r lluoedd ymadael â'r wlad honno cyn gynted ag y bo modd er mwyn iddynt allu dod adref?

Carl Sargeant: Fel y gwyddoch, Janet, nid yw amddiffyn wedi'i ddatganoli ac felly yn San Steffan y gwneir llawer o'r polisiau hynny. Yr hyn yr wyf wedi sôn amdano heddiw yw'r materion sy'n berthnasol i Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, ac yr ydych yn amlwg yn cydnabod ac yn cefnogi hynny. Mae llawer o'r cwestiynau heddiw wedi bod ynglŷn ag iechyd, a gwn fod y Gweinidog dros iechyd wedi bod yn bresennol yn gwrando ar y cwestiynau manwl hynny ac yr wyf yn siŵr y bydd yn ymateb yn briodol.

Yr oedd y grŵp arbenigol yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r camau yr ydym yn eu cymryd yng Nghymru, nid dim ond y llinellau cyfathrebu rhwng Gweinidogion ond hefyd o ran darparu'r gwasanaeth. Yr oedd y grŵp yn gadarnhaol iawn, ac yr wyf yn falch iddo allu dod â rhai o'r prif bethau yr oedd yn poeni amdanynt gerbron yn ei drafodaethau â ni. Er enghraifft, mae cynrychiolaeth gref o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y bwrdd, a bydd y swyddog hwnnw'n cyfleu'r manylion sy'n ymwneud â phrosesau iechyd yn ôl i'r Gweinidog. Yr wyf hefyd yn

wellbeing service for veterans offers access to clinicians who have expertise in veterans' mental health issues, to provide assessment, suitable treatment and referral to other NHS agencies. It would be wrong of me to say that there is no more work for us to do on this issue, and I know that the commitment of the Minister for health is certainly not in question.

David Melding: Minister, you are quite right to emphasise in particular the new mental health service for veterans this afternoon. It is now clear from the evidence, which is presented more strongly every day, that the psychological impact of serving in a conflict zone is great and the acute episodes can occur immediately or many years later. It is also clear that, as these services become more embedded, people will learn that they are available, and it is quite possible that demand will increase. That is a good thing, because people will come forward and talk more readily about these issues. However, it also means that you will need to evaluate and monitor the services carefully with your colleague, the Minister for health, to ensure that we do not get into a situation of not being able to meet that demand in a timely manner. That would be very disturbing for those coming forward.

4.10 p.m.

I raise one issue in particular, which has not been mentioned yet, although Janet Ryder touched on the challenges of going from a very disciplined and orderly life in the military services to being back on civvy street, as it were. I have noticed that many people who were in the services can end up being homeless. I think that that relates to the problems that they have keeping a tenancy going and being back in a situation that is not as regimented. Sometimes, when there is a complete breakdown, it can be difficult to get appropriate placements. There are some charities that specialise in this line of work, but I do not think that there are any specialist services in Wales for homeless people who have been in the armed services. This might

falch bod y gwasanaeth iechyd meddwl a lles Cymru gyfan i gyn-filwyr yn cynnig llwybr at glinigwyr a chanddynt arbenigedd mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, i gynnig asesiad, triniaeth briodol a chyfeirio at wasanaethau eraill y GIG. Ni fyddai'n iawn imi ddweud nad oes rhagor o waith inni ei wneud ynghylch hyn, a gwn yn sicr nad oes amheuaeth ynglŷn ag ymrwymiad y Gweinidog dros iechyd.

David Melding: Weinidog, yr ydych yn llygad eich lle'n pwysleisio'n benodol y gwasanaeth iechyd meddwl newydd i gyn-filwyr y prynhawn yma. Mae'n glir yn awr o'r dystiolaeth, a honno'n cael ei chyflwyno'n gryfach bob dydd, bod effaith seicolegol gwasanaethu mewn parth gwrthdaro'n fawr ac y gall pyliau aciwt ddigwydd yn syth wedyn neu flynyddoedd lawer yn ddiweddarach. Mae'n amlwg hefyd, wrth i'r gwasanaethau hyn fwrw gwreiddiau dyfnach, y bydd pobl yn dysgu eu bod ar gael, ac mae'n eithaf posibl y bydd y galw'n cynyddu. Mae hynny'n beth da, oherwydd daw pobl i geisio cymorth a byddant yn fwy parod i siarad am y pethau hyn. Serch hynny, mae'n golygu hefyd y bydd angen ichi werthuso a monitro'r gwasanaethau'n ofalus gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog dros iechyd, i sicrhau na chawn ein hunain mewn sefyllfa lle na fyddwn yn gallu diwallu'r galw hwnnw mewn pryd. Byddai hynny'n peri trallod mawr i'r rheini a ddeuai i geisio cymorth.

Codaf un peth yn benodol, ac nid yw hynny wedi'i grybwyll eto, er bod Janet Ryder wedi crybwyll yr anawsterau sydd ynghlwm wrth symud o fywyd disgybledig a threfnus iawn yn y gwasanaethau milwrol i ddychwelyd i fywyd 'arferol' fel petai. Yr wyf wedi sylwi bod llawer o bobl a oedd yn y lluoedd yn gallu eu cael eu hunain yn ddiartref. Credaf fod a wnelo hynny â'r problemau sy'n eu hwynebu o ran cadw tenantiaeth a bod yn ôl mewn sefyllfa sy'n llai cyfundrefnol. Weithiau, pan fydd pethau'n chwalu'n llwyr, gall fod yn anodd cael lleoliadau priodol. Mae rhai elusennau'n arbenigo yn y math hwn o waith, ond ni chredaf fod dim gwasanaethau arbenigol yng Nghymru i bobl ddiartref sydd wedi bod yn y lluoedd arfog.

be an area in which we can, with great merit, look to improve services and develop them in Wales.

I was in Barry yesterday, attending the flag-raising ceremony for Armed Forces Week, and I want to say how impressed I was by the whole community and all the political parties there. I feel as though we are starting to make this agenda much more prominent. We have to support our veterans—and those in the military now—when they need help, and that goes well beyond Armistice Day. That day is important, but our contract has to be honoured on a day-to-day basis, in the services for which we are responsible. I know that you said that defence is not devolved, Minister, but most of the services that veterans rely on are devolved.

Carl Sargeant: Thank you, David, for your positive contribution. The Welsh Assembly Government recognises that a wide range of issues affects the health and welfare of veterans. Public Health Wales will be giving further consideration to the needs of veterans in the future, and we are reviewing those needs constantly. The expert group will be the key to moving these developments forward for the future.

On your specific question on homelessness, the Homeless Persons (Priority Need) (Wales) Order 2001 extended the protection of homelessness legislation to those who have served in the forces. That means that local authorities have a duty to re-house ex-service personnel. We are also funding a new directory of services for veterans who may be at risk of becoming homeless, which will help vulnerable veterans to make the connections with the housing and welfare organisations that can provide them with additional help and support. It goes back to the question posed earlier about communication routes. Sometimes, people fall out of the system, which means that we cannot communicate with them easily. We are doing some more work around that with the expert group, and the Minister for health is also vital in this.

Gall hwn fod yn faes lle y gallwn, a hynny'n fuddiol iawn, wella gwasanaethau a'u datblygu yng Nghymru.

Yr oeddwn yn y Barri ddoe, yn seremoni codi'r faner ar gyfer Wythnos y Lluoedd Arfog, ac yr wyf am ddweud cymaint o argraff a wnaethpwyd arnaf o weld y gymuned gyfan a'r holl bleidiau gwleidyddol yno. Yr wyf yn teimlo ein bod yn dechrau rhoi mwy o amlygrwydd o lawer i'r agenda. Rhaid inni gefnogi ein cyn-filwyr—a'r rheini sydd yn y lluoedd yn awr—pan fydd angen cymorth arnynt, ac mae hynny'n mynd ymhell y tu hwnt i Ddiwrnod y Cofio. Mae'r diwrnod hwnnw'n bwysig, ond rhaid inni anrhydeddu ein contract yn feunyddiol, yn y gwasanaethau yr ydym yn gyfrifol amdanynt. Gwn eich bod wedi dweud nad yw amddiffyn wedi'i ddatganoli, Weinidog, ond mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau y mae cyn-filwyr yn dibynnu arnynt wedi'u datganoli.

Carl Sargeant: Diolch ichi, David, am eich cyfraniad cadarnhaol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod ystod eang o faterion yn effeithio ar iechyd a lles cyn-filwyr. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n rhoi mwy o sylw i anghenion cyn-filwyr yn y dyfodol, ac yr ydym yn adolygu'r anghenion hynny'n gyson. Y grŵp arbenigol fydd yr allwedd i symud y datblygiadau hyn yn eu blaen at y dyfodol.

O ran eich cwestiwn penodol am ddigartrefedd, yn sgîl Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001, estynnwyd gwarchodaeth deddfwriaeth ddigartrefedd i'r rheini sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd. Mae hynny'n golygu ei bod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ailgartrefu cyn-aelodau'r lluoedd arfog. Yr ydym hefyd yn ariannu cyfeiriadur gwasanaethau newydd i gyn-filwyr y gall fod perygl iddynt fynd yn ddigartref. Bydd hynny'n gymorth i gyn-filwyr agored i niwed gysylltu â'r sefydliadau tai a lles a all roi cymorth a chefnogaeth ychwanegol iddynt. Mae'n mynd yn ôl i'r cwestiwn a godwyd yn gynharach am lwybrau cyfathrebu. Weithiau, bydd pobl yn disgyn drwy rwyd y system, sy'n golygu na allwn gyfathrebu'n rhwydd â hwy. Yr ydym yn gwneud rhagor o waith yn y cyswllt hwnnw gyda'r grŵp arbenigol, ac mae'r Gweinidog dros iechyd hefyd yn

hanfodol yn y cyswllt hwn.

Alun Davies: I, too, associate myself with the comments made about the sadness and sorrow felt on the loss of the three-hundredth person as a result of combat operations in Afghanistan. It is to be welcomed that we are recognising the work of the armed services here in Wales beyond that month leading up to Armistice Day in November. It is probably fair to say that, in Wales, we have not properly celebrated the place of the armed forces, both in society today and in our history, and it is time to do so.

On the present and the future, I welcome the statement that you have made this afternoon, Minister. I particularly welcome the establishment of an advisory panel to support the work of the Government in these matters. Other Members have raised particular issues on housing, mental health and other health issues, and I associate myself with all those comments. We should recognise that the NHS in Wales has already moved quickly and has achieved much to ensure that veterans and service personnel coming back from combat operations have the support that we can provide for them. It is good that the Government, which provides the overarching support, bringing together the different areas of policy, is to be advised by the heads of both services based in Wales as well as people of other specialisms. We all, across the Chamber, welcome that.

Alun Davies: Hoffwn innau hefyd ategu'r sylwadau am y tristwch a'r gofid a deimlwyd wrth golli'r tri chanfed person yn sgîl y brwydro yn Affganistan. Mae'n beth i'w groesawu ein bod yn cydnabod gwaith y lluoedd arfog yma yng Nghymru y tu hwnt i'r mis hwnnw sy'n arwain at Ddiwrnod y Cofio ym mis Tachwedd. Mae'n deg dweud, mae'n debyg, nad ydym ni yng Nghymru wedi dathlu lle'r lluoedd arfog yn iawn nac yn ein cymdeithas heddiw nac yn ein hanes, a'i bod yn bryd gwneud hynny.

O ran y presennol a'r dyfodol, yr wyf yn croesawu'ch datganiad y prynhawn yma, Weinidog. Yr wyf yn croesawu'n benodol sefydlu panel cynghori i gefnogi gwaith y Llywodraeth yn y materion hyn. Mae Aelodau eraill wedi codi materion penodol ynglŷn â thai, iechyd meddwl a materion eraill sy'n ymwneud ag iechyd, a chysylltaf fy hun â'r holl sylwadau hynny. Dylem sylweddoli fod y GIG yng Nghymru eisoes wedi symud yn gyflym ac wedi cyflawni llawer er mwyn sicrhau bod cyn-filwyr ac aelodau'r lluoedd sy'n dychwelyd o'r frwydr yn cael y cymorth y gallwn ei ddarparu ar eu cyfer. Mae'n dda bod y Llywodraeth, sy'n darparu'r cymorth cyffredinol, ac yn dod â'r holl wahanol feysydd polisi at ei gilydd, yn mynd i gael cyngor gan benaethiaid y ddau wasanaeth sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn ogystal â chan bobl sy'n arbenigo mewn meysydd eraill. Yr ydym ni i gyd, ar draws y Siambr, yn croesawu hynny.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.16 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.16 p.m.*

I also welcome the statement that you have made this afternoon, Minister, on ensuring that service personnel receive other measures of Government support, such as bus travel, education and the 50 per cent rebate on second homes announced last year. Minister, will you be able to publish a forward work programme for this advisory group at some point? Will you also come back to the Chamber with regular updates on this work? Many of us will receive a number of different inquiries from constituents on the work of the Assembly Government on supporting veterans and returning personnel. I think that

Yr wyf hefyd yn croesawu'ch datganiad y prynhawn yma, Weinidog, ynglŷn â sicrhau bod aelodau'r lluoedd yn cael cymorth o fath arall gan y Llywodraeth, megis teithio ar fysiau, addysg a'r ad-daliad 50 y cant ar ail gartrefi a gyhoeddwyd y llynedd. Weinidog, a fyddwch yn gallu cyhoeddi blaenraglen waith ar gyfer y grŵp cynghori hwn rywbryd? A ddychwelwch i'r Siambr hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni'n rheolaidd am y gwaith hwn? Bydd llawer ohonom yn cael nifer o ymholiadau gwahanol gan etholwyr ynghylch gwaith Llywodraeth y Cynulliad yn cynorthwyo cyn-filwyr ac

all of us would like to make representations to you on the work that the Assembly Government could take on, and I hope that you will be open to those. We will also want to be able to make representations to you on behalf of constituents. Several people have contacted me asking for additional support for the armed forces in Wales, and I think that this advisory group will provide us with the opportunity and a context in which to take these things forward.

Carl Sargeant: As you rightly point out, the expert group has now been established and we have had our first meeting. The group's papers and minutes will be published on the Assembly Government's website shortly. It is the first such group to be established in the UK, and it has had a very positive response from armed forces personnel and their families. The membership of the group did not come about by chance. We invited people who are receiving services in Wales and people working on the front-line in providing those services. We have family liaison group officers, armed forces personnel, the Royal British Legion and representatives of the voluntary sector—key people who understand the difficulties that people face daily in receiving services that the Welsh Assembly Government is responsible for. It was a very positive and open meeting, and I hope that we will build on that in future. I would be only too happy to report back to the Assembly.

You raised many issues that we are very active on with regard to the Welsh dimension of the support that we should be giving to our ex-service personnel and veterans in Wales, including the homebuy services, dental services, council tax reduction, school place allocations and concessionary bus travel. However, I accept that there is much more work to be done. I am pleased that I am the lead Minister on this, but I know that there is great buy-in from my Cabinet colleagues across the Assembly.

Finally, I urge Members to take the

aelodau sy'n dychwelyd o'r frwydr. Credaf y byddem i gyd yn hoffi cyflwyno sylwadau ichi am y gwaith y gallai Llywodraeth y Cynulliad ei wneud, ac yr wyf yn gobeithio y byddwch yn agored i'r rheini. Byddwn hefyd am allu cyflwyno sylwadau ichi ar ran etholwyr. Mae llawer o bobl wedi cysylltu â mi'n gofyn am gymorth ychwanegol i'r lluoedd arfog yng Nghymru a chredaf y bydd y grŵp ymgynghori hwn yn rhoi cyfle a chyd-destun inni fwrw ymlaen â'r pethau hyn.

Carl Sargeant: Yr oeddech yn llygad eich lle'n dweud bod y grŵp arbenigol wedi'i sefydlu bellach, a'n bod wedi cynnal ein cyfarfod cyntaf. Cyhoeddir papurau a chofnodion y grŵp ar wefan Llywodraeth y Cynulliad cyn bo hir. Dyma'r grŵp cyntaf o'i fath i'w sefydlu yn y Deyrnas Unedig, ac mae wedi cael ymateb cadarnhaol iawn gan aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd. Nid drwy hap y sefydlwyd aelodaeth y grŵp. Gwahoddwyd pobl sy'n cael gwasanaethau yng Nghymru a phobl sy'n gweithio ar y rheng flaen yn darparu'r gwasanaethau hynny. Mae gennym swyddogion grŵp cysylltu â theuluoedd, aelodau'r lluoedd arfog, y Lleng Brydeinig Frenhinol a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol—pobl allweddol sy'n deall yr anawsterau y bydd pobl yn eu hwynebu'n feunyddiol wrth gael y gwasanaethau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Yr oedd yn gyfarfod cadarnhaol ac agored iawn, ac yr wyf yn gobeithio yr adeiladwn ar sail hynny yn y dyfodol. Byddwn yn falch iawn o adrodd yn ôl i'r Cynulliad.

Codwyd llawer o bwyntiau gennych yr ydym yn ymwneud yn frwd â hwy o ran y gefnogaeth y dylem ni yng Nghymru fod yn ei rhoi i gyn-aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr yng Nghymru, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth prynu, gwasanaethau deintyddol, gostyngiad yn y dreth gyngor, dyrannu lleoedd mewn ysgolion, a theithio'n rhatach ar fysiau. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn bod llawer rhagor i'w wneud eto. Yr wyf yn falch mai fi yw'r Gweinidog sy'n arwain ar hyn, ond gwn fod fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet ar draws y Cynulliad yn gefnogol iawn.

I gloi, pwysaf ar yr Aelodau i fanteisio ar y

opportunity to celebrate Armed Forces Day in their communities across Wales. We owe a great debt to our serving and former service personnel. I am delighted that Wales will be flying the flag for Armed Forces Day in the UK.

cyfle i ddathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog yn eu cymunedau ledled Cymru. Mae ein dyled yn fawr i'r aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd ac i gyn-filwyr. Yr wyf wrth fy modd y bydd Cymru'n chwifio'r faner dros Ddiwrnod y Lluoedd Arfog yn y Deyrnas Unedig.

Datganiad am Wella Argaeledd Meddyginiaethau i Gleifion yng Nghymru Statement on Improving the Availability of Medicines for Patients in Wales

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): In August 2008, I asked Professor Philip Routledge, chair of the all-Wales medicines strategy group, to look at the broader issues of improving the availability of medicines for patients. In March 2009, Professor Routledge's report, 'Towards Improving the Availability of Medicines for Patients in Wales', was published. I welcomed this report and agreed its 11 recommendations in principle. To ensure that these recommendations were put into action, I invited Professor Roger Walker to chair a group to oversee the implementation of the recommendations, where appropriate, and to assess any associated resource implications. In September 2009, the implementation group submitted an interim report on progress, and I have recently received a further report, which I am publishing today. This shows that a great deal has already been done to improve the availability of medicines for patients in Wales. I take this opportunity to thank Professor Walker, Professor Routledge, members of the implementation group and all the parties consulted as part of this work, for the enthusiasm and commitment shown to improving current practices.

The recommendations in the Routledge report, which were aimed at ensuring that new medicines were available to patients as soon as possible in Wales, have now been set on their course, and implementation is either well under way or completed. This is a good opportunity to update Members on some of the actions already taken and on some of the further work that I have asked Professor Walker and the implementation group to take forward.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Ym mis Awst 2008, gofynnais i'r Athro Philip Routledge, cadeirydd grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan, edrych ar faterion ehangach gwella'r meddyginiaethau sydd ar gael i gleifion. Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddwyd adroddiad yr Athro Routledge 'Towards Improving the Availability of Medicines for Patients in Wales'. Croesewais yr adroddiad hwn a chytuno i'w 11 argymhelliad mewn egwyddor. Er mwyn sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu rhoi ar waith, gwahoddais yr Athro Roger Walker i gadeirio grŵp i oruchwylio hynny, lle bo'n briodol, ac i asesu unrhyw oblygiadau cysylltiedig ar gyfer adnoddau. Ym mis Medi 2009, cyflwynodd y grŵp gweithredu adroddiad interim am ei gynnydd, ac yr wyf wedi cael adroddiad arall yn ddiweddar yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw. Mae hwn yn dangos bod llawer iawn wedi'i wneud eisoes i wella'r meddyginiaethau sydd ar gael i gleifion yng Nghymru. Achubaf ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Athro Walker, yr Athro Routledge, aelodau'r grŵp gweithredu a'r holl bartïon yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r gwaith hwn, am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad dros wella'r arferion sydd ar waith.

Mae'r argymhellion yn adroddiad Routledge, i geisio sicrhau bod meddyginiaethau newydd ar gael i gleifion cyn gynted ag y bo modd yng Nghymru, wedi cael eu rhoi ar waith, ac maent eisoes wedi hen gael eu traed danynt neu wedi'u cwblhau. Dyma gyfle da i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am rai o'r camau a gymerwyd eisoes ac am rywfaint o'r gwaith arall yr wyf wedi gofyn i'r Athro Walker a'r grŵp gweithredu fwrw ymlaen ag ef.

4.20 p.m.

The report identified the need for clear guidance on the clinical effectiveness and cost effectiveness of all new medicines. Recent changes to National Institute for Health and Clinical Excellence arrangements have introduced greater flexibility into its appraisal of more expensive drugs for end-of-life conditions. This approach has been adopted by the all-Wales medicines strategy group for the medicines that it reviews. These measures will ensure that evidence-based decisions on new and cost-effective medicines are provided to patients as soon as possible. To ensure that the NHS in Wales has early and independent guidance on all new medicines, from October, the remit of the all-Wales medicines strategy group will be broadened to deliver up to 70 additional appraisals each year. It will develop new procedures to avoid any duplication of effort with NICE. Clear guidance at an early stage on all new medicines in Wales should reduce any uncertainty surrounding the place of these medicines.

On the exceptions committee, it is interesting that, as Assembly Members, cases are referred to us where patients have not been advised during their consultation that it is possible to appeal or ask the local health board to fund a particular drug. There seems to be a lack of understanding in the system, or an unwillingness to explore the issues around it with the patient. I hope that some of the issues discussed in the Routledge report on the training agenda will start to deal with that, but that is one of my concerns. One of the issues that I will be speaking to Professor Aylward about is how we publicise processes more, and how helpful it is to do so. I would be happy to return to Members with more information on that.

NICE is sometimes maligned but it is also in a difficult position with regard to some of the issues that it deals with as a result of the points that you raised. Some of the information that NICE receives does not help it to make a positive decision. That is important, because it sometimes wants further and better evidence, which it asks for, but sometimes the evidence is incomplete.

yn gorfod adennill eu costau'n gyflymach o lawer a wynebu costau uwch am fod y cyffur hwnnw o fudd i lai o bobl. Byddai'n dda gennyf glywed barn y Gweinidog am hynny hefyd.

Edwina Hart: Nid oes arnaf eisiau cael fy nhynnu i sôn am fy marn ynglŷn â chwmnïau cyffuriau, a bod yn gwbl onest. Sylweddolaf faint o arian sy'n mynd i ymchwilio a datblygu, ond byddaf hefyd yn edrych ar yr hyn y bydd cwmnïau cyffuriau'n ei godi ar y GIG ac ar lefel yr elw y maent yn ei gwneud. Felly, fel chithau, mae gennyf farn gref am y mater penodol hwn, ac yr wyf wedi meddwl erioed y dylai Llywodraethau cenedlaethol fod yn fwy cadarn eu hagwedd o lawer wrth ymdrin â chwmnïau cyffuriau ledled Ewrop. Dyna'r farn yr wyf wedi'i mynegi wrth Weinidog Iechyd blaenorol y Deyrnas Unedig erioed, ac, os caf gyfle i wneud hynny, byddaf yn dweud hynny wrth Weinidog iechyd newydd y Deyrnas Unedig. Ni chredaf y byddai llawer yn y Siambr yn gwrthwynebu'r safbwynt hwnnw.

O ran y pwyllgor eithriadau, mae'n ddiddorol bod achosion yn cael eu cyfeirio atom, Aelodau'r Cynulliad, lle nad yw'r cleifion wedi cael cyngor yn ystod eu hymgyngoriad bod modd iddynt apelio neu ofyn i'r bwrdd iechyd lleol dalu am gyffur penodol. I bob golwg, nid yw pobl yn deall y system, neu mae rhai'n amharod i archwilio'r materion perthnasol gyda'r claf. Yr wyf yn gobeithio y bydd rhai o'r materion a drafodir yn adroddiad Routledge ynghylch yr agenda hyfforddi'n dechrau ymdrin â hynny, ond dyna un peth sy'n fy mhoeni. Un o'r pethau y byddaf yn siarad â'r Athro Aylward yn ei gylch yw sut i roi rhagor o gyhoeddusrwydd i brosesau, a faint o gymorth fyddai gwneud hynny. Byddwn yn falch o ddychwelyd at yr Aelodau i roi rhagor o wybodaeth iddynt am hynny.

Bydd NICE yn cael enw drwg weithiau ond mae mewn sefyllfa anodd hefyd yng nghyswllt rhai o'r materion y mae'n ymwneud â hwy yn sgîl y pwyntiau a godwyd gennyh. Nid yw rhywfaint o'r wybodaeth a gaiff NICE yn gymorth iddo wneud penderfyniad cadarnhaol. Mae hynny'n bwysig oherwydd weithiau mae angen rhagor o dystiolaeth a thystiolaeth well

Therefore, there are many issues around that particular area.

You also raised the point about the additional moneys that have gone in. I cannot answer that question immediately, but I am more than happy to look at the budget issues around that and drop a note to Members.

David Lloyd: I welcome the Minister's statement on improving the availability of medicines for people in Wales. I also wish to stress, as the Minister has already, the pivotal role of NICE and the all-Wales medicines strategy group. As doctors, as Brian Gibbons has already mentioned, we depend on NICE for the information; we always want to know what drug is safe, effective, has the fewest side effects and is cost-effective for whichever particular disease our patient confronts us with. We want to have independent information that is untarnished by the influence of large pharmaceutical companies.

4.50 p.m.

Prior to setting up NICE, GPs and hospital doctors were directly exposed to the wiles of the large pharmaceutical companies, sometimes with unfortunate results. I am therefore greatly impressed by and welcome what NICE is trying to do. I also appreciate the huge pressure on NICE. The recent multiple sclerosis campaign that Brian Gibbons alluded to shows what happens when the NICE process is circumvented, and we end up doing things that are not evidence-based. Not only is it unfortunate for the patients involved, but mopping up the whole process costs millions of pounds, which are then not available to make other medicines available to NHS patients. It is that age-old tension between the needs of the individual in front of GPs and the needs of the population at large. In this arena, we need to keep in check the needs of the population at large.

arno, ac mae'n gofyn am hynny, ond weithiau bydd y dystiolaeth yn anghyflawn. Felly, mae llawer o broblemau yn y maes penodol hwnnw.

Crybwyllwyd gennych hefyd y pwynt am yr arian ychwanegol sydd wedi'i ddarparu. Ni allaf ateb y cwestiwn hwnnw yma'n awr, ond yr wyf yn fwy na bodlon edrych ar y materion cyllidebol sy'n berthnasol i hynny a rhoi nodyn i'r Aelodau.

David Lloyd: Croesawaf ddatganiad y Gweinidog am wella'r meddyginiaethau sydd ar gael i bobl yng Nghymru. Yr wyf am bwysleisio hefyd, fel y mae'r Gweinidog wedi gwneud eisoes, swyddogaeth allweddol NICE a grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan. Byddwn ni'r meddygon, fel y mae Brian Gibbons wedi crybwyll eisoes, yn dibynnu ar NICE am yr wybodaeth; yr ydym bob tro am gael gwybod pa gyffur sy'n ddiogel, yn effeithiol, sy'n peri'r sgîl effeithiau lleiaf ac sy'n gost-effeithiol ar gyfer pa glefyd bynnag y daw ein claf atom yn dioddef ohono. Yr ydym am gael gwybodaeth annibynnol sydd heb ei llurgunio gan ddylanwad cwmnïau fferyllol mawr.

Cyn sefydlu NICE, yr oedd meddygon teulu a meddygon ysbytai'n uniongyrchol agored i gastiau'r cwmnïau fferyllol mawr, a hynny weithiau'n arwain at ganlyniadau anffodus. Felly mae'r hyn y mae NICE yn ceisio'i wneud yn creu argraff fawr arnaf ac yr wyf yn ei groesawu. Yr wyf hefyd yn sylweddoli'r pwysau enfawr ar NICE. Mae'r ymgyrch sglerosis ymledol ddiweddar y cyfeiriodd Brian Gibbons ati'n dangos beth sy'n digwydd pan na ddilynir proses NICE, a phan fyddwn maes o law'n gwneud pethau nad ydynt wedi'u seilio ar dystiolaeth. Nid yn unig y mae hynny'n anffodus i'r cleifion dan sylw, ond bydd clirio'r llastr ar ôl y broses i gyd yn costio miliynau o bunnoedd, ac wedyn nid yw'r arian hwnnw ar gael i ddarparu meddyginiaethau eraill i gleifion y GIG. Dyna'r tyndra oesol rhwng anghenion yr unigolyn sydd wyneb yn wyneb â'i feddyg teulu ac anghenion y boblogaeth yn gyffredinol. Yn y maes hwn, mae angen inni gadw golwg ar anghenion y boblogaeth yn gyffredinol.

There is a sensitive balancing act to be played out, because we are talking about a hugely emotional and fraught situation, and it is difficult to have balanced conversations, and to keep them evidence-based, when people are desperate for treatment. No-one is pretending that this is easy, but I am impressed with this statement and with the clarity with which the Minister has set out the purpose of it all. The main purpose, from my point of view, is to get decisions on which drugs are available on the NHS turned around more quickly than has hitherto been the case. I accept that NICE and the all-Wales medicines strategy group are under pressure, but I welcome the 70 additional appraisals each year that the Minister has announced. That should improve the turnaround time.

I will briefly mention that this field of new medicines is a huge and moving agenda, and obviously the pharmaceutical industry is subject to many influences, and that is why we need independent information. People have complained about NICE, but I wonder what the Minister's view is on the role of large pharmaceutical companies in providing NICE with timely evidence that is easily interpreted within a given time frame. The problem that NICE and the all-Wales medicines strategy group face is that most research in this field has to be carried out by the drug companies themselves. Sometimes it does not result in a form of information that is useful to us. As a doctor—and Brian would agree—if there is a new drug on the scene, we want to know whether it is better than the current drug that we are prescribing. Very often, that is not the nature of the research that is carried out, so we never find that out, and it takes months or years for NICE to come to some sort of conclusion. The influence of the pharmaceutical industry in providing NICE with more appropriate information carries many difficulties with it. However, there are also potential gains with regard to timeliness.

I will round off by mentioning co-payments. I am opposed to them, as I see them as fundamentally undermining the universality

Mae angen bod yn sensitif wrth geisio cadw'r ddysgl yn wastad, oherwydd yr ydym yn sôn am sefyllfa ofnadwy o emosiynol a dirdynnol ac mae'n anodd cael sgwrs gytbwys, a sicrhau bod y sgwrs honno bob tro'n cael ei seilio ar dystiolaeth, pan fydd pobl ar dân eisiau triniaeth. Nid oes neb yn esgus bod hyn yn hawdd, ond mae'r datganiad hwn yn creu argraff arnaf a hefyd bod y Gweinidog wedi esbonio diben y cyfan mor glir. Y prif ddiben, o'm safbwynt i, yw sicrhau penderfyniadau ynghylch pa gyffuriau sydd ar gael o dan y GIG yn gyflymach nag y bu modd gwneud yn y gorffennol. Yr wyf yn derbyn bod NICE a grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan o dan bwysau ond yr wyf yn croesawu'r 70 arfarniad ychwanegol bob blwyddyn y mae'r Gweinidog wedi'u cyhoeddi. Dylai hynny gyflymu pethau.

Hoffwn ddweud yn gyflym fod y maes meddyginiaethau newydd hwn yn agenda enfawr sy'n newid o hyd, ac mae'n amlwg bod y diwydiant fferyllol yn destun dylanwadau lu. Dyna pam mae angen gwybodaeth annibynnol arnom. Mae pobl wedi cwyno am NICE, ond tybed beth yw barn y Gweinidog am rôl cwmnïau fferyllol mawr o ran rhoi tystiolaeth brydlon i NICE, a honno'n hawdd ei dehongli o fewn amserlen benodol. Y broblem y mae NICE a grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan yn ei hwynebu yw ei bod yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r ymchwil yn y maes hwn gael ei gwneud gan y cwmnïau cyffuriau eu hunain. Weithiau, ni fydd yn arwain at ffurf ar wybodaeth sy'n ddefnyddiol inni. A minnau'n feddyg—a byddai Brian yn cytuno—os oes cyffur newydd ar gael, yr ydym am gael gwybod a yw'n well na'r cyffur yr ydym yn ei roi eisoes. Yn aml iawn, nid dyna natur yr ymchwil a wneir, felly ni chawn wybod hynny byth a bydd angen misoedd neu flynyddoedd i NICE gyrraedd rhyw fath o gasgliad. Mae dylanwad y diwydiant fferyllol o ran rhoi mwy o wybodaeth briodol i NICE yn dwyn llw o anawsterau yn ei sgîl. Serch hynny, mae manteision posibl hefyd o ran yr amserlen.

Caeaf ben y mwdwl drwy sôn am gyd-daliadau. Yr wyf yn eu gwrthwynebu, oherwydd fy mod yn eu gweld yn tansilio yn

of the NHS and potentially increasing health inequalities. That is offset at the moment by the fact that we have free prescriptions in this country, and, shortly, in other countries in these islands. The solution to the co-payments situation is more timely intervention by NICE, which is why I have stressed the role of the pharmaceutical companies, whether large or small, in providing that timely advice—that is what we depend upon as doctors. Let us try to move away from the kind of emotional, hyped situation that some consultants and patient groups can be caught up in in relation to the latest, so-called ‘miracle drug’, which is then found wanting—and not only wanting, but which are sometimes dangerous. There have been many such examples, from thalidomide to Vioxx, where corners have been cut and we end up paying—our patients pay, and the NHS pays.

Edwina Hart: I thank Dr Lloyd very much for that contribution. The issue of timely advice is important in this discussion, because if there was more timely advice about drugs, and NICE was able to get to grips with it, then some of these issues probably would not arise in future. We have to be supportive of NICE taking things through quicker, and do our bit in Wales, as I have indicated I am doing with the all-Wales medicines strategy group.

I do not think that people quite understand what NICE must deal with sometimes, because a robust case is not always put forward by manufacturers, while others claim that certain treatment can prolong life by five to six months. However, there is not always an evidence base for that. The costs do not always stack up, for example when you put things like the quality-adjusted life year into the equation. I would not like to be part of a body that had to make some of these decisions. It was interesting that Dr Gibbons and Dr Lloyd, who both had experience of the system prior to NICE, feel that NICE is important in giving guidance.

ei hanfod egwyddor ‘yr un gwasanaeth i bawb’ sydd yn sail i’r GIG a gallai waethygu anghydraddoldebau iechyd. Ar hyn o bryd, mae’r ffaith bod gennym bresgripsiynau am ddim yn y wlad hon, ac y bydd gan wledydd eraill yr ynnysoedd hyn drefn debyg cyn bo hir yn gwrthbwysu hynny. Yr ateb i’r sefyllfa cyd-daliadau yw ymyriadau mwy prydlon gan NICE, a dyna pam yr wyf wedi pwysleisio rôl y cwmnïau fferyllol, boed y rheini’n fawr ynteu’n fach o ran darparu’r wybodaeth brydlon honno—ar hynny yr ydym ni feddygon yn dibynnu. Gadewch inni geisio symud i ffwrdd oddi wrth y sefyllfa emosiynol, danllyd y gall rhai ymgynghorwyr a grwpiau o gleifion gael eu dal ynddi o ran y ‘cyffur gwyrthiol’ bondigrybwyll diweddaraf, y gwelir wedyn nad yw cystal â’r disgwyl—ac nid dim ond hynny, ond weithiau mae’r cyffur hwnnw’n beryglus. Mae llawer o enghreifftiau o’r fath wedi bod, o thalidomide i Vioxx, lle’r ydym wedi torri corneli a’n bod yn y pen draw’n talu—bydd ein cleifion yn talu, a bydd y GIG yn talu.

Edwina Hart: Diolch yn fawr iawn i’r Dr Lloyd am y cyfraniad hwnnw. Mae cael cyngor prydlon yn bwysig yn y drafodaeth hon, oherwydd pe bai rhagor o gyngor prydlon ar gael am gyffuriau, a phetai NICE yn gallu mynd i’r afael ag ef, yna, mae’n debyg na fyddai rhai o’r materion hyn yn codi yn y dyfodol. Rhaid inni gefnogi NICE wrth iddo geisio cwblhau gwaith yn gyflymach, a gwneud ein rhan yng Nghymru, fel yr wyf wedi awgrymu yr wyf yn ei wneud gyda grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan.

Ni chredaf fod pobl yn deall yn union yr hyn y mae’n rhaid i NICE ymdrin ag ef weithiau oherwydd ni fydd y gwneuthurwyr bob tro’n cyflwyno achos cadarn a bydd eraill yn honni y gall triniaeth benodol ymestyn oes gan bum neu chwe mis. Fodd bynnag, nid oes sylfaen dystiolaeth bob tro ar gael ar gyfer hynny. Nid oes modd cyfiawnhau’r costau bob tro, er enghraifft, pan fyddwch yn ystyried ansawdd bywyd rhywun am flwyddyn o’i oes. Ni fyddwn yn hoffi bod yn rhan o gorff a oedd yn gorfod gwneud rhai o’r penderfyniadau hyn. Yr oedd yn ddiddorol clywed bod y Dr Gibbons a’r Dr Lloyd, ill dau wedi cael profiad o’r system cyn NICE, yn meddwl bod NICE yn bwysig o ran darparu canllawiau.

There is a role for clinicians with regard to some of the difficult end-of-life decisions, such as honesty, and about the whole issue of palliative care, which I alluded to. This has been an exceptionally difficult area, because it is about emotion. Dr Lloyd mentioned patient groups and campaign groups and the issue of what decision you, as an individual, or your family would make. It is important to get the correct balance and for that further work to be undertaken, which is why I set out the statement in this way today. We all have our principles with regard to our politics, but if anything happened to any of us or a member of our family in the future, we would have to ask ourselves whether we would make the principled decision based on what we have always said we would do, or would we consider something else. I must be realistic about some of these issues, without disagreeing with the fundamentals of Dr Lloyd's contribution.

Nick Ramsay: Many of the points that I was going to make have already been adequately covered and the questions answered by the Minister. However, I want to make two quick points. First, I was pleased that you mentioned palliative care in your statement, because, having being involved with groups in my area, particularly hospices, I know that there has been a feeling that sometimes in the past—now the distant past, thankfully—palliative care has not always been recognised as adequately as it should. Therefore, I was pleased to see that element of care being included in this statement.

I also welcome what you said about co-payments. I totally agree with your idea of involving patients more fully in the process of decision making and whether something is clinically available and cost-effective. However, could you explain that in more detail, because it seems a little too straightforward just to say that? Involving doctors in that clinical process is hard enough to do, let alone involving the patients in that decision-making process, which would surely create very big obstacles to overcome.

Mae lle i glinigwyr gyfrannu at rai o'r penderfyniadau anodd sy'n ymwneud â diwedd oes, drwy fod yn onest, ac yng nghyswllt holl fater gofal lliniarol y cyfeiriais ato. Mae'r maes hwn wedi bod yn un eithriadol o anodd, oherwydd ei fod a wnelo ag emosiwn. Crybwyllodd y Dr Lloyd grwpiau cleifion a grwpiau ymgyrchu a pha benderfyniad y dylech chi, yr unigolyn, neu'ch teulu ei wneud. Mae'n bwysig sicrhau'r cydbwysedd iawn a bod y gwaith ychwanegol hwnnw'n cael ei wneud. Dyna pam y rhoddais y datganiad hwn fel y gwneuthum heddiw. Mae gan bob un ohonom ein hegwyddorion o ran ein gwleidyddiaeth, ond pe bai unrhyw beth yn digwydd i unrhyw un ohonom ni neu i unrhyw aelod o'n teulu yn y dyfodol, byddai'n rhaid inni ofyn inni'n hunain a fyddem yn gwneud y penderfyniad egwyddorol ar sail yr hyn yr ydym wedi'i ddweud erioed, ynteu a fyddem yn ystyried rhywbeth arall. Rhaid imi fod yn realistig ynghylch rhai o'r materion hyn, heb anghytuno â chyfraniad y Dr Lloyd yn ei hanfod.

Nick Ramsay: Mae llawer o'r pwyntiau yr oeddwn yn bwriadu eu gwneud wedi cael eu trafod ddigon eisoes a'r Gweinidog wedi ateb y cwestiynau. Serch hynny, yr wyf am wneud dau bwynt yn gyflym. Yn gyntaf, yr oeddwn yn falch ichi sôn am ofal lliniarol yn eich datganiad, oherwydd, ar ôl bod yn ymwneud â grwpiau yn fy ardal, hosbisau'n benodol, gwn fod teimlad wedi bod weithiau yn y gorffennol—y gorffennol pell erbyn hyn, diolch byth—nad yw gofal lliniarol wedi'i gydnabod bob tro gymaint ag y dylasid. Felly, yr oeddwn yn falch o weld yr elfen olaf hon yn cael ei chynnwys yn y datganiad hwn.

Yr wyf yn croesawu hefyd yr hyn a ddywedwyd gennych am gyd-daliadau. Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'ch syniad o gynnwys cleifion rhagor yn y broses penderfynu ac ynghylch a yw rhywbeth ar gael yn glinigol ac yn gost-effeithiol. Serch hynny, a allech esbonio hynny'n fwy manwl, oherwydd mae'n ymddangos bod dweud hynny'n rhy syml braidd? Mae cynnwys meddygon yn y broses glinigol honno'n ddigon anodd heb sôn am gynnwys y cleifion yn y broses penderfynu hefyd, a siawns na

fyddai'n creu rhwystrau mawr iawn i'w goresgyn.

Edwina Hart: Patients must be fully aware of the options that are put in front of them when discussing whether or not they should have a particular drug, whether it is available or whether it could be imported, which some people do from the United States, when it is not available here. That is what I mean by patient involvement. Patients must be able to understand all the issues. I appreciate your point that a patient in a difficult position may not want to take in or accept any information; therefore it is important that families and other people are involved in that discussion. The patient could even get a second opinion from someone who is not their clinician, who may have become their friend over a number of years, who can give the information more starkly. This is a matter of clinical judgment, which is why I have asked for this further work to be undertaken.

Edwina Hart: Rhaid i gleifion gael gwybod yn iawn beth yw'r dewisiadau a gynigir iddynt wrth drafod a ddylent gael cyffur penodol neu beidio, a yw ar gael ynteu a ellid ei fewnforio, o'r Unedol Daleithiau fel y bydd rhai pobl, pan nad yw ar gael yma. Dyna'r hyn yr wyf yn ei olygu wrth sôn am gynnwys y claf. Rhaid i gleifion allu deall yr holl ystyriaethau. Yr wyf yn derbyn eich pwynt na fydd claf sydd mewn sefyllfa anodd o reidrwydd am wrando ar unrhyw wybodaeth na'i derbyn. Felly, mae'n bwysig cynnwys teuluoedd a phobl eraill yn y drafodaeth honno. Gallai'r claf hyd yn oed gael ail farn gan rywun nad yw'n glinigydd iddynt, sydd o bosibl wedi dod yn gyfaill iddynt dros nifer o flynyddoedd, a all roi'r wybodaeth iddynt mewn ffordd fwy diflewyn-ar-dafod. Mater o farn glinigol yw hyn a dyna pam yr wyf wedi gofyn am gael gwneud y gwaith ychwanegol hwn.

I thank you for your comments on palliative care. Palliative care is essential in this agenda, because it is so important for people to be in the right environment. We have seen such wonderful things, such as the work of the hospice-at-home service. It is important that we balance this out with what can be done for the individual.

Diolch ichi am eich sylwadau am ofal lliniarol. Mae gofal lliniarol yn elfen hanfodol yn yr agenda hon, oherwydd ei bod mor bwysig i bobl fod yn yr amgylchedd iawn. Yr ydym wedi gweld pethau mor wych, megis gwaith y gwasanaeth hosbis yn y cartref. Mae'n bwysig inni gadw'r ddsygl yn wastad rhwng hyn a'r hyn y gellir ei wneud dros yr unigolyn.

I wish that I had answers to every question on this, but I do not. This has been one of the most difficult areas to deal with as a Minister with regard to taking things forward. I have been guided all the way through by professionals. I feel happier this afternoon after having two contributions from doctors about the fact that we should be guided by NICE on these issues and that we need to speed up processes. However, patients are the most important part of this process, so I hope that what I suggest today will take this agenda forward for their benefit.

Byddai'n dda gennyf pe bai gennyf atebion i bob cwestiwn yn y cyswllt hwnnw, ond nid oes. Dyma un o'r meysydd anhawsaf imi orfod ymdrin ag ef yn fy ngwaith fel Gweinidog, o ran bwrw ymlaen â phethau. Mae gweithwyr proffesiynol wedi fy nhywys ar hyd y ffordd. Yr wyf yn teimlo'n hapusach y prynhawn yma ar ôl cael dau gyfraniad gan feddygon yn dweud y dylem gael ein tywys gan NICE ynglŷn â'r materion hyn a bod angen inni gyflymu prosesau. Serch hynny, y cleifion yw rhan bwysicaf y broses hon, felly, yr wyf yn gobeithio y bydd yr hyn a awgrymaf heddiw'n bwrw ymlaen â'r agenda hon er eu lles hwy.

Lorraine Barrett: I would just like to reiterate a point that was so eloquently made by Dai Lloyd, that it is difficult for us, as individual politicians in the Chamber, to

Lorraine Barrett: Hoffwn ategu pwynt a wnaeth Dai Lloyd mor huawdl, sef ei bod yn anodd i ni, wleidyddion unigol yn y Siambr, wneud penderfyniadau pan gawn y ceisiadau

make decisions when we get these very emotional requests from individual patients.

5.00 p.m.

Will you issue some guidance to us as time goes on? It is difficult for us as politicians, when we are approached by constituents and other groups, to be able to say, 'Sorry, it is nothing to do with me'. We need to be able to pass the issue on to those who are competent and able to make these difficult decisions. Thank you for this statement today, because it clarifies a lot of points for us as individual politicians.

Edwina Hart: I will be asking Professor Mansel Aylward to look at the transparency and appeals issues and, when that is all sorted out, it might be helpful if I were to issue something to Assembly Members in the autumn for them to use in their role. I would be happy to do that.

emosiynol iawn hyn gan gleifion unigol.

A wnewch gyhoeddi rhywfaint o ganllawiau inni wrth i amser fynd heibio? Mae'n anodd i ni, wleidyddion, pan fydd etholwyr a grwpiau eraill yn dod atom, allu dweud, 'Mae'n ddrwg gennyf, nid oes a wnelo hyn ddim â mi'. Mae angen inni allu trosglwyddo'r mater i'r rheini sy'n gymwys ac sy'n gallu gwneud y penderfyniadau anodd hyn. Diolch ichi am y datganiad hwn heddiw, oherwydd mae'n egluro llawer o bwyntiau i ni wleidyddion unigol.

Edwina Hart: Byddaf yn gofyn i'r Athro Mansel Aylward edrych ar y materion sy'n ymwneud â thryloywder ac apelio, a phan fydd hynny i gyd wedi'i ddatrys, efallai y byddai'n gymorth imi gyhoeddi rhywbeth i Aelodau'r Cynulliad yn yr hydref iddynt ei ddefnyddio yn eu gwaith. Byddwn yn falch o wneud hynny.

Yr Astudiaeth Ymchwil Annibynnol a Gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, 'Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru'
The Welsh Assembly Government Commissioned Independent Research Study, 'Study to Examine the Planning Application Process in Wales'

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of Nick Ramsay and amendment 3 in the name of Peter Black.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Nick Ramsay a gwelliant 3 yn enw Peter Black.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I move that

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiad fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. *welcomes the publication of the Assembly Government commissioned independent 'Study to Examine the Planning Application Process in Wales';*

1. *yn croesawu cyhoeddi 'Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru', sef astudiaeth annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad;*

2. *notes the Welsh Assembly Government's response to the study's recommendations to improve the planning application process at the earliest opportunity. (NDM4497)*

2. *yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion yr astudiaeth i wella'r broses ceisiadau cynllunio cyn gynted â phosibl. (NDM4497)*

This report is one of the most important planning research projects that we have

Yr adroddiad hwn yw un o'r prosiectau ymchwil pwysicaf yr ydym wedi'i gomisiynu

commissioned in recent years. Over the last 10 years, successive Assembly Governments have introduced integrated innovative planning policies, helping to achieve sustainable development, introducing policies for renewable energy, flooding and how we deal with waste. All these innovative policies are delivered in partnership with local planning authorities via the planning application process. We need to ensure that the planning system is also contributing positively to sustainable economic recovery in Wales. The aim of the research was to examine barriers to the efficient delivery of timely planning application decisions and to identify good practice. Opportunities to improve performance by all players in the system were also considered; nothing was off-limits. I am grateful to GVA Grimley Ltd, which won the tender, and the independent research steering group—chaired by Michael Sant, a retired planning consultant—which was set up to oversee the research study. They achieved consensus on their recommendations regarding what improvements should be made.

Cabinet colleagues have endorsed the Assembly Government's response and we are accepting all the recommendations. It is worth bearing in mind that planning has grown from a fairly straightforward system to regulate the use and development of land in the public interest, to an increasingly complex system to deliver our policy objectives and a growing number of European directives. This complexity has increased costs and delays for all concerned in the process and reduced certainty, further complicated by the slightly different approaches being taken by different planning authorities. The report's overall conclusion is that the application process is a fundamentally fair mechanism for decisions on new development and that a radical overhaul is not needed, although the system is under pressure. There is evidence of good practice illustrated by practice pointers and case studies, but the evidence shows that improvements have to be made by all concerned. If we want a system that provides clarity for investors, and inspires confidence

ym maes cynllunio yn y blynyddoedd diwethaf. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Llywodraethau'r Cynulliad wedi cyflwyno polisiau cynllunio arloesol ac integredig, gan helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy, yn ogystal â chyflwyno polisiau ar gyfer ynni adnewyddadwy, llifogydd a sut y byddwn yn ymdrin â gwastraff. Caiff yr holl bolisiau arloesol hyn eu rhoi ar waith mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio lleol drwy'r broses ceisiadau cynllunio. Rhaid inni sicrhau bod y system cynllunio hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at adfer yr economi mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru. Nod yr ymchwil oedd edrych ar yr hyn sy'n rhwystro penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio rhag cael eu gwneud yn brydlon ac yn effeithlon, ynghyd â chanfod arferion da. Ystyriwyd hefyd gyfleoedd i wella perfformiad pawb sy'n rhan o'r system; ni ddiystyrwyd dim. Yr wyf yn ddiolchgar i GVA Grimley Ltd, a enillodd y tendr, ac i grŵp llywio annibynnol yr ymchwil—a gadeiriwyd gan Michael Sant, sy'n ymgynghorydd cynllunio wedi ymddeol—a sefydlwyd er mwyn goruchwylio'r astudiaeth ymchwil. Roedd consensws yn eu plith ynghylch yr argymhellion a nodai pa welliannau y dylid eu gwneud.

Mae fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet yn cydweld ag ymateb Llywodraeth y Cynulliad ac yr ydym yn derbyn yr holl argymhellion. Mae'n werth cofio bod y system cynllunio wedi datblygu o fod yn system bur syml a reoleiddiai sut y câi tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu er budd y cyhoedd, i fod yn system gynyddol gymhleth sy'n cyflawni ein hamcanion polisi ac yn ymateb i nifer o gyfarwyddebau Ewropeaidd. Mae'r cymhlethdod hwn wedi cynyddu'r costau ac wedi golygu cyfnodau hwy o oedi i bawb sy'n rhan o'r broses, yn ogystal â golygu mwy o ansicrwydd. At hynny, cymhlethwyd pethau ymhellach gan y gwahanol ddulliau braidd a ddefnyddir gan y gwahanol awdurdodau cynllunio. Casgliad cyffredinol yr adroddiad yw bod y broses ymgeisio'n un sylfaenol deg i wneud penderfyniadau am ddatblygiadau newydd, ac nad oes angen ailwampio mawr arni, er bod y system o dan bwysau. Mae dangosyddion ac astudiaethau achos yn dystiolaeth o arferion da, ond mae'r dystiolaeth honno'n dangos ei bod yn rhaid i bawb sy'n rhan o'r system wella'u dulliau. Er

in all who use it, including Assembly Members, then we need to address the concerns identified, including better cross-authority working.

The research identifies three broad themes. First, we need to improve understanding about the role of key organisations, their responsibilities and objectives and the impact that decisions have, and how our guidance and policy is related to the system. Secondly, we all need to adjust our thinking from a culture of control to one of managing development in a positive way. Thirdly, we all need to improve our performance, from statutory consultees, developers, local planning authorities, to our diverse roles across the Assembly Government in the system. There is a consensus across the sectors, including the Confederation of British Industry, the Federation of Small Businesses and the Welsh Local Government Association, that we should start implementing the recommendations as soon as possible. I agree. The Assembly Government's response to the recommendations sets out priorities and timescales. Some of the work is already under way, or will start very shortly.

My top priority is to implement recommendation 1, about the relationship between the planning application process and economic growth. We have to align improvements in the planning application process with the emerging findings of the Deputy First Minister's economic renewal programme. Following research, we will revise planning policy as appropriate and produce a technical advice note on sustainable economic renewal, in line with recommendation 6. We will also assess the planning guidance available to business and consider how it can be improved and how we can improve dialogue with business.

Action on all the other recommendations will be taken forward, ranging from recommendation 10 on reducing the number of planning applications, to recommendation

mwyn cael system sy'n rhoi eglurder i fuddsoddwyr, ac yn meithrin ymddiriedaeth ymhlith pawb sy'n rhan ohoni, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad, mae angen inni fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd, gan gynnwys cydweithio'n well rhwng gwahanol awdurdodau.

Mae'r ymchwil yn dangos bod tair prif thema gyffredinol. Yn gyntaf, mae angen inni ddeall yn well beth yw gwaith y prif sefydliadau, eu cyfrifoldebau a'u hamcanion, yn ogystal â deall effaith eu penderfyniadau a sut y mae ein canllawiau a'n polisiau'n berthnasol i'r system. Yn ail, mae angen inni i gyd feddwl yn wahanol, gan droi'r diwylliant rheoli yn ddiwylliant o ymdrin â datblygiadau mewn ffordd gadarnhaol. Yn drydydd, mae angen inni i gyd berfformio'n well, boed yn ymgynghoreion statudol, yn ddatblygwyr, yn awdurdodau cynllunio lleol, ynteu o ran ein swyddogaethau amrywiol yn Llywodraeth y Cynulliad. Ceir consensws rhwng y sectorau, sy'n cynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y dylem ddechrau rhoi'r argymhellion ar waith cyn gynted â phosibl. Cytunaf â hynny. Mae ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhellion yn dangos y blaenoriaethau a'r amserlenni dan sylw. Mae rhywfaint o'r gwaith eisoes wedi dechrau, neu ar fin dechrau.

Fy mhrif flaenoriaeth yw rhoi argymhelliad 1 ar waith, sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng proses y ceisiadau cynllunio a thwf economaidd. Rhaid inni sicrhau bod gwelliannau yn y broses gwneud ceisiadau cynllunio yn cyd-fynd â chanfyddiadau rhaglen adnewyddu economaidd y Dirprwy Brif Weinidog. Ar ôl gwneud ymchwil, byddwn yn diwygio polisi cynllunio fel sy'n briodol ac yn llunio nodyn cyngor technegol ynglŷn ag adnewyddu economaidd cynaliadwy, yn unol ag argymhelliad 6. Byddwn hefyd yn asesu'r canllawiau cynllunio sydd ar gael i fusnesau ac yn ystyried sut y gellir eu gwella a sut y gallwn drafod yn well gyda byd busnes.

Byddwn yn bwrw ymlaen i roi'r holl argymhellion eraill ar waith, o argymhelliad 10 sy'n ymwneud â lleihau nifer y ceisiadau cynllunio, i argymhelliad 13 sy'n ymwneud â

13 on introducing a consistent validation—that is the information requirements for planning applications—recommendation 14 on making greater use of new technology, and recommendation 15 on including specialist technical consultancy support. We are also reviewing the roles and organisations, as well as issuing further guidance on design and access statements, call-ins and pre-application discussions.

There is one part of recommendation 5 that I cannot accept. It advises that we call a halt for a period on all new guidance, apart from the new guidance recommended in the report. Planning policy and guidance is kept under continuous review so that we can respond to changing circumstances. However, I agree that we should consider how all our new planning policies cumulatively have an impact on the planning process. In 2011, we will then draw together all the changes and issue new development management policy and technical guidance, picking up on recommendations 6, 8, 9 and 12.

Turning to the amendments, amendment 1 focuses on setting out the timetable. As the timetable is already outlined for making improvements in the Government response, we will not accept that amendment. Amendment 2 concerns the abolition of the Infrastructure Planning Commission, which may well provide an opportunity to secure major energy consenting powers for Wales. However, we do not yet have the detail from the UK Government. The last UK Government provided The Welsh Ministers with an assurance that the IPC consenting regime would be devolution-neutral, and it delivered on that commitment. Given the UK coalition Government's programme for government and commitment to decentralisation, I will be pressing for the transfer of decisions on major infrastructure applications to Wales. In fact, I have already written to relevant Ministers.

The decentralisation and localism Bill may

chyflwyno ffordd gyson o ddilysu ceisiadau—sef yr wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi wrth wneud ceisiadau cynllunio. Byddwn yn yr un modd yn rhoi argymhelliad 14 ar waith, sy'n ymwneud â defnyddio mwy ar dechnoleg newydd, ac argymhelliad 15 sy'n ymwneud â chael cymorth ymgynghorwyr technegol arbenigol. Yr ydym hefyd yn adolygu'r swyddogaethau a'r sefydliadau, yn ogystal â rhoi rhagor o ganllawiau am ddatganiadau dylunio a mynediad, galw ceisiadau i mewn a thrafodaethau cyn ymgeisio.

Mae un rhan o argymhelliad 5 na allaf ei dderbyn. Ei gyngor yw y dylem oedi rywfaint cyn cyflwyno unrhyw ganllawiau newydd, ar wahân i'r canllawiau newydd sy'n cael eu hargymhell yn yr adroddiad. Mae polisi cynllunio a chanllawiau'n cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn inni ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Fodd bynnag, cytunaf y dylem ystyried sut y mae ein holl bolisiau cynllunio newydd gyda'i gilydd yn effeithio ar y broses cynllunio. Yn 2011, byddwn wedyn yn dod â'r holl newidiadau ynghyd ac yn cyflwyno polisi rheoli datblygu newydd a chanllawiau technegol, ar sail argymhellion 6, 8, 9 a 12.

Gan droi at y gwelliannau, mae gwelliant 1 yn canolbwyntio ar bennu'r amserlen. Gan fod yr amserlen ar gyfer newid pethau wedi'i phennu yn ymateb y Llywodraeth, ni fyddwn yn derbyn y gwelliant hwnnw. Mae gwelliant 2 yn ymwneud â chael gwared ar y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, a allai roi cyfle i sicrhau pwerau sylweddol i Gymru dros roi caniatâd ar gyfer datblygiadau ynni mawr. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael yr holl fanylion gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig eto. Cafodd Gweinidogion Cymru sicrwydd gan Lywodraeth ddiwethaf y Deyrnas Unedig y byddai cyfundrefn rhoi caniatâd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn niwtral o ran datganoli, a gweithredwyd ar sail yr ymrwymiad hwnnw. Ac ystyried rhaglen llywodraethu Llywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig a'r ymrwymiad i ddatganoli pŵer, byddaf yn pwysu am drosglwyddo penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau seilwaith mawr i Gymru. Mewn gwirionedd, yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at y Gweinidogion perthnasol.

Mae'n bosibl y bydd y Mesur Seneddol

provide an opportunity in this regard and, if so, I aim to seize it. If the UK Government does not give the powers to Wales, Wales will be at a disadvantage. This is the new Government's chance to demonstrate respect for devolution and localism. We would welcome a guarantee from the UK Government and a commitment from the Conservative and Liberal Democrat Assembly Members that they would support such a transfer. Therefore, although we are sympathetic to the view that the IPC's disappearance is very welcome, we cannot necessarily welcome the consequences unless we can guarantee that they will deliver greater planning powers for Wales in this context. Amendment 3 in the name of Peter Black is unnecessary as our normal practice when introducing policy or guidance is that we consult widely with communities and individuals.

I hope that Members recognise that I carefully worded the motion that is before Members today. The motion asks that the Assembly 'welcomes' the publication of the independent study to examine the planning application process in Wales and 'notes' the Assembly Government's response. Therefore, I commend this motion to Members. I hope that Members will welcome the tremendous work that has gone on in the preparation of this independent study and that you will note our response. I will continue to keep Members informed as we undertake the actions set out in that response between now and 2011.

Angela Burns: I move the following amendments in the name of Nick Ramsay. Amendment 1: add a new point at the end of the motion:

urges the Welsh Assembly Government to agree a timetable to enact the stated improvements to the planning application process.

Amendment 2: add a new point at the end of the motion:

ynghylch datganoli a lleoleiddio yn rhoi cyfle yn hyn o beth, ac os hynny, bwriadaf achub ar y cyfle hwnnw. Oni wnaiff Llywodraeth y Deyrnas Unedig roi'r pwerau i Gymru, bydd Cymru o dan anfantais. Dyma gyfle'r Llywodraeth newydd i ddangos ei bod yn parchu datganoli a lleoleiddio. Byddem yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac ymrwymiad gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cynulliad y byddent yn croesawu trosglwyddo'r pwerau hynny. Felly, er ein bod yn cytuno â'r farn bod cael gwared ar y Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr, ni allwn o reidrwydd groesawu'r canlyniadau oni allwn fod yn sicr y byddant yn rhoi rhagor o bwerau cynllunio i Gymru yn y cyd-destun hwn. Mae gwelliant 3 yn enw Peter Black yn ddianghenraid, gan mai ein harfer wrth gyflwyno polisiau neu ganllawiau yw ymgynghori'n eang â chymunedau ac ag unigolion.

Yr wyf yn gobeithio bod yr Aelodau yn cydnabod fy mod wedi geirio'r cynnig sydd gerbron yr Aelodau heddiw'n ofalus. Mae'r cynnig yn gofyn i'r Cynulliad 'groesawu' cyhoeddi'r astudiaeth annibynnol sy'n archwilio'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru a 'nodi' ymateb Llywodraeth y Cynulliad. Felly, cymeradwyaf y cynnig hwn i'r Aelodau. Yr wyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau yn croesawu'r gwaith aruthrol sydd wedi mynd rhagddo i baratoi'r astudiaeth annibynnol hon ac y byddwch yn nodi ein hymateb. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau wrth inni fwrw ati i gymryd y camau a nodir yn yr ymateb hwnnw rhwng nawr a 2011.

Angela Burns: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Nick Ramsay. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i gytuno ar amserlen i roi'r gwelliannau penodol ar waith yn y broses ceisiadau cynllunio.

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

welcomes the commitment of the UK Government to abolish the Infrastructure Planning Commission and the impact this will have on future planning applications in Wales.

I welcome the Government's motion. I want to say at the outset that the Welsh Conservatives will support the motion. The report by GVA Grimley is outstanding. If only all reports were so concise and so full of actions that we could get on with doing, I would be delighted. It really is an outstanding report. I was delighted not only with the report, but with the Government's wholehearted acceptance of almost all of its recommendations. We will support the amendment in the name of Peter Black. I will speak to amendment 1 and my colleague Darren Millar will speak to amendment 2.

Minister, you say that you have a timetable out there. I read the report, your response and the executive summary, but I do not see a timetable with dates attached, which is what our amendment calls for. I would be delighted if you could point me to such a timetable.

5.10 p.m.

We are trying to say, 'This is a great report, but let us get on and do it; we must not let it drift.' Rather like the authors said, this needs to have the importance of ownership; it needs to be clear, centralised and be dealt with at a very senior level. They have identified actions that are of immediate, high and medium priority. Again, looking at those actions and the delivery partners that they have identified to go with those actions, it all makes sense. However, I want to make sure that it will not be started in six or eight months' time, or sometime next year. Amendment 1 is asking you to say, 'We intend to start this in July 2010 and we will get to this bit by such and such a time', and to lay that out clearly for us.

In general, as any Assembly Member will tell you, planning can be one of the most

yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ac effaith hyn ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol yng Nghymru.

Croesawaf gynnig y Llywodraeth. Hoffwn ddweud ar y dechrau y bydd Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r cynnig. Mae'r adroddiad gan GVA Grimley yn rhagorol yn wir. Gresyn na fyddai pob adroddiad mor gryno ac mor llawn o gamau y gallem fwrw ymlaen â hwy. Byddwn wrth fy modd. Mae'n adroddiad gwirioneddol ragorol. Yr oeddwn wrth fy modd hefyd gydag ymateb brwd y Llywodraeth wrth iddi dderbyn bron pob un o'i argymhellion. Byddwn yn cefnogi'r gwelliant yn enw Peter Black. Byddaf yn siarad am welliant 1 a bydd fy nghyd-Aelod Darren Millar yn siarad am welliant 2.

Weinidog, dywedwch fod gennych amserlen. Darllenais yr adroddiad, eich ymateb a'r crynodeb gweithredol, ond ni welaf amserlen ac arni ddyddiadau, sef yr hyn y mae ein gwelliant yn galw amdano. Byddwn wrth fy modd pe gallech ddangos imi ymhle mae cael gafael ar amserlen o'r fath.

Yr ydym yn ceisio dweud, 'Mae hwn yn adroddiad gwych, ond rhaid inni fwrw ymlaen a gweithredu; ni ddylem adael i bethau lusgo.' Yn debyg i'r hyn a ddywedodd yr awduron, mae'n bwysig perchenogi hyn; mae angen i'r cyfan fod yn eglur ac yn ganolog, ac mae angen iddo gael sylw ar lefel uchel iawn. Mae'r adroddiad wedi nodi camau y mae angen eu cymryd ar unwaith, ar frys ac yn y tymor canolig. Unwaith eto, gan edrych ar y camau hynny a'r partneriaid cyflenwi a nodwyd yn yr adroddiad i gydfynd â hwy, mae'r cyfan yn gwneud synnwyr. Fodd bynnag, hoffwn gael sicrwydd nad ymhen chwech neu wyth mis, neu rywbryd y flwyddyn nesaf y dechreuir ar y gwaith hwn. Mae gwelliant 1 yn gofyn ichi ddweud, 'Yr ydym yn bwriadu dechrau hyn ym mis Gorffennaf 2010 a byddwn wedi cyflawni hyn a hyn erbyn yr adeg hon a hon', ac i bennu hynny'n glir ar ein cyfer.

Yn gyffredinol, fel y bydd unrhyw Aelod o'r Cynulliad yn dweud wrthyf, gall cynllunio

difficult, divisive and emotive issues that we deal with. Too few people understand the system, too few people understand JUDPs and LDPs, and too few will ever engage with it unless it directly affects them.

I was particularly pleased to see that one of the three main themes concerns the culture of the planning application process, and that the authors believe that more emphasis should be put on the proactive management of building development, rather than the old command-and-control structure. After all, they picked out a key sentence, which is that,

‘the planning application process is under stress. Although there was a basic consensus that the process itself remains a fundamentally fair mechanism for decisions on new development, very few are happy with its operation or impact’.

The recommendations in this report will act to solve that quite well.

I will briefly touch upon some of the recommendations with which I was particularly delighted. Recommendation 1 is about the policy statement on the importance of economic development. This is an issue that is brought to me an awful lot as a constituency Assembly Member; I have many representations from microbusinesses and small and medium-sized enterprises on this. It is about trying to find sustainable economic development. It strikes me that we spend an awful lot of time saying, ‘Oops; we do not have any sustainable business opportunities in Pembroke, Whitland or Milford Haven. Let us try to create some’. We need to look at where there are good centres of business, such as the Milford Haven waterways, which I mentioned this morning to the First Minister, or Carmarthen, and ensure that we build the jobs there because that is where the businesses will want to locate. However, we need to make sure that the people in all the hinterlands have good, accessible and affordable public transport so that they can get to the jobs. Rather than trying to drag the jobs to the

fod yn un o’r materion anhawsaf, ac yn un o’r rhai sy’n fwyaf tebygol o greu emosiwn a rhaniadau y mae’n rhaid inni ymdrin ag ef. Nid oes digon o bobl yn deall y system nac yn deall cydgynlluniau datblygu unedol a chynlluniau datblygu lleol, ac ni fydd llawer o bobl byth yn ymwneud â’r system oni fydd yn effeithio’n uniongyrchol arnynt.

Yr oeddwn yn arbennig o falch o weld bod un o’r tair prif thema yn ymwneud â diwylliant y broses ceisiadau cynllunio, a bod yr awduron yn credu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar reoli adeiladu’n fwy rhagweithiol, yn hytrach na thrwy’r hen system gorchymyn a rheoli. Wedi’r cyfan, pwysleisiwyd brawddeg allweddol ganddynt, sef,

‘fod y broses ceisiadau cynllunio dan straen. Er bod cytundeb sylfaenol bod y broses ei hun yn fecanwaith teg yn y bôn ar gyfer penderfyniadau ar ddatblygiad newydd, ychydig iawn o bobl sy’n fodlon ar ei gweithrediad neu ei heffaith’.

Bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn datrys hynny’n llwyddiannus.

Cyfeiriaf yn gryno at rai o’r argymhellion a roddodd y boddhad mwyaf imi. Mae argymhelliad 1 yn ymwneud â’r datganiad polisi ynghylch pwysigrwydd datblygu economaidd. Daw hyn i’ m sylw’n aml iawn a minnau’n Aelod Cynulliad dros etholaeth; yr wyf wedi clywed sylwadau niferus am hyn gan ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig eu maint. Y nod yw ceisio sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy. Mae’n fy nharo ein bod yn treulio cryn amser yn dweud, ‘Dyna drueni; nid oes gennym gyfleoedd busnes cynaliadwy ym Mhenfro, yn Hendy-gwyn ar Daf neu yn Aberdaugleddau. Beth am geisio creu cyfleoedd?’ Mae angen inni edrych i ganfod ymhle mae canolfannau busnes da, megis yn nyfrffyrdd Aberdaugleddau, crybwyllais hynny wrth y Prif Weinidog y bore yma, neu yng Nghaerfyrddin, a sicrhau ein bod yn creu’r swyddi yno oherwydd dyna lle y bydd busnesau am ymsefydlu. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus dda, hygyrch a fforddiadwy ar gael i bobl yng nghefn gwlad, er mwyn iddynt gyrraedd y swyddi hyn. Yn hytrach na cheisio llusgo’r swyddi at y bobl,

people, we need to get the people to the jobs. That applies throughout Wales. I am really pleased to see recommendation 1.

I know that you do not accept recommendation 5, which refers to the pause on the changes taking place. This is one of the issues that I discuss with the three planning authorities that I deal with—Pembrokeshire Coast National Park Authority, Pembrokeshire County Council, and Carmarthenshire County Council—and they struggle to keep up. I also think that the call-in process is very complex. Even if we look at the process in Pembrokeshire, we have two examples where you have called in both and made different decisions to most of the mainstream opinions in each of those camps. People simply do not understand how the call-in process works.

I am running out of time; therefore, I will move to recommendation 9. The idea of having a cooling off period, when the officer's decision or recommendation is different to the council's elected representative's decision, is a very good idea.

Recommendation 10 is simply excellent. Recommendation 12, which is about pre-application discussions, is very important because people do try to engage in pre-application discussions. They have many meetings with planners and they are told to put their plan in this way, that way or the other way—and they are charged for it—and they still get turned down. They end up feeling frustrated and angry.

I appreciate the extra time that you have given me, Deputy Presiding Officer. Thank you, Minister; it is an excellent report. I could talk more, but I shall not.

The Deputy Presiding Officer: You should not have drawn attention to the fact that I had given you extra time. [*Laughter.*] We will be here now until 7 p.m..

dylem ddod â'r bobl at y swyddi. Mae hynny'n berthnasol ledled Cymru. Yr wyf yn falch iawn o weld argymhelliad 1.

Gwn nad ydych yn derbyn argymhelliad 5, sy'n cyfeirio at yr oedi cyn rhoi'r newidiadau ar waith. Dyma un o'r materion yr wyf yn ei drafod gyda'r tri awdurdod cynllunio y byddaf yn ymwneud â hwy—Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro, a Chyngor Sir Caerfyrddin—ac maent yn ei chael yn anodd sicrhau nad ydynt yn llusgo ar ei hôl hi. Credaf hefyd fod y broses galw i mewn yn hynod o gymhleth. Hyd yn oed o edrych ar y broses yn Sir Benfro, mae gennym ddwy enghraifft lle'r ydych wedi galw'r ddau benderfyniad i mewn ac wedi penderfynu'n groes i'r rhan fwyaf o safbwyntiau'r brif ffrwd yn y ddau achos. Nid yw pobl yn deall o gwbl sut y mae'r broses galw i mewn yn gweithio.

Mae fy amser yn dirwyn i ben, ac felly trof at argymhelliad 9. Syniad da iawn yw cael cyfnod i gnoi cil, pan fydd penderfyniad neu argymhelliad y swyddog yn wahanol i benderfyniad cynrychiolydd etholedig y cyngor.

Mae argymhelliad 10, mewn gair, yn wych. Mae argymhelliad 12, sy'n ymwneud â thrafodaethau cyn ymgeisio, yn bwysig iawn gan fod pobl yn ceisio bod yn rhan o drafodaethau cyn ymgeisio. Byddant yn cael sawl cyfarfod gyda chynllunwyr ac yn cael cyngor i gyflwyno'u cais fel hyn neu fel arall—yn ogystal â gorfod talu am hynny—ac wedyn bydd eu cais yn dal i gael ei wrthod yn y pen draw. Yn y diwedd, maent yn teimlo'n rhwystredig ac yn ddig.

Yr wyf yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi caniatáu amser ychwanegol imi, Ddirprwy Lywydd. Diolch, Weinidog; mae hwn yn adroddiad rhagorol. Gallwn ddweud rhagorol, ond fe dawaf.

Y Dirprwy Lywydd: Ni ddylech fod wedi tynnu sylw at y ffaith fy mod wedi rhoi amser ychwanegol ichi. [*Chwerthin.*] Byddwn yma tan 7 p.m yn awr.

Michael German: I move amendment 3 in the name of Peter Black. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to ensure that any changes it makes to the planning process in Wales ensures that the views of communities and individuals are fully taken into account.

I hope that you will not take those extra 17 seconds off my time, Deputy Presiding Officer.

I will come to amendment 3 in a moment because I think that we may have written it in an ambiguous way. Our intention is certainly not what the Minister took it to be when she mentioned it during her opening statement. It is not about her actions; it is about planners consulting people when they have a planning application before them. I will come back to that issue in a moment.

I wish to start by reminding Members that the Sustainability Committee is engaged in quite a lengthy process of investigation and inquiry into planning. However, it is not considering the planning sharp end, which is what this report talks about, relating to development control and planning applications; it is considering planning in its strategic and policy sense. The key question that the committee is trying to answer—and it is important because it triggers the first question in this report, as there is a bit of an overlap—is whether planning policy in Wales helps or hinders other Welsh Assembly Government policies, and a key area that the committee is looking at is economic regeneration. The report's first recommendation is timely, because it overlaps firmly with the work undertaken by the committee. We are looking back to the origins of land-use policy making in Wales.

In our first evidence session, we received a very important piece of evidence from Planning Aid Wales, which I will sum up in a very short phrase: if you do not think strategically, people will get dumped on locally. That is the case for so many who

Michael German: Cynigiau welliant 3 yn enw Peter Black. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau y bydd yn eu gwneud i'r broses gynllunio yng Nghymru yn sicrhau bod sylwadau cymunedau ac unigolion yn cael eu hystyried yn llawn.

Gobeithiaf na fyddwch yn tynnu'r 17 eiliad ychwanegol oddi ar fy amser i, Ddirprwy Lywydd.

Deuaf at welliant 3 cyn hir, oherwydd credaf ein bod efallai wedi'i ysgrifennu mewn ffordd amwys. Yn sicr, nid ydym yn bwriadu'r hyn a dybiai'r Gweinidog wrth iddi sôn amdano yn ei datganiad agoriadol. Nid ymwneud â'i gweithredoedd hi y mae'r gwelliant; mae'n ymwneud â sicrhau bod cynllunwyr yn ymgynghori â phobl pan fydd cais cynllunio ger eu bron. Deuaf at hynny cyn hir.

Hoffwn ddechrau drwy atgoffa'r Aelodau bod y Pwyllgor Cynaliadwyedd yng nghanol proses go hir o archwilio'r maes cynllunio ac ymchwilio iddo. Fodd bynnag, nid edrych ar gynllunio ar lawr gwlad y mae, sef yr hyn y rhoddir sylw iddo yn yr adroddiad hwn, o ran rheoli datblygu a cheisiadau cynllunio; mae'r pwyllgor yn edrych ar gynllunio o safbwynt strategol ac o ran polisi. Y prif gwestiwn y mae'r pwyllgor yn ceisio'i ateb—ac mae hyn yn bwysig gan ei fod yn arwain at y cwestiwn cyntaf yn yr adroddiad hwn, oherwydd mae rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt—yw a yw polisi cynllunio yng Nghymru yn gymorth ynteu'n rhwystr i bolisiau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae adfywio economaidd yn rhan allweddol o ymchwiliad y pwyllgor. Mae argymhellid cyntaf yr adroddiad yn un amserol iawn, gan ei fod yn gorgyffwrdd yn sicr â'r gwaith y mae'r pwyllgor yn ei wneud. Yr ydym yn edrych yn ôl ar ddechreuadau gwneud polisiau defnyddio tir yng Nghymru.

Yn ein sesiwn tystiolaeth gyntaf, cawsom dystiolaeth bwysig iawn gan Gymorth Cynllunio Cymru. Crynhoaf y dystiolaeth honno mewn brawddeg fer iawn: os nad ydych yn meddwl yn strategol, bydd pobl leol yn dioddef. Dyna'r gwir yn achos cynifer o

engage with the planning application process. They suddenly find that they are out of kilter with something that happened some time before, in the formative stages of planning policy making, and that means that their whole attention has been directed at the sharp end, not really the important end, of strategic decision making. That is what shapes the way in which things happen.

Unfortunately, I do not think that the general public has confidence in the sharp end of the planning system, which is what the report is about, and I draw only a slight contradiction with the Minister when she says that it does not require massive changes. The first part of this document's conclusions states that,

'The review of the planning application process in Wales has discovered a system which clearly needs improvement. It does not however require structural change or, significant new primary legislation'.

However, the report goes into some depth on the range of issues tied up with that notion of culture, and the way in which people look at planning applications.

I now turn to our amendment 3. The reason for our amendment is that the problem for most of us—and we all face difficult planning applications—is that the policy has probably already been established in local planning guidance, structures and frameworks, which have all gone beforehand, and we find ourselves constrained. However, it is important to give people a voice. No matter how difficult that is, the consumers—who in this case are the communities and local people—should be fully engaged in the planning application process. That is the purpose of our amendment. We are not asking the Minister to take account of these matters in making her decisions, but, when planning applications are made, local communities should be a major player.

Recommendation 7(c) is the crucial recommendation in this respect. More modern guidance is needed on involving and

bobl sy'n rhan o'r broses ceisiadau cynllunio. Yn sydyn, maent yn sylweddoli nad oeddent yn ymwybodol o rywbeth a ddigwyddodd gryn amser yn ôl, yng nghyfnodau ffurfiannol gwneud polisi cynllunio, ac mae hynny'n golygu bod eu holl sylw wedi'i hoelio ar yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, yn hytrach nag ar y peth gwirioneddol bwysig, sef agwedd strategol gwneud penderfyniadau. Dyna sy'n dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd maes o law.

Yn anffodus, ni chredaf fod gan y cyhoedd yn gyffredinol ffydd yn y system cynllunio ar lawr gwlad, a dyna hanfod yr adroddiad. Yr wyf yn anghytuno ychydig bach â'r Gweinidog pan ddywed nad oes angen newidiadau enfawr. Dywed rhan gyntaf casgliadau'r ddogfen,

'Mae'r adolygiad o broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru wedi darganfod system y mae angen ei gwella'n amlwg. Fod bynnag nid oes angen newid strwythurol na deddfwriaeth sylfaenol newydd arwyddocaol'.

Serch hynny, mae'r adroddiad yn sôn yn eithaf manwl am yr ystod o faterion sy'n berthnasol i'r syniad hwnnw o ddiwylliant, a sut y bydd pobl yn edrych ar geisiadau cynllunio.

Trof yn awr at ein gwelliant 3. Y rheswm dros ein gwelliant yw mai'r broblem i'r rhan fwyaf ohonom—a byddwn i gyd yn wynebu ceisiadau cynllunio anodd—yw bod y polisi wedi'i sefydlu eisoes mewn canllawiau cynllunio lleol, strwythurau a fframweithiau, sydd i gyd wedi bod o'r blaen, a chawn fod y rheini'n cyfyngu arnom. Fodd bynnag, mae'n bwysig rhoi llais i bobl. Nid oes gwahaniaeth pa mor anodd yw hynny, dylai'r defnyddwyr—sef yn y cyswllt hwn y cymunedau a phobl leol—ymwneud yn llwyr â'r broses ceisiadau cynllunio. Dyna bwrpas ein gwelliant. Nid ydym yn gofyn i'r Gweinidog ystyried y materion hyn wrth benderfynu, ond, wrth wneud ceisiadau cynllunio, dylai cymunedau lleol chwarae rhan fawr.

Argymhelliad 7(c) yw'r argymhelliad hollbwysig yn y cyswllt hwn. Mae angen canllawiau mwy modern ynglŷn â chynnwys

engaging communities. That is the only area of the report, I think, that does not provide enough of an explanation of how things could be done better. It certainly quotes examples, and Planning Aid Wales's way of doing things is given as an example of engaging better with local people. However, I would expect the Minister to amplify that in the work that she has done. Our amendment has probably been rejected for the wrong reasons, therefore. The report itself is too narrow to provide a further method of working.

In conclusion, we need a uniformity of approach across Wales. Too often, we find different approaches for different parts of Wales. We need to ensure that we have a uniform, fit-for-purpose, modern and up-to-date service, which has the public's confidence.

5.20 p.m.

Leanne Wood: I will start my contribution this afternoon by saying something that you are highly unlikely to hear me say too often, particularly after today's poor-bashing budget, but I agree with the Conservative-Lib Dem Government in its decision to abolish the undemocratic Infrastructure Planning Commission. However, I still have concerns, because I understand that the IPC is to be replaced by a UK Government department. Does that not show yet again that Wales and devolution are afterthoughts for the new Government in London? There are no surprises there.

Although I have always opposed the Infrastructure Planning Commission, decisions on large energy and infrastructure projects will still be made in London, by people who have little concern for, or understanding of, the particular needs of Wales. I want to know how local communities can be consulted properly, which the Liberal Democrats seem to be particularly keen on in their amendment 3, when these decisions are to be made by a Government department in London. Plaid Cymru's view is that all planning decisions should be made here in Wales. Real

cymunedau ac ymgysylltu â hwy. Dyna'r unig faes yn yr adroddiad, mi gredaf, nad yw'n cynnig digon o esboniad ynglŷn â sut y gellid gwneud pethau'n well. Mae'n sicr yn dyfynnu enghreifftiau, a rhoddir ffordd Cymorth Cynllunio Cymru o wneud pethau'n esiampl o sut i feithrin gwell cysylltiad â phobl leol. Serch hynny, byddwn yn disgwyl i'r Gweinidog ymhelaethu ar hynny yn y gwaith y mae wedi'i wneud. Gwrthodwyd ein gweliant am y rhesymau anghywir felly, i bob golwg. Mae'r adroddiad ei hun yn rhy gul i gynnig dull arall o weithio.

I gloi, mae angen dull unffurf ledled Cymru. Yn rhy aml, byddwn yn gweld gwahanol ddulliau ar gyfer gwahanol rannau o Gymru. Mae angen inni sicrhau bod gennym wasanaeth unffurf, addas at y diben, modern a chyfoes, sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

Leanne Wood: Dechreuaf fy nghyfraniad y prynhawn yma drwy ddweud rhywbeth yr ydych yn annhebygol iawn o'm clywed yn ei ddweud yn rhy aml, yn enwedig ar ôl cyllideb waldio'r tlawd heddiw, ond cytunaf â phenderfyniad Llywodraeth y Ceidwadwyr—Democratiaid Rhyddfrydol i ddileu'r corff annemocrataidd, y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Fodd bynnag, yr wyf yn dal i boeni, oherwydd deallaf mai'r bwriad yw rhoi un o adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn lle'r IPC. Onid yw hynny'n dangos unwaith eto nad yw Cymru a datganoli'n ystyriaeth gan y Llywodraeth newydd yn Llundain? Nid yw hynny'n fawr o syndod.

Er fy mod wedi gwrthwynebu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith erioed, yn Llundain o hyd y gwneir penderfyniadau ynghylch prosiectau ynni a seilwaith mawr, gan bobl nad ydynt yn poeni fawr ddim am anghenion Cymru, nac ychwaith yn eu deall. Yr wyf am wybod sut y gellir ymgynghori'n iawn â chymunedau lleol, ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol i bob golwg yn arbennig o gefnogol i hynny yn eu gweliant 3, er bod y penderfyniadau hyn i'w gwneud gan un o adrannau'r Llywodraeth yn Llundain. Safbwynt Plaid Cymru yw y dylid gwneud pob penderfyniad cynllunio yma yng

consultation and public involvement in the process is much easier to undertake at a Welsh level than at a UK level. Can we really be confident that the Department of Communities and Local Government in London will consider the replacement of Wylfa, the application for a waste combustion plant in Merthyr Tydfil, or large windfarm applications with the interests of local communities at heart? I am not confident of that. There were already too many unanswered questions about how the IPC would work with devolution. In any dispute between the IPC and the Assembly Government, the IPC would have had the final say. That raises the question of who will have the final say in future. I am guessing that it will not be the Assembly Government.

Wales has a clear and ambitious renewable energy policy, but we have to operate with inadequate devolved arrangements for planning. A new nuclear power station could be imposed on us in Wylfa but, technically speaking, a new nuclear power station could be imposed on us in the south of the country, too, despite the fact that the Welsh Government has said that it sees no need for any new nuclear power stations in Wales. There are already examples of applications for large wind energy projects that have not received proper local scrutiny. What is there to convince us that the situation will change after the abolition of the IPC? As a net exporter of energy, it makes sense for Wales to have full decision-making powers over the natural resources that we use to create energy. Whatever input the Welsh Government has on this, I hope that that point is made as loudly and as clearly as possible.

Darren Millar: I am pleased to contribute to the debate, and I think that we can achieve consensus and agreement on all sides of the Chamber on this. There is no doubt in many people's minds that the planning process is a bit of a minefield, and so any effort to make it more understandable, manageable and fair is a big plus. Minister, I was pleased to hear your positive response to the study, and it is encouraging to see that you have taken on

Nghymru. Mae'n haws o lawer ymgynghori 'n iawn a sicrhau bod gan y cyhoedd ran yn y broses o wneud hynny ar lefel Cymru yn hytrach nag ar lefel y Deyrnas Unedig. A allwn yn wir deimlo'n ffyddiog y bydd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Llundain yn rhoi buddiannau cymunedau lleol yn gyntaf wrth ystyried gorsaf newydd yn lle Wylfa, cais am safle llosgi gwastraff ym Merthyr Tudful, neu geisiadau am ffermydd gwynt mawr? Nid wyf fi'n ffyddiog o hynny. Yr oedd gormod o gwestiynau eisoes heb eu hateb ynghylch sut y byddai'r IPC yn gweithio gyda datganoli. Mewn anghydfod rhwng yr IPC a Llywodraeth y Cynulliad, yr IPC fyddai wedi cael y gair olaf. Mae hynny'n codi'r cwestiwn ynglŷn â chan bwy y bydd y gair olaf yn y dyfodol. Yr wyf yn tybio nad gan Lywodraeth y Cynulliad y bydd y gair hwnnw.

Mae gan Gymru bolisi ynni adnewyddadwy clir a diamwys, ond rhaid inni weithredu o fewn trefniadau datganoledig annigonol ar gyfer cynllunio. Gallai gorsaf bŵer niwclear newydd gael ei gorfodi arnom yn Wylfa, ond, o safbwynt technegol, gellid gorfodi gorsaf bŵer niwclear arnom yn ne'r wlad, hefyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw'n gweld angen unrhyw orsaf bŵer niwclear newydd yng Nghymru. Mae enghreifftiau eisoes o geisiadau ar gyfer prosiectau ynni'r gwynt mawr nad ydynt wedi bod yn destun craffu iawn ar lefel leol. Beth sydd i'n hargyhoeddi y bydd y sefyllfa'n newid ar ôl dileu'r IPC? A ninnau'n allforiwr ynni net, mae'n gall i Gymru gael pwerau gwneud penderfyniadau llawn dros yr adnoddau naturiol a ddefnyddiwn i greu ynni. Beth bynnag fydd cyfraniad Llywodraeth Cymru at y broses hon, yr wyf yn gobeithio y gwneir y pwynt hwnnw cyn gryfed a chyn eglured ag y bo modd.

Darren Millar: Yr wyf yn falch o gyfrannu at y ddadl, ac yn meddwl y gallwn sicrhau consensws a chytuno ar bob ochr o'r Siambr ar hyn. Nid oes amheuaeth ym meddyliau llawer o bobl nad yw'r broses cynllunio'n llawn maglau ac felly, mae unrhyw ymdrech i'w gwneud yn fwy dealladwy, yn haws ei rheoli ac yn decach o fudd mawr. Weinidog, yr oeddwn yn falch o glywed eich ymateb cadarnhaol i'r astudiaeth, ac mae'n galonogol

board almost all the recommendations, with the exception of recommendation 5, which says that you should not publish any more guidance—or words to that effect. I can understand your answer in that respect, as I feel that it is necessary at times to issue clear guidance from the centre.

What is important in this debate, with reference to our amendments 1 and 2, is that a clear timetable for implementation needs to be brought forward. We need to speed up the planning process itself as well as the implementation of change in that process, if it is to be positive.

There are several areas that I want to talk about. First of all, I want to add my name to the list of people who welcome the abolition of the Infrastructure Planning Commission. I am pleased that the Minister is sympathetic to our amendment 2, and I hope that she will be able to support it. I want to put on record that we will do what we can to persuade the UK Government to devolve the powers over energy projects of 50 MW and above, because we believe that this is the right place for those powers. We know that the IPC was not going to look at such large-scale programmes only; it was also going to look at other infrastructure, such as pipelines, and so we feel that this is the right place for those decisions to be made. I hope that the Minister will be able to support our amendment 2 on that basis, given that assurance.

I know that many felt annoyed and frustrated when the IPC was created by the former UK Government—and quite rightly so, because no-one wanted an unelected and unaccountable body to ride roughshod over the decisions, aspirations and views of local communities and local people, by making planning decisions about projects in Wales from a base in London. That is why I totally concur with some of Leanne Wood's comments. I think that Wales is the place for these decisions to be made.

There is also a strong case for the Government to work on a cross-party basis with all the parties represented in the Chamber to make the case for these powers to be devolved. To be frank, I do not believe

gweld eich bod wedi derbyn yr argymhellion i gyd, fwy neu lai, ac eithrio argymhelliad 5, sy'n dweud na ddylech gyhoeddi rhagor o ganllawiau—neu eiriau i'r perwyl hwnnw. Gallaf ddeall eich ateb yn y cyswllt hwnnw, oherwydd credaf fod angen cyhoeddi canllawiau clir o'r canol ar brydiau.

Yr hyn sy'n bwysig yn y ddadl hon, wrth gyfeirio at ein gwelliannau 1 a 2, yw bod angen cyflwyno amserlen glir ar gyfer gweithredu. Mae angen inni gyflymu'r broses cynllunio'i hun yn ogystal â rhoi newid ar waith yn y broses honno, er mwyn iddi fod yn gadarnhaol.

Mae sawl maes yr wyf am sôn amdanynt. Yn gyntaf, yr wyf am ychwanegu fy enw at restr y bobl sy'n croesawu dileu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog yn cydymdeimlo â'n gwelliant 2, ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn gallu ei gefnogi. Yr wyf am gofnodi y gwnawn bopeth o fewn ein gallu i berswadio Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatganoli'r pwerau dros brosiectau ynni 50 MW a mwy, oherwydd credwn mai dyma'r lle iawn i'r pwerau hynny. Gwyddom nad dim ond ar raglenni mawr fel hyn yr oedd yr IPC yn bwriadu edrych. Yr oedd am edrych ar fathau eraill o seilwaith hefyd, megis piblinellau, ac felly teimlwn mai dyma'r lle iawn i wneud y penderfyniadau hynny. Yr wyf yn gobeithio y gall y Gweinidog gefnogi'n gwelliant 2 ar y sail honno, wedi iddi gael y sicrwydd hwnnw.

Gwn fod llawer yn teimlo'n ddig ac yn rhwystredig pan grëwyd yr IPC gan gyn Lywodraeth y Deyrnas Unedig—a hynny'n gwbl iawn, oherwydd nid oedd neb am gael corff anetholedig ac anatebol i sathru ar benderfyniadau, dyheadau a safbwyntiau cymunedau lleol a phobl leol, drwy wneud penderfyniadau cynllunio am brosiectau yng Nghymru o ganolfan yn Llundain. Dyna pam yr wyf yn llwyr gytuno â rhai o sylwadau Leanne Wood. Credaf mai Cymru yw'r lle i wneud y penderfyniadau hyn.

Mae dadl gref hefyd o blaid cael y Llywodraeth yn gweithio ar sail drawsbleidiol gyda'r holl bleidiau a gynrychiolir yn y Siambr yn dadlau o blaid datganoli'r pwerau hyn. A bod yn blwmp ac

that it was done strongly enough by the previous UK Government, and we can really work together on this to achieve what we all, I think, want to achieve.

Another issue that the study emphasises is the need for better consultation in the planning process, and I fully concur with that. One of the main concerns, particularly in respect of larger developments, is the sense of the local community not really knowing what is going on and a feeling that things are being forced on them from the outside without reference to local people's opinions. Both the areas that I represent, Conway and Denbighshire, are in the process of producing their local development plans and, although there has been a degree of consultation, many are unhappy about how the process has been managed. Again, some clarity from the centre is needed, and improvements could be made.

Minister, you will be aware that the UK Government is embarking on a new decentralisation and localism Bill. There will be opportunities for that Bill to give framework powers to the Assembly. We would support your efforts, if you were able to make them, to seek further devolution to Wales in respect of planning.

Finally, I will pick up on a point that Angela Burns did not have time to cover, namely recommendation 16 in respect of conditions on planning developments. We all know that some local authorities are far better than others at attaching conditions to developments that benefit their communities. Therefore, there is inconsistency, and I fully support and subscribe to recommendation 16 on the need to issue guidance, as I know you do, Minister. It is extraordinary that one part of the report says that you should not issue guidance, but then recommendation 16 encourages you to do so. There needs to be more guidance on this area, so that there is clarity for developers as well as for local communities about what they can expect when a large development is proposed in their area. Therefore, I fully support the motion before us and I encourage you, Minister, to respond positively to our amendments.

yn blaen, ni chredaf i Lywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig wneud hynny'n ddigon cryf, a gallwn gydweithio o ddifrif i gyflawni'r hyn yr wyf yn meddwl ein bod i gyd am ei gyflawni.

Mater arall a bwysleisir yn yr astudiaeth yw bod angen gwell ymgynghori yn y broses cynllunio, ac yr wyf yn cytuno'n llwyr â hynny. Un o'r pethau yr wyf yn poeni fwyaf yn ei gylch, yn enwedig yng nghyswllt datblygiadau mwy, yw nad yw'r gymuned leol yn gwybod mewn gwirionedd beth sy'n digwydd a theimlad bod pethau'n cael eu gorfodi arnynt o'r tu allan heb roi sylw i farn pobl leol. Mae'r ddwy ardal yr wyf yn eu cynrychioli, Conwy a Sir Ddinbych, wrthi'n cynhyrchu eu cynlluniau datblygu lleol, ac er bod rhywfaint o ymgynghori wedi bod, mae llawer yn anhapus ynglŷn â sut y rheolwyd y broses. Unwaith eto, mae angen rhywfaint o eglurder o'r canol, a gellid gwella pethau.

Weinidog, byddwch yn gwybod bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cychwyn ar Fesur datganoli a lleoleiddio newydd. Bydd cyfleoedd i'r Mesur hwnnw roi pwerau fframwaith i'r Cynulliad. Byddem yn cefnogi'ch ymdrechion, pe bai modd ichi eu gwneud, i geisio rhagor o ddatganoli i Gymru yng nghyswllt cynllunio.

Yn olaf, soniaf am bwynt na chafodd Angela Burns gyfle i'w drafod, sef argymhelliad 16 yng nghyswllt amodau ar ddatblygiadau cynllunio. Yr ydym i gyd yn gwybod bod rhai awdurdodau lleol yn well o lawer nag eraill am roi amodau ynghlwm wrth ddatblygiadau sydd o fudd i'w cymunedau. Felly, gwelir anghysondeb, ac yr wyf yn llwyr gefnogi ac yn cytuno ag argymhelliad 16 bod angen cyhoeddi canllawiau, a gwn eich bod chithau hefyd, Weinidog. Mae'n rhyfedd iawn bod un rhan o'r adroddiad yn dweud na ddylech gyhoeddi canllawiau, ond wedyn, bod argymhelliad 16 yn eich annog i wneud hynny. Mae angen rhagor o ganllawiau yn y maes hwn, er mwyn i ddatblygwyr a chymunedau lleol ill dau fod yn glir ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl pan gynigir datblygiad mawr yn eu hardal. Felly, yr wyf yn llwyr gefnogi'r cynnig ger ein bron a phwysaf arnoch, Weinidog, i ymateb yn gadarnhaol i'n gwelliannau.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I am grateful for the positive way in which Members have looked at this report, and I commend them for reading their way through it. It may be concise, but it is still weighty.

I will pick up on some of the points that Members have raised. In our Assembly Government response, we have laid out when we will undertake the work on the vast majority of the recommendations. For example, it says clearly in relation to recommendation 1 that,

‘We will commission research under the Wales Planning Policy Research Programme, starting the procurement process in July 2010...After completion of that evaluation, we will revise planning policy as appropriate’.

In our response to recommendation 2, for example, we state that we will consider the role of the Wales planning forum within the current calendar year. Each recommendation is outlined in that way, so that you have a timetable on the responses. I would be happy to lay that timetable out on a page, if that would help Members to hold me to account appropriately according to that timetable.

A particular issue was mentioned by a couple of Members, namely call-ins. The guidance on call-ins was issued in May, but we are looking at all those aspects again in the context of this report.

Mike rightly identified that a big issue for the independent research group is how we can achieve a culture change in the way that the planning system operates and get more uniformity.

5.30 p.m.

It is not often that we call for uniformity in the Chamber, but if we were asked what a good planning system would look like, it would not have 25 variations, given that we have the three national parks as well as the 22 authorities for dealing with issues that could be dealt with in a much more standardised

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Yr wyf yn diolch am y ffordd gadarnhaol y mae'r Aelodau wedi edrych ar yr adroddiad hwn, ac fe'u cymeradwyaf am ddarllen drwyddo. Efallai ei fod yn gryno, ond mae'n dal yn swmpus o ran ei gynnwys.

Soniaf am rai o'r pwyntiau y mae'r Aelodau wedi'u codi. Wrth ymateb ar ran Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym wedi dweud pa bryd y gwnawn y gwaith ar fwyafrif helaeth yr argymhellion. Er enghraifft, mae'n dweud yn glir o ran argymhelliad 1,

‘Byddwn yn comisiynu ymchwil o dan Raglen Ymchwil Polisi Cynllunio Cymru, gan ddechrau'r broses gaffael ym mis Gorffennaf 2010...Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad, byddwn yn adolygu polisi cynllunio fel y bo'n briodol’.

Wrth ymateb i argymhelliad 2, er enghraifft, dywedwn y byddwn yn ystyried rôl fforwm Cynllunio Cymru o fewn y flwyddyn galendr hon. Cyfeirir at bob argymhelliad yn y modd hwnnw, er mwyn ichi gael amserlen ar gyfer yr ymatebion. Byddwn yn falch o roi'r amserlen honno ar dudalen, pe bai hynny'n gymorth i'r Aelodau fy nal yn atebol yn briodol yn ôl yr amserlen honno.

Crybwyllwyd un mater penodol gan un neu ddau o Aelodau, sef galw ceisiadau i mewn. Cyhoeddwyd y canllawiau ynglŷn â galw i mewn ym mis Mai, ond yr ydym yn edrych ar yr holl agweddau hynny eto yng nghydestun yr adroddiad hwn.

Yr oedd Mike yn llygad ei le'n dweud mai un peth pwysig i'r grŵp ymchwil annibynnol yw sut y gallwn sicrhau newid diwylliant yn y ffordd y mae'r system cynllunio'n gweithio a chael mwy o unffurfiaeth.

Nid yn aml yn y byddwn yn galw am unffurfiaeth yn y Siambr hon, ond pe gofynnid inni sut beth fyddai system cynllunio da, ni fyddai iddo 25 o amrywiadau, o ystyried bod gennym y tri pharc cenedlaethol yn ogystal â'r 22 awdurdod i ymdrin â materion y gellid

way.

Darren, I am grateful for your explanation of your amendment. I can honestly say that, if you had phrased the amendment so that it welcomed the abolition of the IPC and called for powers to be devolved to Wales, you would have had Government support for it. The difficulty is that the second part of your amendment welcomes the impact that the abolition of the IPC would have on future planning applications in Wales. Actually, if the powers are not devolved to us, we will not necessarily be in even a devolution-neutral place. I think that you will understand that, when it comes to the wording of the amendment, the Government cannot support it. However, I warmly welcome the assurance of your support for devolving powers to Wales.

I have already mentioned to the Assembly that I have written to Eric Pickles and Chris Huhne on this matter, and I am confident that, on the back of your statement today, your group and the Liberal Democrats will do likewise, because this has always attracted all-party support, and it would be good to take it forward in that way. Of course, the Bill that will deal with decentralisation and localism will give us a major opportunity to take this agenda forward.

When I read the report, I looked at some key points that kept coming through in the recommendations. I suggest to Members that if we had a planning system in Wales that was practical and consistent, that had the appropriate best practice guidance from the Assembly Government, that had appropriate standardisation enabling wider policy agendas to be delivered, that had mandatory training for members so that they could tackle some of the difficult issues facing them, that introduced cooling off periods—and, I, too, Angela, warmly welcomed the idea that Members should have a chance to consider why they had voted differently from the advice of professional planning officers before taking a final decision—in which conditions were minimised, and that provided something dear to the First Minister's heart, namely that we were able to share expertise and additional technical support in those

ymdrin â hwy mewn ffordd fwy safonol o lawer.

Darren, yr wyf yn ddiolchgar am eich esboniad ar eich gwelliant. Gallaf ddweud yn onest, petaech wedi geirio'r gwelliant yn y fath fodd ag i groesawu dileu'r IPC a galw am ddatganoli pwerau i Gymru, y byddai'r Llywodraeth wedi'ch cefnogi. Yr anhawster yw bod ail ran eich gwelliant yn croesawu'r dylanwad a gâi dileu'r IPC ar geisiadau cynllunio yng Nghymru yn y dyfodol. A dweud y gwir, oni ddatganolir y pwerau inni, ni fyddwn o anghenraid hyd yn oed mewn sefyllfa niwtral o ran datganoli. Credaf y deallwch na all y Llywodraeth gefnogi'r gwelliant hwn oherwydd y ffordd y cafodd ei eirio. Serch hynny, yr wyf yn croesawu'n gynnes eich addewid o gefnogaeth i ddatganoli pwerau i Gymru.

Yr wyf eisoes wedi sôn wrth y Cynulliad imi ysgrifennu at Eric Pickles a Chris Huhne ynghylch hyn, ac yr wyf yn ffyddiog, ar sail eich datganiad heddiw, y gwnaiff eich grŵp chi a'r Democratiaid Rhyddfrydol yr un fath, oherwydd, mae hyn wedi denu cefnogaeth pob plaid erioed, a byddai'n dda bwrw ymlaen ag ef yn y ffordd honno. Wrth gwrs, bydd y Mesur a fydd yn ymwneud â datganoli a lleoleiddio yn rhoi cyfle mawr inni fwrw ymlaen â'r agenda hon.

Pan ddarllenais yr adroddiad, edrychais ar nifer o bwyntiau allweddol a oedd yn codi o hyd yn yr argymhellion. Byddwn yn awgrymu i'r Aelodau pe bai gennym system cynllunio yng Nghymru a fyddai'n ymarferol ac yn gyson, gyda chanllawiau priodol ynglŷn â'r arferion gorau gan Lywodraeth y Cynulliad, system a fyddai wedi'i safoni'n briodol er mwyn gallu gwireddu agendâu polisi ehangach, system a fyddai'n cynnwys hyfforddiant gorfodol i'r aelodau er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â rhai o'r materion anodd sy'n eu hwynebu, system a fyddai'n cyflwyno cyfnodau cnoi cil—a'r oeddwn innau hefyd, Angela, yn croesawu'n gynnes y syniad y dylai Aelodau gael cyfle i ystyried pam yr oeddent wedi pleidleisio'n groes i gyngor swyddogion cynllunio proffesiynol cyn penderfynu'n derfynol—system a fyddai'n cynnwys cyn lleied o amodau ag y bo modd, a system a fyddai'n agos at galon y

areas for which not every local authority has the skills, we would have one that would be fit for purpose.

I am delighted that the independent group was clear that the planning system is sound, but in need of significant improvement. I hope that all Members will work with me to ensure that we deliver that.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is an objection, and so I defer all voting on this item until voting time.

As it is now past 5 p.m. and so I intend to move straight to the votes. Does anybody require the bell to be rung? I see that you do not.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Prif Weinidog, lle y gallem rannu arbenigedd a chymorth technegol ychwanegol yn y meysydd hynny nad oes gan bob awdurdod lleol y sgiliau i ymdrin â hwy, byddai gennym un a fyddai'n addas at ei phwrpas.

Yr wyf wrth fy modd bod y grŵp annibynnol yn glir bod y system cynllunio'n gadarn ond bod angen ei wella'n sylweddol. Yr wyf yn gobeithio y bydd pob Aelod yn gweithio gyda mi i sicrhau ein bod yn gwireddu hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Mae hi bellach wedi 5 p.m. a bwriadaf symud yn syth at y cyfnod pleidleisio. A oes unrhyw un yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4497: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
Amendment 1 to NDM4497: For 18, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw

Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4497: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 34.
 Amendment 2 to NDM4497: For 18, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4497: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 34.
 Amendment 3 to NDM4497: For 18, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Andrews, Leighton
Sargeant, Carl
Gregory, Janice
Hutt, Jane
Jones, Carwyn
Davidson, Jane
Griffiths, John
Jones, Gareth
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Davies, Jocelyn
Lewis, Huw
Griffiths, Lesley
Thomas, Gwenda
Cuthbert, Jeff
Mewies, Sandy
Lloyd, Val
Chapman, Christine
Law, Trish
Franks, Chris
Ryder, Janet
Wood, Leanne
Jenkins, Bethan
Lloyd, David
Thomas, Rhodri Glyn
Morgan, Rhodri
Davies, Andrew
Gibbons, Brian
Davies, Alun
Barrett, Lorraine
Watson, Joyce
Jones, Ann
James, Irene

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4497: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion NDM4497: For 52, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Franks, Chris
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice

Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Rhodri
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

The Deputy Presiding Officer: That brings **Y Dirprwy Lywydd:** Dyna ddiwedd ein
today's proceedings to a close. **trafodion am heddiw.**

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.34 p.m.
The meeting ended at 5.34 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)